



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BIL CASGLU A RHEOLI TRETHI (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol
yn ymgorffori'r
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r
Nodiadau Esboniadol

Diwygiwyd Chwefror 2016

BIL CASGLU A RHEOLI TRETHI (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi gan Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cafodd ei baratoi a'i osod yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Gorffennaf 2015 a gosodir Memorandwm diwygiedig yn awr yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), a gyflwynwyd gennyf ar 13 Gorffennaf 2015, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Jane Hutt AC

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

22 Chwefror 2016

Cynnwys

RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL	3
Pennod 1: Disgrifiad o Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)	3
Pennod 2: Cefndir Deddfwriaethol	4
Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	6
Pennod 4: Ymgynghori	21
Pennod 5: Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	24
 RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL	 36
Pennod 6: Opsiynau Polisi	36
Pennod 7: Costau a manteision	41
Pennod 8: Asesiadau effaith penodol	48
Pennod 9: Asesiad Cystadleuaeth	54
Pennod 10: Adolygiad Ôl-weithredu	54
 NODIADAU ESBONIADOL	 55

RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

Pennod 1: Disgrifiad o Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

1. Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) (“y Bil”) yw’r cyntaf o dri bil arfaethedig i sefydlu trefniadau trethi datganoledig yng Nghymru. Bydd y Bil yn cael ei ddilyn gan ddeddfwriaeth ar drethi penodol i bennu trethi newydd ar gyfer Cymru – Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi. Bydd angen ystyried darpariaethau’r Bil fel rhan o’r pecyn deddfwriaethol ehangach hwn yn y pen draw.
2. Diben y Bil yw cyflwyno’r fframwaith cyfreithiol angenrheidiol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn y dyfodol. Yn benodol, mae’r Bil yn darparu ar gyfer:
 - sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), a’i brif waith fydd casglu a rheoli trethi datganoledig;
 - rhoi pwerau a dyletswyddau priodol i ACC (a dyletswyddau a hawliau cyfatebol ar drethdalwyr ac eraill) mewn perthynas â dychwelyd ffurflenni treth a chynnal ymchwiliadau ac asesiadau i alluogi ACC i nodi a chasglu swm priodol o drethi datganoledig sy’n ddyledus gan drethdalwyr;
 - pwerau ymchwilio a gorfodi sifil cynhwysfawr, gan gynnwys pwerau sy’n galluogi ACC i ofyn am wybodaeth a dogfennau ac i asesu ac archwilio mangreoedd ac eiddo arall;
 - dyletswyddau ar drethdalwyr i dalu cosbau a llog dan rai amgylchiadau;
 - hawliau i drethdalwyr ofyn am adolygiadau mewnol o rai o benderfyniadau ACC ac i apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniadau o’r fath;
 - cyflwyno pwerau gorfodi troseddol i ACC.

Pennod 2: Cefndir deddfwriaethol

3. Mae Adran 107 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu cymhwysedd deddfwriaethol fel bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") yn gallu gwneud deddfau i Gymru a elwir yn Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
4. Mae Adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod darpariaeth Deddf Cynulliad o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad os yw'n ymwneud ag un neu fwy o'r pynciau a restrir o dan y penawdau yn Rhan 1 o Atodlen 7 y Ddeddf honno ac nad yw'n perthyn i unrhyw un o'r eithriadau a nodir yn y Rhan honno o'r Atodlen (p'un ai a yw'n dod o dan y pennawd hwnnw neu unrhyw un o'r penawdau hynny), ac nad yw'n berthnasol i unman arall heblaw Cymru nac yn rhoi, yn gorfodi, yn addasu neu'n dileu (nac yn rhoi'r pŵer i roi, gorfodi, addasu neu ddileu) swyddogaethau sy'n ymarferadwy ac eithrio mewn perthynas â Chymru.
5. Dyma'r pynciau perthnasol sy'n rhestru penawdau Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Threthiant (nid yw'r testun hwn ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi'i gwneud yn Gymraeg ydyw) -

14 Public Administration

Public Services Ombudsman for Wales. Auditor General for Wales, Audit, examination, regulation and inspection of auditable public authorities. Inquiries in respect of matters in relation to which the Welsh Ministers, the First Minister or the Counsel General exercise functions. Equal opportunities in relation to equal opportunity public authorities. Access to information held by open access public authorities.

The following are "auditable public authorities" and "equal opportunity public authorities"-

- (a) the Assembly,*
- (b) the Assembly Commission,*
- (c) the Welsh Government,*
- (d) persons who exercise functions of a public nature and in respect of whom the Welsh Ministers exercise functions,*
- (e) persons who exercise functions of a public nature and at least half of the cost of whose functions in relation to Wales are funded (directly or indirectly) by the Welsh Ministers, and*
- (f) persons established by enactment and having power to issue a precept or levy.*

The following are "open access public authorities"-

- (a) the Assembly,*
- (b) the Assembly Commission,*
- (c) the Welsh Government, and*
- (d) authorities which are Welsh public authorities, within the meaning of the Freedom of Information Act 2000 (c. 36).*

16A Taxation

Devolved taxes (as defined in section 116A(4))

6. Mae Adran 116A(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod treth a nodir yn Rhan 4A yn cael ei diffinio fel treth ddatganoledig. Yn unol â Rhan 4A ar hyn o bryd, mae gan y Cynulliad y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth mewn perthynas â threth ar drafodiadau yn ymwneud â buddiannau mewn tir (*adran 116L*), a threth gwarediadau tirlenwi (*adran 116N*).
7. Yn ogystal â'r darpariaethau uchod, mae Rhan 4A yn darparu'r cymhwysedd deddfwriaethol fel bod y Cynulliad yn gallu gwneud darpariaeth i benodi staff corff a sefydlwyd i gasglu a rheoli trethi datganoledig fel gweision sifil.
8. Cafodd y darpariaethau y sonnir amdanynt uchod yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ymwneud â threthi datganoledig eu mewnosod gan Ddeddf Cymru 2014.

Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

9. Prif amcan polisi Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Bil hwn yw darparu fframwaith llywodraethu clir a chryf yng Nghymru a fydd yn cefnogi'r gwaith o gasglu a rheoli trethi datganoledig Cymru yn effeithiol ac effeithlon.
10. Bydd y Bil yn sefydlu corff corfforaethol (Awdurdod Cyllid Cymru (ACC)) i fod â chyfrifoldeb cyfreithiol am gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru a bydd yn rhoi'r swyddogaethau a'r pwerau perthnasol i ACC fel y gall gyflawni ei gyfrifoldebau.

Y rheswm am y Bil ac esboniad o'r amseru

11. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU Fil Cymru ym mis Mawrth 2014 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Rhagfyr 2014. Mae'r Ddeddf yn darparu cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu dros feysydd trethi datganoledig ac yn darparu fframwaith clir ar gyfer yr opsiynau polisi yn ymwneud â threthi disodli. Mae'r meysydd hyn yn cael eu diffinio fel treth ar drafodiadau yn ymwneud â buddiannau mewn tir a threth gwarediadau tirlenwi.
12. Y Bil hwn yw'r Bil treth cyntaf i gael ei gyflwyno o ganlyniad i fesurau a gyflwynwyd yn Neddf Cymru 2014 ac mae'n gwneud darpariaethau ar gyfer system dreth i Gymru fel bod modd casglu a rheoli trethi datganoledig, ar ôl iddynt gael eu sefydlu.
13. Nid yw'r Bil yn gwneud darpariaeth fanwl ynglŷn â chynnwys trethi datganoledig penodol gan y bydd hyn yn dilyn mewn deddfwriaeth maes o law. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod nad oes modd deall na datblygu blaenoriaethau a phrosesau gweithredol system casglu a rheoli trethi heb roi rhywfaint o eglurhad o'r trethi y mae'n bwriadu eu casglu.
14. Mae Gweinidogion Cymru yn cynnig dwy dreth ddatganoledig, Treth Trafodiadau Tir (LTT) a Threth Gwarediadau Tirlenwi (LDT). Mae ymgynghoriadau ar gynigion ar gyfer y trethi hyn wedi'u cynnali a chafodd crynodeb o'r ymatebion ei gyhoeddi ym mis Medi 2015. Mae'r ymgynghoriad ar y trethi datganoledig yn darparu cyd-destun ar gyfer y Bil hwn ar gasglu a rheoli trethi. Y bwriad yw cyflwyno deddfwriaeth yn ymwneud â'r trethi hyn yn nhymor nesaf y Cynulliad fel eu bod yn disodli Treth Dir y Dreth Stamp (SDLT) a'r Dreth Dirlenwi (LFT) sy'n bodoli ar hyn o bryd pan gânt eu datgymhwyso yng Nghymru gan Orchymyn Trysorlys yn Senedd y DU - disgwylir y bydd hyn yn digwydd o 1 Ebrill 2018.
15. Bydd Llywodraeth y DU yn lleihau dyraniad grant bloc Cymru i adlewyrchu'r ffaith fod cyfrifoldeb am yr SDLT a'r LFT wedi'i ddatganoli. Os oes ymdrech dreth gyfartal (h.y. dim newid arwyddocaol yn lefel y dreth a ysgwyddir yng Nghymru), bydd yr enillion o drethi Cymru yn y flwyddyn gyntaf yn cael eu gwrthbwyso gan ostyngiad yn nyraniad grant bloc Llywodraeth Cymru sy'n gyfwerth â lefel y refeniw a ddisgwylir o'r SDLT a'r LFT. Mae'r fethodoleg ar

gyfer addasu grant bloc Cymru yn sgil datganoli trethi yn dal i gael ei thrafod.

16. Byddai peidio â datblygu trethi olyn yn lleihau'r grant bloc sydd ar gael, gan niweidio gwasanaethau cyhoeddus o bosibl yn sgil hynny. Yn ogystal, pe na bai Gweinidogion Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth trethu, byddai'r gallu i fenthycu (yn unol â darpariaeth Deddf Cymru 2014) hefyd yn cael ei golli. Felly, o fis Ebrill 2018 ymlaen, bydd angen i Gymru fod â deddfwriaeth trethu a system weithredol ar gyfer casglu a rheoli'r trethi datganoledig.
17. Mae'r Bil yn cael ei gyflwyno yn awr fel bod modd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei ystyried cyn diwedd tymor presennol y Cynulliad, gan olygu bod bron i ddwy flynedd ar gael wedyn i weithredu a sefydlu'r system dreth newydd.

Cefndir polisi

18. Mae cyd-destun polisi'r Bil hwn wedi'i gyflwyno ym Mhennod 1 o'r Papur Gwyn – *Casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru*, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2014.
19. Wrth ddatblygu ein polisi ac i'n helpu i osod safonau o ran sut y gellir sefydlu awdurdod trethu a sut y gallai weithredu, mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r ymatebion i'r Papur Gwyn, y cyhoeddwyd crynodeb ohono ym mis Chwefror 2015ⁱⁱⁱ (gweler Pennod 4 am ragor o fanylion). Rhoddwyd ystyriaeth i brofiad CThEM a'r Alban fel cymaryddion hefyd, ynghyd ag arferion rhyngwladol gorau yn fwy eang.
20. Yn Neddf yr Alban 2012 datganolwyd rhai pwerau trethu i'r Alban o fis Ebrill 2015. Mae'r tebygrwydd rhwng Bil Cymru a Deddf yr Alban o ran datganoli trethi llai yn gwneud yr Alban yn gymharydd defnyddiol i Gymru wrth ymdrin â datganoli trethi. Ymysg y gwahaniaethau allweddol mae'r setliad datganoledig yn yr Alban o'i chymharu â Chymru, a'r camau datganoli nesaf posibl.
21. Yng Nghymru, mae trethdalwyr a'u hasiantau yn gyffredinol yn deall prosesau a gweithdrefnau CThEM, a bydd y trethdalwr yng Nghymru yn dal i dalu treth i CThEM o ran trethi nad ydynt wedi'u datganoli. Hefyd, mae llawer o unigolion a busnesau yn gweithio ar draws ffin Cymru a Lloegr. Mae CThEM yn gymharydd defnyddiol felly i'r diben o ddatblygu dull Cymreig o ymdrin â threthiant, yn arbennig o ran prosesau a gweithdrefnau.
22. Wrth ddatblygu trefniadau trethu i Gymru, mae'r Gweinidog Cyllid wedi cadarnhau y dylid dilyn yr egwyddorion canlynol wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth trethi:
 - tegwch i fusnesau ac unigolion sy'n eu talu;
 - symlrwydd, gyda rheolau clir sy'n ceisio lleihau costau cydymffurfio a gweinyddu;
 - cefnogi twf a swyddi a fydd yn helpu i drechu tlodi;
 - darparu sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr.

23. Wrth baratoi am y Bil, mae dadansoddiad o ddeddfwriaeth trethi'r DU a deddfwriaeth trethi'r Alban wedi'i gwblhau. Mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno y dylai trefniadau casglu a rheoli trethi Cymru fod yr un fath â phrosesau a threfniadau gweithredol presennol y DU lle nad oes rheswm polisi da i wyro oddi wrth weinyddiaeth drethi'r DU (er enghraifft, am resymau effeithlonrwydd neu i ganolbwyntio ar anghenion Cymru).

Awdurdod Cyllid Cymru (Rhan 2)

24. Ynghyd â datblygu trethi datganoledig Cymreig, mae gofyniad i ddeddfu er mwyn pennu trefniadau i gasglu a rheoli'r trethi hyn.
25. Wrth bennu trefniadau gweinyddu trethi i Gymru, rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:
- cadw a diogelu gwybodaeth am faterion trethdalwyr unigol;
 - Siarter Trethdalwyr a threfniadau i'r trethdalwr apelio yn erbyn penderfyniadau;
 - pennu meini prawf ar gyfer cosbau, ac yn y pen draw y gallu i fynd ag unigolion a busnesau i'r llys am beidio â thalu trethi, yn seiliedig ar y meini prawf hynny a phenderfyniadau mewnol;
 - gwahanu pendant o rannau eraill o Lywodraeth Cymru sy'n gweinyddu taliadau a chasglu arian gan drethdalwyr;
 - defnyddio pwerau i gasglu taliadau a gwybodaeth, ac i orfodi gofynion am daliadau.
26. Mae'r swyddogaeth gweinyddu trethi yn rôl arbenigol. Mae casglu a rheoli trethi yn waith technegol iawn, o ran deall strwythurau trethi deddfwriaethol ac o ran gweithredu gweithdrefnau sy'n addas ar gyfer casglu trethi'n effeithiol ac effeithlon, a gweithio ar draws gwahanol drethi i ddeall y potensial ar gyfer gwella cydymffurfiaeth ac ymdrin ag achosion o osgoi talu trethi.
27. Dylai'r gwaith o gasglu a rheoli trethi gael ei wneud gan gorff sy'n gweithredu ar wahân i Weinidogion Cymru – dull sy'n gyson ag arferion gorau rhyngwladol^{iv}.
28. Bydd y corff sydd â'r pwerau hyn yn bennaf cyfrifol am eu gweithredu er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r pwerau'n cynnwys y rhai ar gyfer casglu ac ymchwilio i wybodaeth, cosbau a dirwyon, gorfodi sifil a throseddol, ac yn bwysicaf oll, hawliau apelio a chyfiawnder gweinyddol. Caiff y rhain eu hystyried ymhellach isod.
29. Yn ogystal â sefydlu ACC, ac wrth ragweld y rheolau trethi sylweddol a fydd yn dilyn, mae'r Bil hwn yn darparu'n briodol ar gyfer mecanwaith gweithredu trethi datganoledig, fel:

- pennu dyletswyddau ar drethdalwyr (e.e. i ddychwelyd ffurflenni treth, cadw gwybodaeth ac ati);
 - cyflwyno pwerau a dyletswyddau i ACC (e.e. i gasglu gwybodaeth, asesu cyfrifoldeb i dalu trethi, pennu cosbau a chymryd camau gorfodi);
 - darparu dull o adolygu penderfyniadau ACC ac apelio yn eu herbyn;
 - darparu ar gyfer creu rhai troseddau penodol ac ar gyfer y gwaith o ymchwilio iddynt a'u herlyn.
30. Bydd gan Weinidogion Cymru swyddogaeth o ran goruchwyllo a sicrhau bod y gwaith o gasglu a rheoli refeniw trethi yn gynaliadwy, effeithiol ac effeithlon yn yr hirdymor. Mae casglu trethi yn un o swyddogaethau cydnabyddedig y Llywodraeth (gan ei bod yn gwario'r hyn a dderbynnir ar wasanaethau cyhoeddus). Mae'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn adlewyrchu y dylid gweithredu'n annibynnol ar Weinidogion Cymru, ond na ddylid cael annibyniaeth o ran strategaeth na pholisi.

Cyfansoddiad ACC

31. Mae'r penderfyniad i sefydlu endid corfforaethol ar wahân i gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn adlewyrchu'r arferion gorau rhyngwladol o ran sicrhau y gall corff trethu gyflawni ei swyddogaethau heb ymyrryd yn wleidyddol ym mywydau trethdalwyr. Mae'r trefniadau atebolrwydd yn adlewyrchu'r angen i allu gwahaniaethu'n glir rhwng y corff corfforaethol a Gweinidogion Cymru.
32. Mae nifer o sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru sydd â strwythur Bwrdd, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Gofal Cymru. Yn y sefydliadau hyn, mae'r pwerau cyfreithiol wedi'u breinio yn y corff corfforaethol, ac mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd er mwyn i'r Bwrdd allu dwyn y weithrediaeth i gyfrif. Ceir sefydliadau sy'n cael eu harwain gan Gomisiynwyr hefyd (sydd, fel CthEM, â phwerau cyfreithiol wedi'u breinio yn y rôl yn hytrach na chorff corfforaethol), gan gynnwys y Comisiynydd Plant, Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Prif Weinidog Cymru (yn hytrach na'r Goron) sy'n gwneud y penodiadau hyn, i ddwyn Gweinidogion i gyfrif. Nid oes ganddynt strwythurau Bwrdd.
33. Mae llywodraethu cyrff cyhoeddus drwy gyfrwng Bwrdd gyda chyfuniad o aelodau gweithredol ac anweithredol wedi hen ennill ei blwyf yng Nghymru. Yn sgil hyn, ac yn unol ag arferion gorau, bydd ACC yn cael ei lywodraethu gan Fwrdd o Aelodau, ei gadeirio gan Gadeirydd anweithredol a bydd y Bwrdd yn cynnwys aelodau gweithredol ac anweithredol.
34. Bydd Bwrdd ACC yn cynnwys rhwng 8 ac 13 aelod. Bydd yr union faint yn cael ei benderfynu'n ddiweddarach i adlewyrchu'r graddau y bydd ACC yn dirprwyo ei waith casglu a rheoli trethi.
35. Fel y nodwyd uchod, mae'n bwysig iawn bod ACC yn gweithredu'n annibynnol ar Weinidogion Cymru, ond mae angen goruchwyllo ACC yn ddigonol er mwyn sicrhau bod swyddogaethau'n cael eu dirprwyo'n effeithiol

ac effeithlon a bod y system gasglu a rheoli tasgau ddatganoledig mor effeithlon â phosibl. Nid goruchwyllo gweithredol yw rôl Gweinidogion Cymru ond sicrhau bod y gwaith o gasglu a rheoli trethi Cymru yn gynaliadwy, effeithlon ac effeithiol yn yr hirdymor.

36. I'r perwyl hwn, mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddydau drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â dirprwyaethau arfaethedig neu gyfredol rhwng ACC a sefydliadau eraill. Mae hyn yn golygu na fydd Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo trefniadau dirprwyo ACC fel mater o drefn, ond bydd ganddynt bŵer i ymyrryd i gyfarwyddo ACC pan fo angen.

Aelodau anweithredol y Bwrdd (Rhan 2, adrannau 5 a 7)

37. Bydd y Cadeirydd ac aelodau anweithredol eraill o Fwrdd ACC yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru. Rhagwelir y bydd y Cadeirydd cyntaf yn cael ei benodi yn hydref 2017 cyn y dyddiad y disgwylir i ACC ddechrau ar ei waith yn iawn ym mis Ebrill 2018 neu cyn hynny.
38. Penodiadau cyhoeddus fydd yr aelodau anweithredol a wneir yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus (egwyddorion Nolan), a bydd y cyfnod yn y swydd yn ddim hwy na 5 mlynedd ac ar delerau a bennir gan Weinidogion Cymru. Gall person sy'n aelod anweithredol, neu sydd wedi bod yn aelod anweithredol, gael ei ail-benodi fel aelod anweithredol unwaith yn unig. Gall Gweinidogion Cymru gael gwared ar aelod pan fyddant yn ystyried bod yr aelod yn anaddas, yn methu neu'n amharod i gyflawni ei waith.

Aelodau gweithredol y Bwrdd a gweithwyr eraill ACC (Rhan 2, adrannau 3,6 a 9)

39. Bydd ACC yn cyflogi Prif Swyddog Gweithredol. Bydd y Prif Swyddog Gweithredol cyntaf yn cael ei benodi gan Weinidogion Cymru, a Bwrdd ACC fydd yn gwneud y penodiadau dilynol. Bydd Gweinidogion Cymru'n pennu telerau penodiad y Prif Swyddog Gweithredol cyntaf a bydd telerau cyflogaeth penodiadau dilynol yn amodol ar gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Bydd y Prif Swyddog Gweithredol yn gwasanaethu ar Fwrdd ACC ac ef neu hi fydd swyddog cyfrifyddu'r sefydliad.
40. Yn ogystal â'r Prif Swyddog Gweithredol, bydd naill ai 1 neu 2 aelod arall o staff ACC yn cael eu penodi gan y Prif Swyddog Gweithredol i'r Bwrdd. Bydd un aelod arall o staff hefyd yn cael ei benodi i'r Bwrdd fel aelod gweithredol etholedig; wedi'i benodi gan yr aelodau anweithredol, yn unol â chanlyniad pleidlais staff a gynhelir gan ACC.
41. Bydd gweithwyr ACC yn weision sifil, yn unol â'r ddarpariaeth yn Neddf Cymru 2014. Bydd penderfyniadau ACC ar gyflogau, pensiynau a telerau ac amodau eraill yn cael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Swyddogaethau Casglu a Rheoli Trethi (Rhan 2, adrannau 12-15)

42. Swyddogaeth gyffredinol ACC yw casglu a rheoli trethi datganoledig. Mae ganddo'r swyddogaethau penodol canlynol mewn perthynas â threthi datganoledig hefyd:
- darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i Weinidogion Cymru, er enghraifft am ffigurau referiw trethi datganoledig rhagamcanol a gwirioneddol;
 - darparu gwybodaeth a chymorth i drethdalwyr, eu hasiantiaid ac unigolion priodol eraill;
 - datrys cwynion ac anghydfodau'n effeithlon;
 - hyrwyddo cydymffurfiaeth trethi â'r gyfraith a diogelu rhag efadu trethi ac osgoi talu trethi. Arfer ei bwerau i gyflawni swyddogaethau cydymffurfio a gorfodi (e.e. pennu a chasglu llog neu gosbau, cymryd camau gorfodi troseddol, casglu gwybodaeth a gwneud ymholiadau i fusnes trethdalwyr);
 - cyfrifoldeb am baratoi, rheoli a monitro Siarter Safonau a Gwerthoedd;
 - dilyn cyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru yn unol â'r Bil;
 - gweithredu proses gwynion ac anghydfodau effeithiol, gan gynnwys proses adolygu fewnol a defnyddio'r broses apelau triwlynlysoedd fel y bo'n briodol.
43. Mae Pennod 2 *Casglu a Rheoli Trethi Datganoledig yng Nghymru* yn amlinellu meddylfryd Gweinidogion Cymru ynghylch swyddogaethau casglu a rheoli trethi a sut y dylid eu dirprwyo pe bai angen. Bydd ACC yn cadw cyfrifoldeb cyfreithiol dros gyflawni ei swyddogaethau a'r disgresiwn i ddirprwyo ai peidio, am ba hyd ac i ba raddau. Bydd y partner(iaid) y gellir dirprwyo swyddogaethau iddynt yn cael eu henwi drwy is-ddeddfwriaeth. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am ddirprwyo allanol a wneir gan ACC ac unrhyw gyfarwyddiadau a gyhoeddwyd mewn perthynas â hynny oni bai y byddai gwneud hynny'n amharu ar gyflawni swyddogaethau ACC yn effeithiol.
44. Bydd unrhyw bartner(iaid) y mae ACC yn dirprwyo swyddogaethau iddo yn rhydd i gyflawni swyddogaethau, ond bydd rhaid iddo wneud hynny gan gydymffurfio'n gaeth â'i gytundeb dirprwyo ag ACC. Mae'n rhaid i gamau gweithredu ACC ac unrhyw ddirprwy gydymffurfio ag egwyddorion trethi Gweinidogion Cymru hefyd. Bydd y Bil yn galluogi ACC i gyfarwyddo unrhyw sefydliad sy'n cyflawni swyddogaethau ar ei ran ynghylch sut i gyflawni'r swyddogaeth honno ac yn gallu dirymu neu amrywio'r trefniadau dirprwyo neu'r cyfarwyddyd ar unrhyw adeg. Bydd ACC yn cadw cyfrifoldeb cyfreithiol am gasglu a rheoli trethi datganoledig.
45. Er budd tegwch a thryloywder, mae'r Bil yn ei gwneud hi'n ofynnol i ACC gyhoeddi gwybodaeth am unrhyw drefniadau dirprwyo allanol a wnaed a chyfarwyddiadau a roddwyd mewn perthynas â nhw, oni bai y byddai hynny'n amharu ar allu ACC i gyflawni ei swyddogaethau. Yn ymarferol, (ond nid yw'n fater i'r Bil), disgwylir y byddai'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan ACC yn cynnwys y cytundeb ei hun, hyd y trefniadau dirprwyo, y meini prawf ar

gyfer monitro'r amodau ar gyfer dirymu'r trefniadau, y broses ar gyfer dirymu a'r costau.

46. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddydau cyffredinol a rhagwelir y bydd hyn yn digwydd drwy lythyr cylch gwaith blynyddol a fydd yn cadarnhau cyllideb flynyddol ACC ac yn pennu amcanion polisi strategol, a fydd yn eu tro yn helpu i lywio cynnwys cynllun corfforaethol ACC.
47. Bydd Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi unrhyw gyfarwyddydau cyffredinol a roddwyd.

Llywodraethu ac Archwilio (Rhan 2, Adrannau 26-30)

48. Bydd y trethi datganoledig a gesglir gan ACC yn cael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru i helpu i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Felly, mae'n bwysig bod ACC yn cael ei ddwyn i gyfrif (gan Weinidogion Cymru, y Cynulliad a'r cyhoedd) am ei weithgareddau a'i wariant wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau. Mae'r Bil yn ei gwneud hi'n ofynnol i ACC:
 - gyhoeddi Siarter Safonau a Gwerthoedd a chyflwyno copi gerbron y Cynulliad;
 - cyhoeddi cynllun corfforaethol (yn amodol ar gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru) a gosod copi gerbron y Cynulliad;
 - cyhoeddi adroddiad blynyddol, gan roi copi i Weinidogion Cymru a gosod copi gerbron y Cynulliad;
 - paratoi cyfrifon blynyddol (a archwiliwyd a'u chyflwyno gerbron y Cynulliad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru);
 - paratoi Datganiad Treth blynyddol (a archwiliwyd) a chyflwyno copi gerbron y Cynulliad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Siarter Safonau a Gwerthoedd (Rhan 2, Adran 26)

49. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn hanfodol i ACC greu diwylliant cadarnhaol o ran talu trethi, hyrwyddo cydymffurfiaeth ac annog pobl i beidio ag osgoi talu trethi. I'r perwyl hwn, dylai ACC geisio datblygu a chynnal cysylltiadau da â threthdalwyr a'u hasiantau yn barhaus. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen iddo fod yn glir am ei ddisgwyliadau ei hun am drethdalwyr, a hefyd yr hyn y gall trethdalwyr ei ddisgwyl ganddo.
50. Caiff Siarteri Trethdalwyr yn amlinellu'r berthynas rhwng y trethdalwr a'r awdurdod trethi eu defnyddio'n helaeth (er enghraifft gan CThEM), a bernir eu bod yn arfer da. Wrth osod cywair diwylliannol cadarnhaol ar gyfer y berthynas rhwng y trethdalwr ac ACC, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ACC baratoi Siarter sy'n cynnwys safonau ymddygiad a gwerthoedd y disgwylir i ACC yn lynu atynt wrth ymdrin â threthdalwyr, eu hasiantau ac eraill wrth arfer eu swyddogaethau. Caiff y Siarter ei ddatblygu drwy ymgynghori â rhanddeiliaid a'i adolygu yn unol â chylch 5 mlynedd o leiaf, eto drwy ymgynghori â rhanddeiliaid. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ACC adrodd ar effeithiolrwydd ei Siarter Trethdalwyr fel rhan o'i adroddiad blynyddol.

51. Mae rhwymedigaeth gyffredin ar drethdalwyr, eu hasiantaeth a phersonau eraill wrth iddynt ymdrin ag ACC. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru yn awyddus i sicrhau nad yw'r disgwyliadau ar drethdalwyr yn fwy beichus na llethol na'r rhai sydd ar ACC – ac nad ydynt yn ymddangos felly ychwaith.

Ffurflenni, Ymholiadau ac Asesiadau Treth (Rhan 3)

52. Mae'r rhan hon o'r Bil yn rhoi nifer o ddyletswyddau ar drethdalwyr mewn perthynas, er enghraifft, â chadw cofnodion treth cysylltiedig. Mae hefyd yn gosod trefniadau ACC ar gyfer penderfynu atebolrwydd trethdalwr i dalu treth ddatganoledig ac yn darparu i ACC wneud ymholiad, penderfyniad neu asesiad.
53. Bwriedir i'r dyletswyddau a'r pwerau yn y rhan hon o'r Bil wneud i'r system dreth weithio'n effeithiol; fodd bynnag, byddant yn cael eu sbarduno gan ddeddfwriaeth ddilynol, felly ni fyddant yn berthnasol nes i'r ddeddfwriaeth ar drethi penodol ddod i rym.

Osgoi ac Efadu

54. Mae Gweinidogion Cymru wedi datgan yn glir y bydd mynd i'r afael ag achosion o osgoi talu trethi datganoledig yn un o'r prif flaenoriaethau iddynt ac y byddant yn cyflwyno trefniadau cadarn ar gyfer hyn. Mae Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau eu bod am weld mwy o dystiolaeth o faint, cwmipas a natur yr achosion o osgoi talu trethi mewn perthynas â'r SDLT a'r LFT yng Nghymru, i sicrhau bod dulliau deddfwriaethol a gweithredol o fynd i'r afael ag achosion o osgoi talu trethi yn glir, cadarn a chymesur. Cafodd y materion hyn eu hystyried ymhellach yng nghyd-destun ymgynghoriadau ar y LTT a'r LDT. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi y bydd mesurau osgoi trethi yn cael eu hystyried ymhellach yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth ar drethi penodol.

Gorfodi

55. Mae system drethi Cymru yn cael ei chynllunio i gefnogi cydymffurfiaeth gan drethdalwyr a bydd trefniadau o'r fath yn gweithio yn y rhan fwyaf o achosion. Ar adegau, fodd bynnag, bydd angen mesurau ychwanegol i annog cydymffurfiaeth bellach, ac felly cynigir cyflwyno systemau gorfodi sifil a throeddol.
56. Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o unrhyw gamau gorfodi angenrheidiol yn cael eu gwneud trwy gyfrwng system gosbau sifil. Yn achos gorfodi troeddol, bydd pwerau'n cael eu cadw ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol, cymhleth a gwerth uchel. Mae Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau y bydd ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal ar bwerau gorfodi troeddol arfaethedig y gellid eu breinio yn ACC.

Pwerau ymchwilio (Rhan 4)

57. Yng nghwrs arferol busnes, rhagwelir y bydd ACC yn derbyn gwybodaeth neu ddogfennau i wirio'r sefyllfa dreth mewn perthynas â pherson drwy

gytundeb ffurfiol gyda'r person dan sylw. Fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau lle na fydd modd gwneud cytundeb anffurfiol o'r fath neu lle na fydd yn arwain at ddarparu gwybodaeth neu ddogfennau. Er mwyn galluogi ACC i weld beth yw sefyllfa dreth person lle nad oes gwybodaeth neu ddogfennau wedi'u darparu drwy drefniadau anffurfiol, mae'r Bil yn rhoi pwerau i ACC gaffael gwybodaeth a dogfennau sydd gan drethdalwyr a phersonau eraill, yn ogystal â phwerau i archwilio safleoedd.

Cosbau (Rhan 5)

58. Un o ganlyniadau'r Bil hwn sy'n sefydlu system drethi datganoledig ar gyfer Cymru yw y bydd y system orfodi gyfredol a weithredir gan CThEM yn dod i ben yng Nghymru mewn perthynas â threthi datganoledig. Mae'r Bil yn darparu mai ACC fydd yn gyfrifol am bennu a gweithredu system orfodi ddigon cadarn ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig, drwy ddefnyddio pwerau ymchwilio a chosbau troseddol priodol pan geir achosion o ddiffyg cydymffurfio ac efadu talu trethi. Pan na fydd treth yn cael ei thalu ar amser, neu'n cael ei datgan yn anghywir, mae CThEM yn defnyddio pwerau cosbau sifil. Mae'n amlwg bod angen pwerau tebyg ar ACC i gyflwyno system gosbau briodol i hyrwyddo cydymffurfiaeth ac atal achosion o ddiffyg cydymffurfio. Byddai peidio â darparu pwerau o'r fath yn cyflwyno'r neges anghywir i'r rhai sy'n ystyried osgoi talu treth sy'n ddyledus a gallai leihau faint o refeniw a gesglir.
59. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer sefydlu'r system gosbau ganlynol:
- (a) cosbau am fethu llenwi ffurflenni treth neu dalu treth ddatganoledig;
 - (b) cosbau am wybodaeth anghywir;
 - (c) cosbau yn gysylltiedig â threfniadau cadw cofnodion ac ad-dalu;
 - (d) cosbau yn gysylltiedig ag ymchwiliadau.
60. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer:
- (e) yr amgylchiadau lle mae atebolrwydd am y cosbau hynny'n berthnasol;
 - (f) symiau y cosbau hynny;
 - (g) yr amgylchiadau lle gallai'r atebolrwydd am y cosbau hynny gael ei ddileu neu'r symiau gael eu lleihau;
 - (h) asesu'r cosbau hynny;
 - (i) talu'r cosbau hynny.
61. Mae'r Bil yn darparu y bydd lefelau a mathau y cosbau a gyflwynir gan ACC, ac unrhyw dâl llog cysylltiedig, yn gyson â'r rhai a gyflwynir gan CThEM ar hyn o bryd. Mae hyn yn gyson ag egwyddorion tegwch a darparu sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth hefyd i liniaru cosbau dan rai amgylchiadau. Mae hyn yn cynnwys y pŵer i newid darpariaethau cosbau lle bo angen. Bydd unrhyw newidiadau yn destun ymgynghoriad priodol â rhanddeiliaid.

62. Bydd y ddeddfwriaeth ar yr LTT a'r LDT yn nodi manylion clir am yr amgylchiadau treth penodol lle y defnyddir cosbau gwahanol, yr amodau ar gyfer eu defnyddio a sut y cânt eu cyfrifo (gan gynnwys codi llog). Bydd ACC yn ymgynghori ar ddefnyddio cosbau a'r broses o'u gweithredu ac yn cyhoeddi canllawiau ar hyn.

Gorfodi troseddol (Rhan 9)

63. Mae troseddau mewn perthynas â threthi yn y DU yn cynnwys y canlynol:
- twyllo'r referniw cyhoeddus – ymddygiad twyllodrus sy'n amddifadu'r awdurdod trethu o incwm drwy naill sylwadau ffug cadarnhaol neu guddio neu beidio â datgelu atebolrwydd neu incwm (yn berthnasol i droseddau a gyflawnwyd yng Nghymru a Lloegr yn unig);
 - cuddio ac ati – cuddio, dinistrio neu ddifa dogfen yn dilyn hysbysiad gan yr awdurdod trethu bod y ddogfen yn destun hysbysiad gwybodaeth;
 - troseddau twyll - nid yw'r rhain yn benodol i'r system dreth ac maent yn berthnasol yn gyffredinol i unrhyw ymddygiad troseddol twyllodrus.
64. Dim ond ychydig o droseddau SDLT ac LfT sydd wedi'u herlyn yng Nghymru a Lloegr yn y blynyddoedd diwethaf. Yn y 12 mis diwethaf, ni chafwyd unrhyw ymchwiliad troseddol ar gyfer y naill dreth na'r llall^v yng Nghymru. Nid yw'r prinder ymchwiliadau troseddol diweddar yng Nghymru, fodd bynnag, yn dileu'r angen yma i gyflwyno trefniadau ar gyfer camau gorfodi troseddol pe bai'r angen yn codi. Gallai camau gorfodi llwyddiannus fod o fudd i ddinasyddion yng Nghymru yn y pen draw, gyda threthi heb eu talu yn cael eu hadennill at ddefnydd gwasanaethau cyhoeddus. Felly, mae'r Bil yn cyflwyno trefniadau sy'n gyson â threfniadau cyfredol y DU, yn cefnogi cydymffurfiaeth ac yn gweithredu fel arf ataliol cryf i unrhyw un sy'n ystyried osgoi talu trethi.
65. Mae mabwysiadu dull cyson o ymchwilio a gorfodi troseddol yn darparu eglurder i drethdalwyr ac mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru fel y gallant, drwy reoliadau, gyfarwyddo bod darpariaethau Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 a Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 yn berthnasol i ACC. Er mwyn sicrhau bod y pwerau'n eglur bydd offeryn statudol yn cynnwys y rheoliadau drafft yn cael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad i'w gymeradwyo drwy benderfyniad cyn i'r rheoliadau gael eu gwneud.
66. Yn ogystal â'r pwerau i ymchwilio, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer pwerau mewn perthynas â Deddf Enillion Troseddau 2002 a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.

Adolygiadau ac Apelau (Rhan 8)

67. Nid oes gan Gymru ei system gyfreithiol ei hun ac ar ôl ystyried yr opsiynau sydd ar gael, penderfynodd Gweinidogion Cymru mai'r ffordd orau ymlaen o ran symlrwydd, sefydlogrwydd a sicrwydd yw defnyddio system dribiwnlys

dwy haen gyfredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder gan y bydd hon yn diwallu'r anghenion mwyaf uniongyrchol. Y bwriad yw ategu'r trefniant â Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

68. Y nod fydd osgoi anghydfod cyn belled ag sy'n bosibl, ac fe weithir tuag at gyrraedd y sefyllfa orau honno wrth roi'r Bil hwn ar waith. Bydd ACC yn ceisio cael pethau'n iawn y tro cyntaf, gan gydweithio â threthdalwyr, yn cyfathrebu'n glir ac effeithiol ac yn rhoi esboniad priodol o benderfyniadau.
69. Pan fydd anghydfod yn codi, y nod fydd datrys materion mewn modd mor anffurfiol a chost-effeithiol â phosibl, gan gydnabod y gall penderfyniad mwy ffurfiol fod yn angenrheidiol a/neu'n ddymunol i ddatrys materion mewn rhai achosion, yn enwedig pan fydd pwynt o egwyddor neu ansicrwydd cyfreithiol.
70. Pan fydd mater yn codi rhwng ACC a'r trethdalwr i gychwyn, bydd ACC yn ceisio datrys y sefyllfa'n anffurfiol drwy esbonio'r rhesymau am y penderfyniad mor llawn a chlr â phosibl a cheisio gwrandao ac ymateb i unrhyw bryderon sydd gan y trethdalwr. Os bydd penderfyniad ACC yn cael ei ddiffinio fel un y gellir apelio yn ei erbyn, mae'r Bil yn darparu, os gall unigolyn ddangos bod y penderfyniad yn effeithio arno neu y bydd yn effeithio arno, y bydd modd iddo ddefnyddio'r hawliau adolygu ac apelio.
71. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer proses setlo a allai ddigwydd yn lle adolygiad mewnol. Gall ACC a'r trethdalwr ddod i gytundeb rhwng y naill a'r llall. Mae cytundeb o'r fath yn cael ei ystyried yn derfynol yn yr un modd â phenderfyniad tribiwnlys (ond ni fydd hawliau apelio pellach gyda chytundeb setliad). Fodd bynnag, ceir cyfnod 'oeri' o 30 diwrnod wedi'i ddarparu yn y Bil, a gall y trethdalwr dynnu'n ôl o'r cytundeb yn y cyfnod hwn.
72. Yn union fel model datrys anghydfod Revenue Scotland, mae'r adolygiad mewnol yn gam yn y broses sydd ar gael rhwng trafodaeth anffurfiol gyda ACC ac apêl i'r tribiwnlys. Cynhelir y cam hwn gan ACC ac yn fewnol, yn debyg i'r broses setlo uchod, ond mae'n fwy ffurfiol ac annibynnol. Nid oes rhaid defnyddio'r broses adolygiadau mewnol ond bydd ACC yn ceisio annog defnydd ohoni drwy ddatblygu system gost-effeithiol, deg sy'n cael ei pharchu ac sy'n cael ei gweld fel ffordd o osgoi'r broses apelio allanol.
73. Mae'r Bil hefyd yn nodi ar ba sail y gellir gwneud cais am adolygiad ac yn nodi ar ba ffurf y byddai hynny'n digwydd.
74. Mewn achosion pan na fydd y trethdalwr yn fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol neu'n amharod i gymryd rhan yn y broses hon ac yn dymuno symud ymlaen yn syth i apêl allanol, mae'r Bil yn nodi'r amserlenni a'r broses ar gyfer cyflwyno apêl.
75. Pan fo apêl yn cael ei ganiatáu yn erbyn penderfyniad mae'r Bil yn pennu mai i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf y bydd hynny'n digwydd. Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd fydd yn penderfynu pa Dribiwnlys a ddefnyddir. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cadarnhau ei bod yn

fodlon i'r strwythur tribiwnlysoedd cyfredol gael ei ddefnyddio i glywed apelau mewn perthynas â threthi datganoledig.

76. Pan fydd trethdalwr yn derbyn hysbysiad o benderfyniad y gellir apelio yn ei erbyn, mae'r Bil yn ceisio caniatáu 30 diwrnod i'r trethdalwr hysbysu ei fwriad i apelio. Mae'r cyfnod hwn yn para o ddyddiad hysbysiad y penderfyniad y gellir apelio yn ei erbyn (os na fwriedir gwneud cais am adolygiad mewnol); o hysbysu am gasgliadau adolygiad (pan wnaed cais am adolygiad mewnol); neu o ddyddiad tynnu'n ôl o unrhyw drefn datrys anghydfod arall y dechreuwyd arni (fel cyfryngu), fel y bo'n briodol.
77. Mewn achosion lle y gellir apelio yn erbyn penderfyniad ond na roddwyd hysbysiad o apêl o fewn y terfyn amser perthnasol, mae'r Bil yn darparu y gall ACC gytuno i dderbyn hysbysiad am apêl y tu allan i'r amser neu, yn absenoldeb caniatâd gan ACC, mae'r Bil yn caniatáu i'r trethdalwr ofyn am ganiatâd y Tribiwnlys dan rai amgylchiadau. Bydd penderfyniad y Tribiwnlys a yw am roi caniatâd i apelio ai peidio yn derfynol, er mwyn atal y posibilrwydd o apêl arall yn erbyn y penderfyniad hwn.
78. Yr egwyddor gyffredinol ynghylch apelau yw y dylai'r hawl i apelio i'r Tribiwnlys fod yn berthnasol i unrhyw un o'r penderfyniadau y gellir apelio yn eu herbyn, cyn belled â bod y rheolau ar gyfer gwneud apêl o'r fath yn cael eu dilyn. Fodd bynnag, mae'r Bil yn darparu'n glir o dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid gwrthod cais trethdalwr i apelio. Mae'r rhain yn gyson â darpariaethau perthnasol y DU a'r Alban, ac fel a ganlyn:
- pan fo'r trethdalwr eisoes wedi hysbysu am adolygiad ar yr un mater ac nad yw'r adolygiad hwnnw wedi gorffen neu wedi'i drin fel petai wedi gorffen;
 - pan fo cytundeb setlo terfynol yn bodoli rhwng y trethdalwr a'r awdurdod trethu;
 - pan fo'r anghydfod yn ymwneud â phenderfyniad i ddiwygio hunanasesiad tra bo ymchwiliad yn dal ar y gweill nad yw wedi'i gwblhau eto.
79. Mae'r llwybr y bydd apêl yn ei gymryd ar ôl cael ei gyflwyno i Dribiwnlys y tu allan i reolaeth ACC ac nid yw'n fater i'r Bil hwn. Bydd y rheolau sy'n llywodraethu'r Tribiwnlys yn penderfynu sut y dylid categoreiddio'r mater, sut y pennir y costau, ac a oes modd cyflwyno apelau pellach a sut.

Llog (Rhan 6) a Darpariaethau Terfynol (Rhan 10)

80. Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer talu llog ac i Weinidogion Cymru bennu cyfradd y llog i'w dalu. Nid yw codi llog yn fath o gosb neu sancsiwn, yn hytrach caiff ei godi i ddigolledu ACC neu'r trethdalwr am golli'r defnydd o arian. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer tal llog ar symiau taladwy i ACC ac ar symiau taladwy gan ACC.
81. Mae darpariaethau terfynol y Bil yn cynnwys manylion ynghylch sut gall ACC gyhoeddi hysbysiadau, y gofynion ar gyfer rhoi hysbysiadau a dogfennau i

ACC, dehongliad, a thabl sy'n esbonio termau sydd wedi'u diffinio neu eu hesbonio mewn ffordd arall yn y Bil.

Ar bwy y mae'r Bil yn effeithio?

82. Gall y Bil effeithio ar y rhai sy'n gysylltiedig â chasglu a rheoli trethi datganoledig neu sydd â rhywfaint o gysylltiad â'r broses. Mae hyn yn cynnwys trethdalwyr uniongyrchol a'u hasiantiaid, a fydd angen bod yn barod i weithredu system wahanol o ddatgan trethi o bosibl a system dalu wahanol o bosibl o fis Ebrill 2018. Newid gweinyddol bychan fydd hwn mae'n debyg.
83. Yn ogystal ag asiantiaid sy'n gweithredu ar ran trethdalwyr, bydd effaith hefyd ar arbenigwyr y diwydiant wrth iddynt hwythau hefyd baratoi ar gyfer gwahanol ddulliau o gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru (yn ogystal â gwaith paratoi ar gyfer y trethi penodol maent yn gysylltiedig â nhw). Mae'r rhain yn cynnwys arbenigwyr trethi, cyfrifwyr, cyfreithwyr a chwmnïau rheoli gwastraff.
84. Bydd effeithiau posibl newidiadau i ddulliau casglu a rheoli trethi a dulliau talu yn cael eu pennu yn y Biliau trethi penodol yn dilyn y prosesau ymgynghori a'r gwaith o ddatblygu polisi pellach ar y trethi unigol hynny. Bydd Asesiadau Effaith Rheoleiddiol y Biliau hynny yn adlewyrchu'r effeithiau hyn.
85. Bydd effaith ar rai cyrff cyhoeddus hefyd gan fod y Bil yn rhoi pwerau i ACC sy'n debyg i bwerau CThEM mewn rhai meysydd. Er enghraifft, bydd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru rôl i archwilio gweithgareddau ACC os derbynnir cwyn ac mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am archwilio ACC a rhoi barn ar y cyfrifon a gyflwynir.

Gweithredu a chyflawni

86. Mae prif elfennau'r ddeddfwriaeth ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i greu is-ddeddfwriaeth ac mae'r pwerau hyn wedi'u crynhoi ym Mhennod 5 y Memorandwm Esboniadol hwn. Mae'n fwiad gan y Llywodraeth i ymgynghori ar fanylion yr is-ddeddfwriaeth arfaethedig.
87. Rhagwelir y bydd Rhan 1, Rhan 10 ac adrannau 37, 82, 117 a 171 y Ddeddf yn dod i rym ddiwrnod ar ôl iddi gael Cydsyniad Brenhinol ac y bydd gweddill darpariaethau'r Ddeddf yn dod i rym ar ddiwrnod y bydd Gweinidogion Cymru yn ei bennu drwy orchymyn a wneir gan offeryn statudol.

Risg/peryglon os na chyflwynir deddfwriaeth

88. Os na fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cymeradwyo'r Bil neu os na cheir Cydsyniad Brenhinol iddo, ni fydd mandad deddfwriaethol i awdurdod trethu annibynnol fod yn gyfrifol am gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru. Er ei bod hi'n ymarferol i'r ddeddfwriaeth drethi arfaethedig

benodol gynnwys manylion am gasglu a rheoli trethi, nid yw amseriad y ddeddfwriaeth honno yn caniatáu sefydlu awdurdod trethu a'r materion gweithredu sydd angen mynd i'r afael â nhw (er enghraifft, sefydlu systemau TGCh fel y gellir cyflwyno ffurflenni treth a thaliadau'n electronig, a rheoli data trethdalwyr yn ddiogel ac effeithlon).

Cwmpas tiriogaethol

89. Mae'r Bil yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Amserlen

90. Credir bod cyfnod gweithredu o ddwy flynedd o leiaf yn briodol ar gyfer sefydlu ACC a'r trefniadau casglu a rheoli trethi. Drwy gyflwyno'r Bil hwn yn nhymor cyfredol y Cynulliad yn hytrach na'i adael i'r tymor nesaf, gellir cyflawni llawer o waith sy'n gysylltiedig â sefydlu ACC a'i wneud yn barod i weithredu o fewn amserlen sy'n caniatáu gweithredu trylwyr.
91. Yn amodol ar gymeradwyaeth i'r Bil gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Cydsyniad Brenhinol wedi hynny, dyma'r cerrig milltir arfaethedig o ran ei roi ar waith:
- Penderfynu ar y model gweithredu ar gyfer casglu a rheoli LTT a LDT – Mehefin 2015
 - Cydsyniad Brenhinol – rhagwelir y bydd hynny'n digwydd ym mis Ebrill 2016
 - Penodi Cyfarwyddwr Cyflawni ACC – haf 2016
 - Ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth - gaeaf 2016
 - Penodi Cadeirydd ACC – hydref 2017
 - Is-ddeddfwriaeth – i'w chwblhau erbyn gaeaf 2017
 - Penodi aelodau anweithredol y Bwrdd – gaeaf 2017
 - Ymgynghori ar ganllawiau treth drafft – gaeaf 2017/18
 - Ymgynghori ar Siarter Trethdalwyr – gaeaf 2017/18
 - Cyhoeddi Siarter Trethdalwyr a Chynllun Corfforaethol ACC – gwanwyn 2018
 - Y dyddiad y disgwylir i ACC ddechrau ar ei waith – mis Ebrill 2018 neu cyn hynny

Pennod 4: Ymgynghori

Ymgynghori ar gynigion ar gyfer Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

92. Cyhoeddodd Gweinidogion Cymru y Papur Gwyn - Casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru - ar 23 Medi 2014. Daeth y Papur Gwyn yn sgil cyflwyno Bil Cymru a oedd yn cynnig pwerau ariannol newydd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan gynnwys pwerau i gyflwyno trethi newydd i ddisodli trethi'r DU, Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi, yng Nghymru o fis Ebrill 2018.
93. Mae gan y gwaith o ddatblygu system casglu a rheoli trethi yng Nghymru gysylltiad agos â datblygu cynigion ar gyfer dwy dreth ddisodli newydd yng Nghymru – Treth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) a Threth Trafodiadau Tir (LTT). Mae rhai trefniadau casglu a rheoli yn berthnasol i'r naill a'r llall ac mae rhai'n berthnasol i'r trethi unigol, ac yn wir yn dibynnu ar drefniadau'r dreth ei hun.
94. Roedd y Papur Gwyn yn ystyried yr opsiynau a'r cyfleoedd ar gyfer y polisi a'r ddeddfwriaeth ddilynol ar gasglu a rheoli trethi yng Nghymru yn y dyfodol. Gofynnwyd am safbwyntiau ar y cynigion fel rhan o gyfnod ymgynghori 12 wythnos, a ddaeth i ben ar 15 Rhagfyr 2014. Cyhoeddwyd ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd â chrynodeb o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru ar 9 Chwefror 2015. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yr adroddiad cryno a'r Papur Gwyn gwreiddiol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ymatebion i'r ymgynghoriadau

95. Daeth cyfanswm o 40 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law oddi wrth amrywiol randdeiliaid. Daeth yr ymatebion oddi wrth unigolion a sefydliadau a oedd yn cynrychioli gwahanol sectorau, gan gynnwys barn sefydliadau ymbarél a oedd yn cynrychioli eu haelodau a'u cyrff cyswllt.
96. Daeth ymatebion i law oddi wrth ymatebwyr yng Nghymru, Cangen Cymru o sefydliadau DU gyfan, neu sefydliadau DU gyfan sydd â phrofiad o weithredu'r trefniadau treth presennol yng Nghymru. Roedd llawer o'r ymgynghoreion heb ateb pob cwestiwn, ac roedd nifer ohonynt wedi rhoi sylwadau heb ddweud a oeddent yn cytuno â'r cynigion ai peidio.

Tabl 1: nifer yr ymatebion yn ôl categori ymatebwyr

Categori ymatebwyr	Nifer	%
Cyfrifwyr trethi a chyrff trethi proffesiynol	8	20
Busnesau	5	12.5
Elusennau	2	5
Unigolion	17	42.5
Cyrff proffesiynol cyfreithiol	1	2.5
Cyrff cyhoeddus yng Nghymru	6	15
Pleidiau Gwleidyddol	1	2.5
Cyfanswm	40	100%

97. O blith y pwyntiau allweddol a ddaeth i'r amlwg yn sgil yr ymgynghoriad, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r canlynol:
- sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) a fyddai'n gweithredu'n annibynnol ar Weinidogion Cymru;
 - cyflwyno Siarter Trethdalwyr;
 - y set graidd arfaethedig o ddyletswyddau i ACC;
 - y rhwymedigaethau arfaethedig ar drethdalwyr;
 - rhoi pwerau tebyg i'r rhai sydd ar gael i awdurdod treth y DU i ACC.
98. Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid ledled Cymru, gan gynnwys rhai gyda'r CBI a Fforwm Treth a Grŵp Cynghori ar Drethi'r Gweinidog Cyllid.
99. Yn ogystal, trefnodd Gweinidogion Cymru arddangosfa o ddogfennau trethi hanesyddol ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn er mwyn codi ymwybyddiaeth ehangach. Cefnogwyd yr arddangosfa gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru, Prifysgol Bangor ac Archifau Morgannwg, a aeth ati i nodi a chyflwyno dogfennau hanesyddol, darparu deunydd dehongli a chynnal y digwyddiad. Fe wnaeth yr arddangosfa ennyn diddordeb eang ymysg y cyhoedd, gydag o leiaf 500 o bobl yn ymweld â hi.
100. Ers i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ddod i ben, mae gwaith ymgysylltu wedi parhau, gydag adborth ar yr ymatebion yn cael ei rannu â Fforwm Treth a Grŵp Cynghori ar Drethi'r Gweinidog Cyllid. Rhannwyd darpariaethau

drafft allweddol y Bil hefyd, gan gynnwys gyda rheoleiddwyr, adrannau Whitehall sy'n cael eu heffeithio a rhanddeiliaid allweddol.

Pennod 5: Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

101. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a chyhoeddi penderfyniadau. Mae Tabl A (is-ddeddfwriaeth) a Tabl B (pwerau gwneud cyfarwyddiadau) yn nodi mewn perthynas â'r rhain:
- (i) y person neu'r corff y rhoddi y pŵer iddo;
 - (ii) y ffurf y mae'r pŵer i'w arfer ynddo;
 - (iii) priodoldeb y pŵer a ddirprwywyd;
 - (iv) y weithdrefn a gymhwysir; hynny yw, p'un a ydy'n "gadarnhaol", "negyddol" neu "dim gweithdrefn", ynghyd â rhesymau pam yr ystyrir ei fod yn briodol.
102. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth lle yr ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir ar union natur yr ymgynghoriad wedi i'r cynigion gael eu ffurfioli.

5.1: is-ddeddfwriaeth

Tabl A: is-ddeddfwriaeth					
Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Rhan 2 a3(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Gall Gweinidogion Cymru ddiwygio adran 3(1) drwy reoliadau – yr adran sy'n darparu ar gyfer aelodaeth Awdurdod Cyllid Cymru – er mwyn nodi uchafswm neu isafswm aelodau gwahanol, ar yr amod bod nifer yr aelodau anweithredol yn rhagori ar nifer yr aelodau gweithredol.	Negyddol	Rhagnodi maint corff corfforaethol ACC; gall hyn gael ei ddiweddarau o dro i dro.
Rhan 2 a4(k)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Mae adran 4 yn nodi'r swyddi sy'n anghymhwysu unigolyn rhag bod yn aelod anweithredol o Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Mae 4(2)(k) yn darparu y gall Gweinidogion Cymru bennu, drwy reoliadau, bod deiliaid swyddi ychwanegol, neu aelodau neu aelodau staff corff yn cael eu hanghymhwyso hefyd.	Negyddol	Rhagnodi swyddi ychwanegol sy'n anghymhwyso unigolyn rhag bod yn aelod o ACC; gall hyn gael ei ddiweddarau o dro i dro.
Rhan 2 a14(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	O dan adran 14(1), gall Gweinidogion Cymru drwy reoliadau alluogi ACC i ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau i unrhyw berson.	Negyddol	Rhagnodi mater gweithredol, sef y bobl y gall ACC ddirprwyo swyddogaethau iddynt.
Rhan 2 a18(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Mae adran 18(1) yn nodi'r amodau lle caniateir datgelu gwybodaeth am drethdalwyr. Mae adran 18(2) yn darparu y gall Gweinidogion Cymru ddiwygio'r amodau hynny.	Cadarnhaol	Yn ymwneud â'r drosedd o ddatgelu ar gam wybodaeth warchodedig am drethdalwyr a'r amgylchiadau cyfyngedig lle caniateir datgelu gwybodaeth o'r fath, a allai gael effaith sylweddol ar hawliau dynol trethdalwyr.

Tabl A: is-ddeddfwriaeth

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Rhan 2 a27(7)(a)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Mae adran 27 yn darparu bod rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru baratoi cynllun corfforaethol. Bydd cyfnod cynllunio ar gyfer pob cynllun corfforaethol, ac mae adran 27(7)(a) yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliad i bennu hyd y cyfnod cynllunio cyntaf.	Negyddol	Rhagnodi mater gweinyddol, sef cyfnod cynllunio cynllun corfforaethol cyntaf ACC.
Rhan 2 a27(8)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Mae adran 27(7)(b) yn darparu, pan fydd Gweinidogion Cymru wedi nodi'r cyfnod cynllunio cyntaf (ar gyfer y cynllun corfforaethol), y bydd pob cyfnod wedi hynny yn para am dair blynedd. Mae Adran 27(8) yn darparu y gall Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ddisodli'r cyfnod tair blynedd hwn gyda chyfnod arall yr ystyriant sy'n briodol.	Negyddol	Rhagnodi mater gweinyddol, sef y gall Gweinidogion Cymru ddiwygio'r cyfnod cynllunio ar gyfer cynllun corfforaethol ACC.
Rhan 3 a38(6)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Pŵer gwneud rheoliadau i nodi cofnodion neu ddogfennau ategol penodol ar gyfer ffurflenni treth sy'n dod o fewn y ddyletswydd i gadw a gwarchod neu beidio.	Negyddol	Rhagnodi materion gweinyddol sy'n gysylltiedig â ffurflenni treth; gall hyn gael ei ddiweddarau o dro i dro.
Rhan 3 a39(b)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Mae adran 38 yn nodi dyletswyddau trethdalwyr i gadw a gwarchod cofnodion. Mae adran 39 yn darparu y gellir cyflawni'r ddyletswydd o dan adran 38 drwy gadw'r wybodaeth a gedwir mewn cofnodion ar unrhyw ffurf ac mewn unrhyw fodd, yn amodol ar unrhyw amodau neu eithriadau a ragnodir gan reoliadau a wnaed gan	Negyddol	Rhagnodi materion gweinyddol sy'n gysylltiedig â ffurflenni treth; gall hyn gael ei ddiweddarau o dro i dro.

Tabl A: is-ddeddfwriaeth

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			Weinidogion Cymru o dan adran 39(b).		
Rhan 3 a41 (3(b))	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Pŵer gwneud rheoliadau i ganiatáu i ffurflen dreth gael ei diwygio yn ystod cyfnod o 12 mis yn dechrau ar y dyddiad y caiff y ffurflen ei ffeilio, neu ddyddiad arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru. Bydd y dyddiad ar gyfer ffeilio yn cael ei nodi yn y ddeddfwriaeth ar drethi penodol.	Negyddol	Rhagnodi materion gweinyddol sy'n gysylltiedig â ffurflenni treth; gall hyn gael ei ddiweddarau o dro i dro.
Rhan 3 a52(7)(b)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Mae adran 52 yn darparu y gall ACC benderfynu ar dreth i'w chodi os na chyflwynir ffurflen dreth. Mae is-adran (6) yn darparu na all ACC wneud penderfyniad ar ôl mwy na 4 blynedd wedi'r dyddiad perthnasol. Mae is-adran (7)(b) yn darparu mai'r dyddiad perthnasol yw naill ai'r diwrnod ffeilio perthnasol neu ddyddiad arall y gall Gweinidogion Cymru ei ragnodi drwy reoliadau.	Negyddol	Rhagnodi materion gweinyddol sy'n gysylltiedig â ffurflenni treth; gall hyn gael ei ddiweddarau o dro i dro.
Rhan 3 a66(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Gall Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddarparu bod trefniadau ad-dalu a wnaed gan unrhyw berson yn cael eu hanwybyddu at ddibenion adran 64.	Negyddol	Rhagnodi materion gweinyddol sy'n gysylltiedig ag achos lle gallai hawliad i ACC am ostyngiad yn y dreth am dreth a ordalwyd arwain at fantais anghyfiawn i'r hawliwr; gall gael ei ddiweddarau o dro i dro.
Rhan 3 a69(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Mae adran 69 yn nodi'r ddyletswydd i gadw a gwarchod cofnodion pan fo unigolyn yn dymuno gwneud hawliad am ostyngiad yn achos asesiad gormodol neu dreth a ordalwyd.	Negyddol	Rhagnodi materion gweinyddol yn gysylltiedig â hawliad am ostyngiad yn y dreth yn achos asesiad gormodol neu dreth a ordalwyd; gall gael ei ddiweddarau o dro i dro.

Tabl A: is-ddeddfwriaeth

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			Mae'r pŵer gwneud rheoliadau yn a69(3) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu cofnodion neu ddogfennau ategol penodol y dylid eu cadw a'u gwarchod i alluogi unigolyn i wneud hawliad cywir a chyflawn.		
Rhan 3 a70(b)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Mae adran 70 yn darparu y gellir cyflawni'r ddyletswydd o dan adran 69 i gadw cofnodion drwy gadw'r wybodaeth a gedwir ynddynt ar unrhyw ffurf ac mewn unrhyw fodd, yn amodol ar unrhyw amodau neu eithriadau a nodir gan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 70(b).	Negyddol	Rhagnodi materion gweinyddol sy'n gysylltiedig â hawliad am ostyngiad yn y dreth yn achos asesiad gormodol neu dreth a ordalwyd; gall gael ei ddiweddaru o dro i dro.
Rhan 4 a85(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Mae adran 83 yn amlinellu beth a olygir yn Rhan 4 wrth sôn am 'redeg busnes'. Mae adran 85(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu, drwy reoliad, pa weithgareddau sydd i'w trin/nad ydynt i'w trin fel achos o redeg busnes.	Negyddol	Rhagnodi materion gweinyddol sy'n gysylltiedig â phwerau ymchwilio ACC; gall gael ei ddiweddaru o dro i dro.
Rhan 4 a96(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Mae adran 95 yn nodi bod rhaid i berson sy'n cael hysbysiad gwybodaeth gydymffurfio â'r hysbysiad hwnnw a darparu'r wybodaeth neu ddogfennau gofynnol o fewn cyfnod o amser, mewn lleoliad (na ellir fod yn lle a ddefnyddir fel annedd yn unig) ac yn y modd penodol a ragnodir yn yr hysbysiad gwybodaeth. Mae adran 96(1) yn darparu pan fydd hysbysiad gwybodaeth yn ei gwneud yn	Negyddol	Rhagnodi materion gweinyddol sy'n gysylltiedig â hysbysiadau gwybodaeth; gall gael ei ddiweddaru o dro i dro.

Tabl A: is-ddeddfwriaeth

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			ofynnol i'r person ddarparu dogfen, y gall y person hwnnw gydymffurfio drwy ddarparu copi o'r ddogfen wreiddiol (oni fydd yr hysbysiad yn gofyn yn benodol am y ddogfen wreiddiol neu os, o fewn 6 mis o ddarparu'r copi, bydd ACC yn gofyn amdani). Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn is-adran 96(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud unrhyw amodau neu eithriadau mewn perthynas â darparu copïau o'r dogfennau.		
Rhan 4 a101(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Rheoliadau i wneud darpariaethau i Dribiwnlys ddatrys unrhyw anghydfod ynghylch a yw gwybodaeth neu ddogfen (y gofynnir amdani mewn hysbysiad gwybodaeth) yn gyfreithiol freintiedig.	Negyddol	Rhagnodi materion gweinyddol sy'n gysylltiedig â datrysiau gan Dribiwnlys mewn perthynas â hysbysiau gwybodaeth; gall gael ei ddiweddarw o dro i dro.
Rhan 5 a156	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Pŵer gwneud rheoliadau am symiau'r cosbau a'r weithdrefn ar gyfer eu hasesu o dan Ran 5.	Cadarnhaol	Yn ymwneud â swm y cosbau i drethdalwyr a'r asesiad ohonynt, gyda'r nod o helpu trethdalwyr i gydymffurfio â'u rhwymedigaeth i dalu treth ddatganoledig. Gan y gallai hyn arwain at gosbau uwch/dull gwahanol o asesu cosbau, rhagnodir gweithdrefn gadarnhaol.
Rhan 6 a163(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Rheoliadau i alluogi Gweinidogion Cymru i bennu cyfradd llog sy'n berthnasol i log talu'n hwyr a llog ad-dalu.	Negyddol	Rhagnodir gweithdrefn negyddol gan fod y rheoliadau'n ymwneud â chyfraddau llog talu'n hwyr a llog ad-dalu; gall gael ei ddiweddarw o dro i dro.
Rhan 6 a163(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Rheoliadau i alluogi Gweinidogion Cymru i bennu cyfradd llog sy'n berthnasol i log talu'n hwyr a llog ad-dalu.		Rhagnodir gweithdrefn negyddol gan fod y rheoliadau'n ymwneud â chyfraddau llog talu'n hwyr

Tabl A: is-ddeddfwriaeth

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					a llog ad-dalu, a all gael eu diweddaru o dro i dro.
Rhan 7 a167	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Gall Gweinidogion Cymru ddarparu drwy reoliadau, pan fo unigolyn yn talu swm perthnasol i ACC gan ddefnyddio dull talu a bennir gan y rheoliadau, y bydd rhaid iddo hefyd dalu ffi a bennir gan, neu a benderfynir yn unol â'r rheoliadau. Gall rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth ar gyfer amser talu a'r dull o dalu'r ffi.	Negyddol	Rhagnodi materion gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r dull o dalu symiau perthnasol i ACC, a all gael eu diweddaru o dro i dro (er enghraifft, wrth i dechnoleg talu ddatblygu).
Rhan 7 a169(6)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Mae adran 169(1) yn nodi pan fo swm perthnasol o unrhyw un o'r disgrifiadau a nodwyd yn adran 164 (ee llog ar dreth ddatganoledig) yn daladwy gan unigolyn, ac nad yw'n uwch na £2,000, y bydd yn cael ei adfer yn ddiannod fel dyled sifil. Gall Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, gynyddu'r swm a nodwyd yn is-adran (1).	Negyddol	Rhagnodir gweithdrefn negyddol gan fod y pŵer gwneud rheoliadau yn ymwneud â swm y ddyled sifil y gellir ei adfer yn ddiannod fel dyled sifil, y gall fod angen ei ddiweddaru o dro i dro, er enghraifft, yn sgil chwyddiant.
Rhan 8 a172(7)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Mae adran 172 yn nodi pa rai o benderfyniadau ACC y gellir apelio yn eu herbyn a pha rai na ellir apelio yn eu herbyn. Gall Gweinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau i ychwanegu neu ddileu penderfyniad o is-adrannau (2) neu (3) neu amrywio'r disgrifiad o benderfyniad yn yr is-	Cadarnhaol	Rhagnodir gweithdrefn gadarnhaol gan fod y pŵer gwneud rheoliadau yn rhoi pwerau sylweddol i Weinidogion Cymru ddiwygio'r darpariaethau cyfreithiol ynghylch beth y dylid eu hystyried yn benderfyniadau y gellir apelio yn eu herbyn ac ar ba sail y gellir gwneud apêl neu adolygiad mewn perthynas â rhai penderfyniadau y gellir apelio yn eu herbyn.

Tabl A: is-ddeddfwriaeth

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			adrannau hynny. Gall rheoliadau wneud darpariaeth hefyd ynghylch is-adran (5) i ddiwygio'r Rhan hon er mwyn gwneud darpariaeth ar gyfer y sail dros gyflwyno cais am adolygiad, neu gyflwyno apêl, yn achos unrhyw benderfyniad y mae'r ddarpariaeth yn ymwneud ag ef.		
Rhan 9 a185(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Gall Gweinidogion Cymru drwy reoliadau gyfarwyddo bod unrhyw ddarpariaeth yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (p.60) (cymhwyso'r Ddeddf i Refeniw a Thollau) sy'n berthnasol i ymchwiliadau o droseddau a gynhaliwyd gan swyddogion yr heddlu neu i gadw personau yn nalfar heddlu yn berthnasol i ymchwiliadau a gynhelir gan ACC. Gallant hefyd wneud darpariaeth sy'n caniatáu i bersonau sy'n cyflawni swyddogaeth a roddwyd i ACC gan y rheoliadau ddefnyddio grym rhesymol i gyflawni swyddogaeth o'r fath.	Cadarnhaol	Rhagnodir gweithdrefn gadarnhaol gan fod y pŵer gwneud rheoliadau'n rhoi pwerau sylweddol i Weinidogion Cymru roi pwerau ymafael i ACC.
Rhan 9 a185 (2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Gall Gweinidogion Cymru drwy reoliadau gyfarwyddo bod unrhyw ddarpariaeth yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 (p.16) (cymhwyso Rhan 2 i swyddogion Refeniw a Thollau) yn berthnasol i ymchwiliadau a gynhelir gan ACC. Gallant hefyd wneud darpariaeth sy'n caniatáu i berson sy'n cyflawni swyddogaeth a roddwyd i ACC gan y	Cadarnhaol	Rhagnodir gweithdrefn gadarnhaol gan fod y pŵer gwneud rheoliadau'n rhoi pwerau sylweddol i Weinidogion Cymru roi pwerau ymafael i ACC.

Tabl A: is-ddeddfwriaeth

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			rheoliadau ddefnyddio grym rhesymol i gyflawni swyddogaeth o'r fath.		
Rhan 9 a186 (4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Gall Gweinidogion Cymru gyflwyno Gorchymyn bod cyfeiriad penodol yn Neddf Enillion Troseddau 2002 (p.29) at ymchwilydd ariannol achrededig yn cynnwys cyfeiriad at berson sy'n cyflawni swyddogaeth ACC sy'n dod o dan ddisgrifiad penodol.	Negyddol	Rhagnodir gweithdrefn negyddol gan y bydd y Rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y pŵer hwn yn darparu mân fanylion technegol i nodi'r staff hynny yn ACC sy'n gallu cyflawni swyddogaethau penodol o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002.
Rhan 9 a187(2)(b)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Gall Gweinidogion Cymru gyflwyno Gorchymyn o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 i ragnodi personau sy'n cyflawni swyddogaethau ACC fel personau a ddynodwyd at ddibenion adrannau 28 a 29 y Ddeddf honno.	Negyddol	Rhagnodir gweithdrefn negyddol gan y bydd y Rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y pŵer hwn yn darparu mân fanylion technegol i nodi'r staff hynny yn ACC sy'n gallu cyflawni swyddogaethau penodol o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.
Rhan 10 a188(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau atodol, cysylltiedig a chanlyniadol er mwyn rhoi effaith lawn i ddarpariaeth y Bil, os oes angen.	Negyddol	Byddai'r pŵer hwn ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer materion megis gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth arall a fyddai'n angenrheidiol o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil hwn, neu er mwyn mynd i'r afael â manylion annisgwyl yn deillio o roi'r system newydd ar waith. Byddai'r modd y defnyddir y pwerau hyn yn cael ei roi ar brawf yn llym gan y llysoedd. O ganlyniad, nid yw'n angenrheidiol iddynt fod yn destun y weithdrefn gadarnhaol.

Tabl A: is-ddeddfwriaeth

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Rhan 10 a194(2)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Yn addas ar gyfer pwerau dirprwyedig oherwydd bod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer cychwyn y Bil.	Dim gweithdrefn	Bydd y gorchmynion hyn yn cael eu cyfyngu i gychwyn y Bil ac maent yn dechnegol eu natur.

Tabl B: Pwerau Gwneud rheoliadau

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Rhan 2 a14	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddydau o natur gyffredinol i ACC.	Dim gweithdrefn	Bydd cyfarwyddydau yn ysgrifenedig ac ni fyddant ar ffurf offeryn statudol ac felly nid oes angen gweithdrefn.

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

103. Cwblhawyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6(vi) ar gyfer y Bil ac mae'n dilyn isod. Nid oes darpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

Pennod 6: Opsiynau Polisi

Effaith sefydlu trefn o gasglu a rheoli trethi ar drethdalwyr Cymru a'u hasiantiaid

Opsiwn 1 – gwneud dim

104. Pe na bai Gweinidogion Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth ar y pwerau a'r dyletswyddau ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yn awr, ni fyddai gan Lywodraeth Cymru fframwaith cyfreithiol i gasglu'r trethi datganoledig newydd.
105. Mae Gweinidogion Cymru wedi gwrthod yr opsiwn o wneud dim.

Opsiwn 2 – sefydlu trefn o gasglu a rheoli trethi

106. Mae'r opsiwn hwn yn cynnig codi pwerau casglu a rheoli trethi yng Nghymru, i ddisodli Treth Dir y Dreth Stamp (SDLT) a'r Dreth Dirlenwi (LfT) yng Nghymru a galluogi Gweinidogion Cymru neu eu partneriaid i gasglu derbyniadau treth o'r trethi a fydd yn eu disodli. Yn ymarferol, i wneud hyn bydd angen cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i sefydlu Treth Trafodiadau Tir (LTT, yn lle Treth Dir y Dreth Stamp) a Threth Gwarediadau Tirlenwi (LDT, yn lle'r Dreth Dirlenwi) a'r pwerau a'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chasglu a rheoli trethi.
107. Mae'r darnau hyn o ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â'i gilydd: mae'r ddeddfwriaeth ar gyfer casglu a rheoli trethi yn darparu pwerau a dyletswyddau; bydd y biliau trethi penodol yn nodi sut y defnyddir y pwerau a'r dyletswyddau hyn i gasglu'r trethi.
108. Felly, mae'r Bil yn ddeddfwriaeth sy'n galluogi: nid oes rhaid gwario o reidrwydd. Bydd y penderfyniadau a fydd yn arwain at ymrwymïadau ariannol yn cael eu nodi yn y Biliau trethi penodol (a'u Hasesiadau Effaith Rheoleiddiol), y penderfyniad ar fodel gweithredu, ac, yn bwysicaf oll, y penderfyniadau ar bolisi gweithredol (er enghraifft, yr ymdrech a roddir i gydymffurfio).
109. Mae'n rhaid i bwerau cyfreithiol casglu a rheoli trethi gael eu breinio mewn sefydliad a fydd yn gallu defnyddio'r pwerau hyn. Ystyriodd swyddogion y posibilrwydd y gellid trosglwyddo'r pwerau cyfreithiol dros gasglu a rheoli trethi i Weinidogion Cymru ('Opsiwn 2a'). Fodd bynnag, gwrthodwyd hyn ar unwaith am resymau polisi, oherwydd bod cyfrinachedd gwybodaeth

trethdalwyr yn golygu bod angen ei rheoli'n glir ac ar wahân i unrhyw bosibilrwydd neu ganfyddiad o ymyrraeth Weinidogol. Mae hyn yn cyd-fynd ag arfer gorau rhyngwladol. Ystyriwyd bod rhesymau polisi digon cryf dros reoli gwybodaeth trethdalwyr yn annibynnol er mwyn peidio ag ystyried yr opsiwn hwn ymhellach.

- Opsiwn 2a – breinio pwerau casglu a rheoli trethi yng Ngweinidogion Cymru.
- Gwrthodwyd yr opsiwn hwn gan fod arfer gorau rhyngwladol yn awgrymu y dylai fod hollt clir ar lefel weithredol rhwng dylanwad Gweinidogion a'r broses o reoli materion trethdalwyr unigol.
- Opsiwn 2b – breinio pwerau casglu a rheoli trethi mewn corff sy'n gweithredu ar wahân i Weinidogion Cymru.
- Dyma'r opsiwn a ffeirir. Cytunodd Gweinidogion Cymru i greu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) gyda phwerau priodol ar gyfer casglu a rheoli trethi.

Maint a chwmpas ACC

110. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer y swyddogaethau gweinyddol canlynol:

- swyddogaethau bwrdd a chorfforaethol ACC (gan gynnwys archwilio a seilwaith TG corfforaethol);
- gweithgareddau gweithredol casglu a rheoli trethi;
- sicrhau bod trethdalwyr yn gallu manteisio ar y system gyfiawnder.

111. Ceir opsiynau o ran sut i weithredu'r swyddogaethau hyn, a sut y byddai ACC yn gweithio gyda phartneriaid i'w cyflawni. Mae'r rhain wedi'u nodi isod.

Gweithgareddau gweithredol o ran casglu a rheoli

112. Mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno y dylai pwerau ACC gynnwys y pŵer i ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau i sefydliadau eraill (a ragnodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru), i sicrhau'r ateb mwyaf cost-efeithiol i gasglu a rheoli trethi datganoledig Cymru.
113. Bydd ACC yn ystyried y posibilrwydd o ddirprwyo rhai o'i swyddogaethau, ond ni fydd ond yn dirprwyo (rhai neu'r cyfan o'r) swyddogaethau casglu a rheoli trethi gweithredol. Bydd yn cadw cyfrifoldeb cyfreithiol am gasglu a rheoli trethi. Bydd ACC yn darparu goruchwyliaeth strategol a chorfforaethol (gan gynnwys darparu gwybodaeth am berfformiad i'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru); bydd yn cynorthwyo Gweinidogion Cymru i ddatblygu deddfwriaeth a throi deddfwriaeth yn ganllawiau gweithredol ar drethi; a bydd yn gyfrifol am ddatblygu polisi gweithredol (e.e. ymdrech gydymffurfio) yn unol â dymuniadau Gweinidogion Cymru.

114. Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ym mis Mehefin 2015 mai'r ffordd ymlaen a ffeirir oedd i CThEM ddarparu cyfleusterau i gyflwyno enillion a thaliadau LTT ar-lein ac ar bapur ac ymgymryd â'r swyddogaethau cydymffurfio trafodol ac arferol. Byddai ACC yn ymgymryd â gwaith cydymffurfio cymhleth, atal osgoi a gorfodi ar gyfer LTT. Byddai ACC yn ymgymryd â'r swyddogaethau casglu a rheoli ar gyfer LDT, gyda CNC yn ymgymryd â'r gwaith cydymffurfio a gorfodi.
115. Bydd Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ACC ddatblygu perthynas cryf a chydweithrediadol â chyrff y mae'n dirprwyo swyddogaethau iddynt, ac i ymrwymo i ffyrdd tryloyw o weithio. Yn benodol, mae'n rhaid i ACC gyhoeddi gwybodaeth am y trefniadau dirprwyo a byddem yn disgwyl i hyn gynnwys safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt. Bydd ACC yn sicrhau bod systemau casglu a rheoli trethi datganoledig Cymru yn bodloni safonau'r Gymraeg fel sy'n ofynnol gan y Comisiynydd Iaith (yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), a'r ymrwymadau o dan ei Siarter safonau a gwerthoedd.
116. Rhagwelir y bydd y Llywodraeth nesaf yn dymuno rhoi diweddariad ar ganlyniad y trafodaethau â CThEM a CNC yn fuan wedi etholiadau'r Cynulliad yn 2016.

Effaith deddfwriaeth benodol ar gyfer trethi

117. Cyhoeddwyd ymgynghoriadau ym mis Chwefror 2015 ar opsiynau polisi ar gyfer LTT a LDT, gyda disgwyl i'r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno i'r Cynulliad ar ôl etholiadau Mai 2016. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn cynnwys cynigion manylach ar gyfer casglu a rheoli'r trethi penodol hyn. Bydd Gweinidogion Cymru'n gwneud penderfyniadau polisi am faint o gymorth gweinyddol sydd ei angen i gasglu a rheoli'r trethi hyn yn effeithiol (gan gynnwys maint y ddarpariaeth gwasanaeth ar-lein, yr ymdrech gydymffurfio a gorfodi, lefel gwasanaethau cwsmeriaid a'r angen i feithrin gallu Cymru) yng nghyd-destun y darpariaethau deddfwriaethol hyn.
118. Y penderfyniadau polisi hyn fydd yn pennu faint o ymdrech weinyddol sydd ei hangen, ac felly'r gost o gasglu a rheoli'r trethi hyn. Yn yr un modd, gallai rhai camau gweithredu (er enghraifft, cydymffurfio a gorfodi) arwain at addaliad ariannol i Awdurdod Cyllid Cymru (os yw'r gweithgarwch cydymffurfio yn arwain at fwy o drethdalwyr yn talu'r swm dyledus), neu gallai gael effaith gost-effeithiol ehangach (er enghraifft, os yw gorfodi'r dreth dirlenwi yn atal rhai achosion o ddympio anghyfreithlon ac felly'n atal costau amgylcheddol i Cyfoeth Naturiol Cymru neu awdurdodau lleol). Bydd yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar wahân ar gyfer LTT a LDT yn darparu rhagor o wybodaeth am gostau casglu a rheoli yng nghyd-destun penderfyniadau polisi posibl.
119. Ar 4 Tachwedd 2015, ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth at y Pwyllgor Cyllid i roi diweddariad i'r Cynulliad ar y gwaith i sefydlu trefniadau casglu a rheoli. Diwygiwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn ym mis Chwefror 2016 (ar ôl i Gyfnod 2 taith y Bil trwy'r Cynulliad gael ei gwblhau) i adlewyrchu'r diweddariad hwnnw.

Y Bwrdd

120. Bydd angen presenoldeb corfforaethol ar ACC i allu cyflawni'r swyddogaethau hyn. Bydd maint a chwmpas y presenoldeb corfforaethol hwn yn dibynnu ar y partner(iaid) a ffefrir ar gyfer casglu a rheoli; er enghraifft, maint y Bwrdd a faint o ddyddiau y mae disgwyl i aelodau'r Bwrdd weithio.
121. Ystyriwyd opsiynau cam cynnar mewn perthynas â threfniadau llywodraethu corfforaethol y sefydliad newydd: yn benodol, a ddylid sefydlu strwythur llywodraethu sy'n gyfarwydd a llwyddiannus (yng Nghymru), strwythur llywodraethu (Bwrdd gyda Cadeirydd anweithredol), neu ailadrodd strwythur CThEM o Gomisiynwyr Gweithredol. Penderfynwyd bod y manteision llywodraethu sy'n perthyn i Fwrdd ac iddo gadeirydd anweithredol a mwyafrif o aelodau anweithredol yn golygu mai dyma'r dewis gorau.
122. Rhagwelir y bydd darpariaethau'r Bil sy'n darparu ar gyfer cyfansoddiad ACC yn dod i rym yn ystod hydref 2017 ac y bydd Cadeirydd ac aelodau anweithredol eraill yn cael eu penodi. Bydd gan Fwrdd ACC rhwng 8 a 13 o aelodau. Mae'r Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn darparu ar gyfer amrywiaeth o aelodaeth: dim llai na 5 o aelodau anweithredol ar y Bwrdd, a dim mwy na 9 gan gynnwys y Cadeirydd. Er mwyn sicrhau bod gan ACC y sgiliau angenrheidiol ar ei Fwrdd, mae disgwyl y bydd y penodiadau hyn yn rhai â thâl ac y bydd y Bwrdd yn cynnwys 5 aelod anweithredol o fis Ebrill 2018. Yn ogystal â hyn, bydd 3-4 o aelodau gweithredol, a fydd yn cynnwys y Prif Swyddog Gweithredol, aelod o staff wedi'i ethol a 1-2 o aelodau staff a benodir gan y Prif Swyddog Gweithredol.
123. Ym mis Ionawr 2016, cyhoeddwyd y byddai Cyfarwyddwr Cyflawni yn ymuno â Thrysorlys Cymru am gyfnod penodol gan ddechrau yn ystod haf 2016. Bydd yr unigolyn yn arwain y paratodau i lansio ACC ym mis Ebrill 2018. Caiff Prif Weithredwr ACC ei benodi pan fydd y Bwrdd ar waith. Bydd y ddau yn benodiadau i'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Archwilio

124. Fel corff cyhoeddus yng Nghymru, bydd ACC yn cael ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Nodir, os dirprwyir unrhyw swyddogaethau trethi datganoledig i CThEM, yna bydd unrhyw ofynion archwilio sy'n gysylltiedig â'r rhain yn debygol o gael eu cyflawni gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol gan mai dyma'r archwilwyr cyfredol ar gyfer CThEM.

Seilwaith TG Corfforaethol

125. Beth bynnag a fydd yn digwydd, bydd angen i ACC sefydlu seilwaith TG i gefnogi ei waith o ddydd i ddydd.
126. Mae'n bosibl y bydd angen rhywfaint o seilwaith TG ar ACC i gadw a rheoli gwybodaeth am drethdalwyr, i gefnogi ei waith cydymffurfio a gorfodi ac i

gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi gweithredol ar sail osgoi talu trethi. Bydd hyn yn dibynnu ar bartneriaid posibl ar gyfer swyddogaethau casglu a rheoli, a'r TG maent yn ei defnyddio ar hyn o bryd i reoli gwybodaeth am drethdalwyr.

Manteisio ar y system gyfiawnder

127. Mae Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) yn darparu llwybr i drethdalwyr allu manteisio ar y system gyfiawnder. Ychydig o apelau SDLT a LfT yng Nghymru sydd wedi cyrraedd Tribiwnlys yr Haen Gyntaf hyd yma.
128. Ystyriwyd yr opsiynau canlynol mewn perthynas â darparu system dribiwnlysoedd:
- Opsiwn A: defnyddio system dribiwnlysoedd gyfredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Manteision ymarferol clir yr opsiwn hwn yw'r arbenigedd ar drethi sydd ar gael yno a'r seilwaith tribiwnlysoedd.
 - Opsiwn B: defnyddio tribiwnlys cyfredol yng Nghymru. Manteision hyn yw bod yna seilwaith o dribiwnlysoedd yn bodoli ac felly ni fyddai'n rhaid gwario ar sefydlu strwythur newydd. Yr heriau fyddai'r angen i recriwtio arbenigedd trethi newydd i ymdrin â nifer anhysbys o apelau, a chysoni amcanion y gwahanol dribiwnlysoedd.
 - Opsiwn C: sefydlu system dribiwnlysoedd newydd yng Nghymru ar gyfer trethi datganoledig. Anfanteision hyn fyddai'r angen i sefydlu strwythur newydd ar gyfer nifer anhysbys o apelau a'r angen i recriwtio arbenigedd trethi newydd.
129. Mae Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau mai defnyddio system dribiwnlysoedd gyfredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Opsiwn A) fyddai'r opsiwn y maent yn ei ffafrio gan mai dyma fyddai'r ateb mwyaf cost-effeithiol, o leiaf yn y tymor byr. Fodd bynnag, bydd y penderfyniad yn cael ei wneud pan fydd mwy o wybodaeth ar gael am nifer a maint unrhyw apelau yn erbyn trethi datganoledig.
130. Defnyddir achosion sifil yn amlach nag achosion cyfreithiol mewn perthynas â LfT a SDLT ac mae erlyn yn anarferol. Hyd nes y bydd polisi'n cael ei greu ar LTT a LDT a bod trethi o'r fath yn weithredol nid yw'n bosibl nodi'n glir faint o erlyniadau sy'n debygol gyda threthi datganoledig a pha fath o erlyniadau fydd y rhain.
131. Bydd trefniadau i weithio gyda phartneriaid yn cael eu sefydlu fel rhan o'r cynllun gweithredu.

Pennod 7: Costau a manteision

Opsiwn 1 – gwneud dim

132. Prosiect galluogi yw hwn i sefydlu'r drefn ar gyfer casglu a rheoli trethi. Pe na bai'r drefn honno yn cael ei sefydlu, ni fyddai unrhyw gost ychwanegol uniongyrchol yn yr opsiwn gwneud dim.
133. Canlyniad peidio â chyflwyno trefn gasglu a rheoli trethi yw bod y gallu i fenthycu yn Neddf Cymru 2014 yn gysylltiedig â'r gallu i godi refeniw. Os na fydd Gweinidogion Cymru'n disodli'r trethi sy'n cael ei diddymu neu'n sefydlu'r drefn o'u casglu a'u rheoli yn y ddeddfwriaeth sylfaenol hon, efallai na fydd Llywodraeth Cymru'n gallu benthycu gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfraddau rhyng-lywodraeth ac efallai y bydd angen sicrhau ffynonellau ariannol eraill ar gyfer gwariant cyfalaf a rhaglenni y dyfodol.

Opsiwn 2 – sefydlu trefn o gasglu a rheoli trethi

Costau i Lywodraeth Cymru ac ACC

134. Llywodraeth Cymru fydd yn ysgwyddo holl gostau'r opsiwn hwn.
135. Mae cwmpas a maint llawer o swyddogaethau ACC yn dibynnu ar benderfyniadau Gweinidogion a wneir yn bennaf yng nghyd-destun datblygu polisi a deddfwriaeth ar LTT a LDT. Felly, bydd y gofynion o ran staff a seilwaith yn amrywio, yn dibynnu ar y penderfyniadau diweddarach hyn gan Weinidogion (i'w hadlewyrchu yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer LTT a LDT).
136. Yn ei llythyr ar 4 Tachwedd, pwysleisiodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth y byddai disgwyl i ACC gyflawni ei swyddogaethau corfforaethol ehangach i safon uchel. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth am berfformiad a gwybodaeth arall i Weinidogion a'r Cynulliad ar draws ei holl gyfrifoldebau. Rhagwelir y bydd angen iddo gasglu LDT ac ymgymryd â gwaith cydymffurfio llawn mewn perthynas ag achosion LTT mwy cymhleth. Bydd angen darpariaeth TGCh arno i sicrhau bod modd ymgymryd â'i swyddogaethau'n effeithlon ac yn effeithiol. Rydym yn amcangyfrif ar hyn o bryd y bydd gan ACC rhwng 25 a 32 o staff.
137. Mae'n debygol y bydd costau gweithredu eraill yn berthnasol ag ACC, gan gynnwys costau sy'n ymwneud ag archwilio, a rhannu data ag Asiantaeth y Swyddfa Brisió a Chofrestrfa Tir Ei Mawrhydi.
138. Roedd y llythyr ar 4 Tachwedd yn nodi bod angen gwneud gwaith pellach i asesu a mesur y costau hyn. Fodd bynnag, mae amcangyfrif cychwynnol gorau'r costau ar gyfer sefydlu a gweithredu'r trefniadau casglu a rheoli ar gyfer y trethi datganoledig ar gael yn Nhabl A. Amcangyfrifir y bydd y costau sefydlu rhwng £4.8m-£6.3m yn ystod y cyfnod o 2016/17 i 2018/19. Amcangyfrifir y bydd y costau gweithredu rhwng £2.8m-£4m yn flynyddol, gan ddechrau yn 2018/19.

139. Cyflwynir yr wybodaeth fel amrediad yn hytrach na ffigur penodol i adlewyrchu'r ansicrwydd sy'n parhau ynghylch rhai elfennau o'r trefniadau hyn. Caiff yr amcangyfrif hwn ei fireinio ymhellach yn ystod trafodaethau â CThEM a CNC mewn perthynas â safonau gwasanaethau ar gyfer LTT ac LDT, a thanategu materion TGCh yn benodol. Dylid hefyd nodi y bydd y Llywodraeth nesaf yn cyflwyno dau ddarn arall o ddeddfwriaeth ar LTT ac LDT ac mae'n bosibl iawn y bydd goblygiadau ariannol i'r penderfyniadau polisi y cytunwyd arnynt yn ystod taith y biliau hyn.
140. Dylid nodi bod CThEM wedi gorfodi Llywodraeth yr Alban i dalu costau 'diddymu' casglu SDLT a LfT yn yr Alban. Deallwn fod y gost gyfwerth i Lywodraeth yr Alban yn £1 miliwn.
141. Disgwylir i CThEM ad-dalu costau peidio â chasglu SDLT a LfT i Lywodraeth Cymru o fis Ebrill 2018; y swm cyfwerth i Lywodraeth yr Alban yw £275,000 y flwyddyn (yn ôl ffigurau Revenue Scotland).

Costau disgwyledig ACC

142. Bydd ACC yn penodi Cyfarwyddwr Cyflawni yn ystod haf 2016, a bydd cost yn gysylltiedig â hynny. Bydd yr unigolyn yn arwain y gwaith gweithredol o sefydlu ACC, yn cytuno ar strwythurau staffio, yn recriwtio a hyfforddi staff, yn sicrhau bod yr holl baratodau gweithredol yn cael eu gwneud a'u cwblhau'n briodol, ac yn rheoli'r camau gweithredu terfynol hyd at fis Ebrill 2018. Y cyflog a'r costau parhaus disgwyledig yw £90,500 ar gyfer 2016-17 (yn seiliedig ar ddyddiad dechrau ym mis Awst) a £136,000 ar gyfer 2017-18 ymlaen, yn seiliedig ar radd gyfwerth yr uwch wasanaeth sifil.

TABL A

Amcangyfrif o'r costau sefydlu ar gyfer y cyfnod 2016/17-2018/19		
£mil	Isel	Uchel
Llywodraeth Cymru – Costau Staff <i>(Costau gros staff gan gynnwys cyflogau a gorbenion)</i>	1,700	2,000
Llywodraeth Cymru – Costau Eraill <i>(gan gynnwys datblygu TGCh, recriwtio staff ac i'r bwrdd)</i>	550	1,200
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi – Costau Staff a Chostau Eraill <i>(gan gynnwys datblygu TGCh a gweithredu prosiectau)</i>	2,500	2,970
Cyfoeth Naturiol Cymru – Costau Staff a Chostau Eraill <i>(gan gynnwys datblygu TGCh a gweithredu prosiectau)</i>	100	180
Cyfanswm	4,850	6,350

Amcangyfrif o'r costau rhedeg blynyddol		
£mil	Isel	Uchel
Awdurdod Cyllid Cymru – Staff <i>(costau gros staff gan gynnwys cyflogau a gorbenion)</i>	1,400	1,800
Awdurdod Cyllid Cymru – Costau Eraill <i>(y Bwrdd, Archwilio, TGCh, llety ac ati)</i>	400	840
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi – Costau Staff a Chostau Eraill <i>(prosesu LTT, darpariaeth TGCh a Thîm Trethi Cymru)</i>	840	1,000
Cyfoeth Naturiol Cymru – Costau Staff a Chostau Eraill <i>(Tîm Cydymffurfio a gorfodi LDT)</i>	200	315
Cyfanswm	2,840	3,955

Archwilio Allanol

143. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio, ardystio ac adrodd ar gyfrifon blynyddol a Datganiad Treth ACC ac i gyflwyno copi o'r dogfennau ardystiedig ac adrodd arnynt gerbron y Cynulliad.
144. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi trafod darpariaethau archwilio'r Bil a'r ffi archwilio debygol i dalu costau'r gwaith sy'n codi. Cydnabyddir y bydd lefel y ffi yn dibynnu ar ffactorau amrywiol yn cynnwys pwy sy'n casglu a rheoli trethi datganoledig, natur y systemau ariannol a systemau TG eraill y bydd ACC yn eu defnyddio a'r amgylchedd llywodraethu a rheoli mewnol y bydd ACC yn ei gyflwyno. Fodd bynnag, o ystyried nad oes penderfyniadau terfynol wedi'u gwneud ar faterion o'r fath hyd yn hyn, mae swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru wedi cadarnhau nad yw'n bosibl cynllunio gyda sicrwydd eto ar gyfer y gwaith y bydd gofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru ei gyflawni wrth ffurfio barn archwilio ar y cyfrifon blynyddol, neu'r Datganiad Treth mewn perthynas â'r trethi datganoledig y bydd ACC yn gyfrifol amdanynt.

145. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at y posibilrwydd o gostau archwilio yn sgil gwaith y Swyddfa Archwilio Genedlaethol pe bai CThEM yn cael ei ddewis fel partner i gyflawni swyddogaethau casglu trethi datganoledig trwy drefniadau dirprwy ACC. Y rheswm am hyn yw y byddai'r dull archwilio a gynigir yn defnyddio archwilywyr presennol yr adran honno yn hytrach na chyflwyno archwilydd ychwanegol.
146. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi dweud y gellir cymryd, yn seiliedig ar eu profiad blaenorol cymharol helaeth o archwilio cyrff cyhoeddus sydd newydd eu sefydlu, y bydd costau archwilio allanol yn debygol o fod yn uwch o leiaf yn ystod blwyddyn gyntaf gweithrediadau ACC cyn setlo i lawr i 'gyflwr sefydlog' is mewn blynyddoedd i ddod ar ôl sefydlu popeth. Mae swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflwyno amcangyfrifon bras cychwynnol, ynghyd â chadarnhad y byddant yn edrych o'r newydd ar gostau gwaith archwilio tebygol ACC pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael am gyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru.
147. Yn achos archwilio'r Datganiad Treth, mae'n debygol y bydd gwaith archwilio blwyddyn 1 ac wedi hynny oddeutu £20,000 i £70,000 y flwyddyn, gan ddibynnu ar yr opsiwn partner casglu y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddewis yn y pen draw. Hefyd byddai'n rhaid talu ffi am archwilio cyfrifon blynyddol ACC. Mae ACC wedi cadarnhau na fydd yn rhaid talu TAW ar ffioedd gan mai archwiliadau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru yw'r rhain.

Manteisio ar y System Gyfiawnder

148. Bydd angen trafod ymhellach â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd ar safon y gwasanaeth a ddisgwylir gan y gwasanaethau tribiwnlysoedd trethi yng Nghymru fel rhan o'r broses o basio'r ddeddfwriaeth hon.
149. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn nodi'r broses ar gyfer manteisio ar y system gyfiawnder, gan gynnwys y tribiwnlysoedd. Fodd bynnag, nid yw'n cadarnhau set derfynol a chynhwysfawr o hawliau apelio; bydd y rhain yn cael eu nodi yn y ddeddfwriaeth ddiweddarach ar LDT ac LTT, a bydd yr Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y biliau hyn yn adlewyrchu a oes unrhyw effaith debygol ar y gwasanaeth tribiwnlysoedd. Rydym wedi cynllunio ar sail y ffaith y bydd mynediad parhaus at y gwasanaeth tribiwnlysoedd treth yn niwtral o ran cost, ond cynhelir trafodaethau pellach â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i ystyried unrhyw effaith ehangach yn sgil y ddeddfwriaeth a gofynion gweithredu.

Costau i fusnes

150. Bydd y rhan fwyaf o drethdalwyr Cymru (LTT a LDT) yn parhau i fod yn drethdalwyr y DU ar gyfer trethi eraill. Gall yr angen posibl i gyfathrebu â gwahanol sefydliadau ynghylch gwahanol drethi greu baich gweinyddol bychan i fusnesau. O ganlyniad, mae Gweinidogion Cymru'n rhagweld y

bydd rhywfaint o gost newid gychwynnol wrth sefydlu trefn drethi newydd ac y bydd yna gost newid fechan i fusnesau yn y tymor byr wrth iddynt orfod dysgu'r system weinyddu trethi newydd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru wedi datgan yn glir y dylid cyflwyno newidiadau i system gyfredol y DU os ydynt yn fwy effeithlon, effeithiol neu'n canolbwyntio mwy ar anghenion a blaenoriaethau Cymru. Rydym yn disgwyl felly i unrhyw newidiadau fod yn fanteisiol yn y tymor hir.

151. Bydd gweithredu unrhyw newid gweinyddol yn bwysig iawn i asiantiaid sy'n cefnogi a chynghori ar drafodion SDLT/LfT yng Nghymru ar hyn o bryd, gan y bydd angen iddynt ymgyswrttu â'r system newydd. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddwyr eiddo, asiantiaid tai, gweithredwyr safleoedd tirlenwi a chlodwyr gwastraff. Bydd newid i system newydd yng Nghymru yn berthnasol iawn i'r busnesau sy'n gweithredu ar draws ffin Cymru a Lloegr, gan y bydd gofyn iddynt weithredu dwy system gasglu a rheoli trethi wahanol (ar gyfer SDLT/LTT yn arbennig).
152. Nid yw'n bosibl pennu cost y newidiadau hyn gan fod gan wahanol sefydliadau strwythurau staff a chyfraddau cyflogau gwahanol, ond nid yw'n debygol o fod yn swm sylweddol i fusnesau a bydd yn lleihau'n gyflym wrth i sefydliadau a'u staff ddod i'r arfer o ymdrin â threthi Cymru a Lloegr ar wahân.
153. Bydd y mater hwn yn cael ei drafod yn fanylach yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer LDT a LTT. Nid yw'n bosibl mesur y costau ar hyn o bryd oherwydd y bydd y trethi datganoledig yn effeithio ar fusnesau mewn gwahanol ffyrdd, a fydd yn cael eu hystyried wrth ddatblygu Biliau'r trethi penodol.

Effaith ar gyrff eraill y sector cyhoeddus

154. Bydd gweithredu Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) yn cael effaith ar nifer o gyrff sector cyhoeddus ledled Cymru a Lloegr sydd ond wedi gorfod gweithio gyda CThEM ar gasglu a rheoli SDLT a LfT hyd yn hyn. Nid yw'n bosibl mesur unrhyw effaith ariannol bosibl ar hyn o bryd a bydd yn ddibynnol ar gasgliad trafodaethau yn y dyfodol gyda'r gyrff cyhoeddus perthnasol cyn sefydlu ACC yn 2018.
155. Mae'r gyrff hyn yn cynnwys y Gofrestrfa Tir ac Asiantaeth y Swyddfa Brisiol yn achos y LTT. Mae'r ddau sefydliad yn rhannu data ffurflenni data gyda CThEM ar SDLT a bydd angen i ACC sefydlu cysylltiadau gwasanaeth costeffeithiol ac effeithlon gyda'r sefydliadau hyn ar gyfer LTT. Mae cyfleoedd hefyd am drefniadau rhannu gwybodaeth gwell am drafodion preswyl a dibreswyl rhwng ACC ac awdurdodau lleol, yng nghyd-destun datganoli SDLT.
156. Yn achos LDT, Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol ar hyn o bryd am ganiatáu ac archwilio safleoedd tirlenwi, a bydd ACC am ddatblygu perthynas â CNC i sicrhau'r dull mwyaf effeithiol o orfodi a goruchwylio materion yn ymwneud â safleoedd tirlenwi.

157. Yn yr un modd, mae awdurdodau lleol yn ddefnyddwyr, ac mewn rhai achosion, yn berchnogion a gweithredwyr safleoedd tirlenwi. Bydd gan ACC gyfrifoldeb cyfreithiol am gasglu a rheoli LDT yng Nghymru a bydd yn datblygu perthynas newydd gydag awdurdodau lleol ar sail hyn.
158. Mae'r Bil yn ychwanegu ACC at y rhestr o gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 – mae hyn yn rhoi awdurdodaeth i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dros ACC. Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ystyried effaith ehangach y ddeddfwriaeth a gofynion gweithredu. Felly, nid yw'n bosibl mesur y gost hon ar hyn o bryd.
159. Yn olaf, bydd y Bil yn effeithio ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder o ran ei rôl gyfredol mewn perthynas â Llysoedd EM a chefnogi'r tribiwnlysoedd trethi ledled Cymru a Lloegr. Nid yw Gweinidogion Cymru yn disgwyl i hyn fod yn sylweddol (gweler paragraff 147).

Manteision

Opsiwn 1 – gwneud dim

160. Llywodraeth Cymru fydd yn ysgwyddo'r gost o sefydlu ACC. Mae hyn yn creu cost cyfle gan na ellir gwario'r arian fydd yn cael ei wario ar ACC ar unrhyw beth arall.

Opsiwn 2 – sefydlu trefn o gasglu a rheoli trethi

161. Bydd Llywodraeth y DU yn lleihau grant bloc Llywodraeth Cymru o swm sy'n cyfateb i'r hyn y disgwylir ei dderbyn gan SDLT a LfT yng Nghymru, o fis Ebrill 2018. Bydd deddfwriaeth i ddisodli SDLT a LfT, ac i gasglu a rheoli'r trethi hyn, yn galluogi Llywodraeth Cymru i gasglu refeniw y trethi hyn (£195 miliwn yn 2013-14).
162. Tu hwnt i hynny, mae cyfleoedd i gasglu a rheoli trethi datganoledig mewn ffordd sy'n fwy addas i anghenion a blaenoriaethau pobl Cymru. Nid yw'r rhain wedi'u pennu gan y ddeddfwriaeth, ond mae'r ddeddfwriaeth yn hwyluso'r penderfyniadau hyn (er enghraifft, lefel yr ymdrech gydymffurfio, gwasanaethau cwsmeriaid, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd trafodion).
163. Bydd manteision polisi cyflwyno LTT a LDT yn cael eu trafod yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y darnau hyn o ddeddfwriaeth.

Risgiau a chynlluniau wrth gefn

164. Deddfwriaeth i gyflwyno pwerau casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yw'r cam cyntaf yn y broses o sefydlu ACC. Fel y nodwyd eisoes yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae angen gwneud llawer o waith eto i sefydlu'r endid corfforaethol ei hun.

165. Mae risgiau'n gysylltiedig â'r gwaith hwn, ac mae Llywodraeth Cymru'n mabwysiadu ymagwedd ragweithiol at reoli risg a chreu cynlluniau wrth gefn yn y maes hwn.
166. Bydd trefniadau dyrannu ACC yn cael eu hadolygu wedi 3-5 mlynedd o weithredu (2021-23). Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried amrywiaeth o opsiynau partneriaeth. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn sefydlu gweithgor gyda llywodraeth leol i sicrhau bod arbenigedd a gwybodaeth am gasglu a rheoli trethi datganoledig Cymru yn cael eu rhannu.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

167. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn mai Opsiwn 2 – sef sefydlu trefn o gasglu a rheoli trethi – sy'n cynnig y ffordd orau o gynnal y sylfaen refeniw drwy gyflwyno trethi datganoledig yng Nghymru ac o gynnal swyddogaeth gyson o gasglu a rheoli trethi yng Nghymru.

Pennod 8: Asesiadau effaith penodol

168. Cynhaliwyd cyfres o asesiadau effaith mewn perthynas â'r Bil drafft fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Cynhaliwyd asesiadau effaith cychwynnol cyn y Papur Gwyn ac adolygwyd yr asesiadau effaith hyn ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben a'r Bil gael ei ddrafftio.
169. Drwyddi draw, nid oes disgwyl i sefydlu corff corfforaethol â phwerau casglu trethi, o ran LTT ac LDT, effeithio ar y rhan fwyaf o fusnesau neu bobl. Er y gallai fod rhai amrywiadau yn strwythur y trethi eu hunain, mae'r gofyniad i dalu'r trethi hynny yn bod yn awr a bydd y gofyniad yn dal i fodoli pan gaiff y trethi eu datganoli i Gymru.
170. Bydd manylion effeithiau LTD ac LTD yn y ddeddfwriaeth ar y trethi penodol – mae a wnelo'r Bil hwn yn unig â'r pŵer i gasglu a rheoli trethi datganoledig a sefydlu'r cyfrwng cyfreithiol i wneud hynny. Efallai y bydd rhai newidiadau i'r trethi, ond mae Gweinidogion Cymru wedi nodi mai gwella ar yr hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd fydd unrhyw newidiadau yn bennaf.

Yr effaith ar fusnesau bach

171. Cwmnïau proffesiynol fel cyfreithwyr sy'n talu'r dreth ar ran eu cleientiaid yw mwyafrif y busnesau a fydd yn ymwneud yn uniongyrchol ag LTT. Dyma'r sefyllfa ar hyn o bryd, ond efallai y bydd LTT yn gweithio ychydig yn wahanol i SDLT ac efallai y bydd rhai busnesau'n teimlo bod mwy o faich gweinyddol ar eu staff o orfod delio â mwy nag un ffordd o dalu trethi. Erbyn mis Ebrill 2018 pan fydd y trethi datganoledig yn dod yn weithredol, bydd hyn eisoes yn wir yn achos trethi gwahanol yn yr Alban, ond bydd llai o effaith rhwng yr Alban/Lloegr oherwydd llai o weithgarwch trawsffiniol. Bydd LTT hefyd yn effeithio ar fusnesau sy'n caffael tir neu adeiladau, naill ai iddynt eu hunain, neu fel rhan o'u gweithgareddau masnachol (er enghraifft, datblygu eiddo neu fuddsoddi).
172. Mae'n ansicr ar hyn o bryd a fydd rhoi LDT ar waith yn cael effaith fawr ar weithredwyr tirlenwi. Caiff yr LFT bresennol ei chasglu â llaw - os bydd hyn yn parhau o dan ACC, bach iawn fydd yr effaith. Pe penderfynid digido'r gwaith o gasglu LDT, byddai effaith ar fusnesau tirlenwi oherwydd byddent yn gorfod integreiddio newid i'w prosesau busnes. Fodd bynnag, ymgynghorwyd â rhanddeiliaid tirlenwi gydol y broses o ddatblygu polisi, ac maent wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru fod gweddill eu gweithgareddau busnes yn cael eu rheoli'n ddigidol ac y byddent yn croesawu newid i gyfundrefn ddigidol o adrodd/casglu. Mae angen deall hyn yng nghyd-destun y ffaith y bydd nifer y gweithredwyr a'r ffrwd refeniw trethi yn lleihau.

Yr effaith ar y sector gwirfoddol

173. Nid yw Gweinidogion Cymru yn disgwyl i'r Bil hwn effeithio ar sefydliadau'r sector gwirfoddol. Efallai y bydd effaith bosibl yn ddiweddarach pan fydd LTT ac LDT yn cael eu dylunio a'r ddeddfwriaeth ar y trethi penodol yn cael ei

chyflwyno, ond ni ddisgwylir i newidiadau posibl i'r dull o gasglu'r ddwy dreth greu unrhyw faich ychwanegol i'r sector gwirfoddol.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

174. Ymgysylltwyd yn eang â rhanddeiliaid allanol gydol y broses o ddatblygu polisi. Roedd hyn yn cynnwys gweithdai i randdeiliaid, cyfarfodydd unigol, Fforwm Treth dan arweiniad swyddogion (gyda ffocws tactegol/strategol) a Grŵp Cyngori ar Drethi dan arweiniad y Gweinidog (gyda ffocws strategol). Ymgysylltwyd yn eang â rhanddeiliaid mewnol hefyd drwy'r Bwrdd Prosiect a swyddogion ym meysydd polisi perthnasol.
175. Mae asesiad effaith wedi'i gwblhau i werthuso a fydd y ddeddfwriaeth hon yn cael unrhyw effaith niweidiol ar grwpiau gwarchodedig ac i sicrhau nad yw'n mynd yn groes i Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

Grwpiau Gwarchodedig

176. Nid yw lleoliad ACC wedi'i benderfynu eto, felly ni ellir ystyried mynediad corfforol i'r sefydliad gan nad oes unrhyw bwynt cyfeirio ar gael fel sylfaen i wneud unrhyw gasgliadau. Bydd y mater hwn yn cael ei ystyried yn llawn wrth baratoi ar gyfer sefydlu a gweithredu ACC.

Oedran

177. Pobl iau – Fel y nodir isod, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar Hawliau'r Plentyn i lywio darpariaethau'r Bil a ddaeth i'r casgliad na fydd y ddeddfwriaeth yn cael effaith uniongyrchol ar blant. Bydd yr effaith ar blant a phobl ifanc yn parhau i gael ei hystyried wrth i baratoadau gael eu gwneud ar gyfer gweithredu ACC.
178. Pobl 18 oed a hŷn – mae'r grŵp oedran hwn yn fwy tebygol o gael ei effeithio gan ddeddfwriaeth ar gyfer y dreth benodol yn ymwneud ag LTT ac LDT, ond ni chredir y bydd sefydlu ACC ohono'i hun yn cael effaith wahaniaethol.

Anabledd

179. Mae'r grŵp gwarchodedig hwn yn cynnwys sawl categori. Ni chredir y bydd sefydlu ACC a'r system casglu a rheoli trethi yn cael effaith wahaniaethol ar bobl sydd ag anabledd dysgu a/neu broblemau iechyd meddwl. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd effeithiau bach ar gyfer y categorïau canlynol o ran darpariaeth weithredol ACC. Bydd y materion a nodwyd isod ac eraill sy'n effeithio ar y grŵp hwn yn cael eu hystyried fel rhan o'r paratoadau ar gyfer gweithredu ACC.
- Nam ar y golwg – gallai gwaith ACC o ddydd i ddydd gael effaith fach ar bobl sydd â nam ar y golwg. Er enghraifft, os bydd dull digidol yn bennaf yn cael ei fabwysiadu, gallai hynny gael effaith ar y rhai sydd â nam ar y golwg.

- Nam ar y clyw – gallai gwaith ACC o ddydd i ddydd gael effaith fach ar bobl sydd â nam ar y clyw hefyd. Bydd hyn yn digwydd os yw pobl sydd â nam ar y clyw eisiau cysylltu â'r sefydliad dros y ffôn.
- Anabledd corfforol - gallai gwaith ACC o ddydd i ddydd gael effaith fach ar bobl sydd ag anabledd corfforol hefyd. Gallai gael effaith ar y rhai sydd ag anabledd corfforol os na allant ddefnyddio cyfarpar cyfrifiadurol safonol i gyflwyno ffurflenni treth a dogfennau eraill. Gallai'r effaith hon gael ei lliniaru drwy ddefnyddio cyfarpar caledwedd arbenigol fel bysellfwrdd a/neu lygodyn wedi'u haddasu yn arbennig, ac mae'n bosibl y bydd gan unigolyn ag anabledd corfforol sydd am ddefnyddio'r rhyngwyd yn gyffredinol fynediad at gyfarpar o'r fath eisoes.

Rhywedd

180. Ni chredir y bydd sefydlu ACC a'r system casglu a rheoli trethi yn cael effaith wahaniaethol ar sail rhywedd.

Trawsrywedd

181. Ni chredir y bydd sefydlu ACC a'r system casglu a rheoli trethi yn cael effaith wahaniaethol ar bobl drawsryweddol.

Priodasau a phartneriaethau sifil

182. Ni chredir y bydd sefydlu ACC a'r system casglu a rheoli trethi yn cael effaith wahaniaethol ar briodasau neu bartneriaethau sifil.

Beichiogrwydd a mamolaeth/tadolaeth

183. Ni chredir y bydd sefydlu ACC a'r system casglu a rheoli trethi yn cael effaith wahaniaethol ar fenywod beichiog neu yn ystod cyfnodau mamolaeth neu dadolaeth.

Hil

184. Mae'r grŵp gwarchodedig ar sail hil yn cynnwys pobl o leiafrifoedd ethnig, tarddiad cenedlaethol, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, sipsiwn a theithwyr, mewnfudwyr ac eraill. Ni chredir y bydd sefydlu ACC a'r system casglu a rheoli trethi yn cael effaith wahaniaethol ar y bobl sy'n rhan o'r grŵp gwarchodedig ar sail hil.

Crefydd a chredo neu anghred

185. Ar gyfer y grwpiau crefyddol gwahanol, y rhai sydd â chredoau a'r rhai nad oes ganddynt greddau, ni chredir y bydd sefydlu ACC a'r system casglu a rheoli trethi yn cael effaith wahaniaethol ar y rhai sydd yn y grŵp gwarchodedig ar sail crefydd.

Cyfeiriadedd rhywiol

186. Mae'r grŵp gwarchodedig hwn yn cynnwys dynion hoyw, lesbiaid a phobl ddeurywiol. Ni chredir y bydd sefydlu ACC a'r system casglu a rheoli trethi yn cael effaith wahaniaethol ar bobl yn y grŵp gwarchodedig hwn.

Hawliau dynol

187. Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol (1998), sy'n ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn rhannol, wedi cael ei hystyried yn yr asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb.
188. Dywed Deddf Llywodraeth Cymru 2006 na fydd Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad os nad yw'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac na allai ddod yn gyfraith (adran 108(6) (c) Deddf Llywodraeth Cymru 2006).
189. Mae'r meysydd yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sy'n berthnasol i drethi yn cynnwys nifer o Erthyglau sy'n nodi egwyddorion sylfaenol hawliau dynol. Y prif Erthyglau sy'n berthnasol at ddibenion y Bil hwn yw:
- Erthygl 1 sy'n gwarantu'r hawl i fwynhau eiddo'n heddychlon.
 - Erthygl 6 sy'n gwarantu'r hawl i dreial teg wrth benderfynu ar rwymedigaethau sifil; mae hefyd yn rhoi hawliau pellach pan gaiff person ei gyhuddo o drosedd.
 - Erthygl 8 sy'n mynnu parch tuag at fywyd preifat a theuluol.
 - Erthygl 14 sy'n gwahardd gwahaniaethu.
190. Mae Erthygl 1 yn berthnasol gan fod y Bil yn darparu ar gyfer rheoli defnydd o eiddo i sicrhau taliadau trethi, cyfraniadau eraill neu gosbau dan rai amgylchiadau, er bod y fframwaith wedi'i gynllunio gydag egwyddor cymesuredd mewn cof a chan sicrhau bod digon o fesurau diogelwch wedi'u cynnwys yn y system. Mae Erthyglau 6 ac 8 yn berthnasol i ACC oherwydd y bydd ganddo bwerau i ymchwilio ac erlyn, a rhai o'r pwerau hynny wedi eu dirprwyo. Bydd y pwerau a freinir yn ACC yn gymesur â'r trethi datganoledig a byddant yn destun craffu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (sy'n gallu gofyn i Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu ac Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi gynnal ymchwiliadau arbenigol os oes angen). Mae'r Bril hefyd yn sefydlu system gynhwysfawr o adolygiadau mewnol a hawliau apêl i dribiwnlys mewn perthynas â phenderfyniadau a wnaed gan ACC.
191. Bydd ACC yn gorff sector cyhoeddus yng Nghymru, ac er y cyfeirir at Erthygl 14 at ddibenion cyflawnrwydd, bydd gan ACC ddyletswydd i gynnal a hyrwyddo'r safonau uchel sy'n cael eu disgwyl gan bob sefydliad sector cyhoeddus yng Nghymru.

192. Mae'r graddau y mae'r Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (gan gynnwys yr Erthyglau uchod) wedi'i ystyried cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Canfu'r dadansoddiad nad yw'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n anghydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd

193. Mae Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd wedi cael ei gwblhau ac mae'r Uned Hawl i Wybodaeth wedi cadarnhau nad oes newid i ddisgwyliadau preifatrwydd unigolion o reidrwydd gan fod y trethi hyn eisoes yn cael eu casglu (er bod hynny ar raddfa'r DU) ac mae'r cynnig yn ymwneud â datganoli'r swyddogaeth honno i Gymru. Mae proses ar waith ar gyfer talu trethi ar hyn o bryd sy'n cynnwys prosesu data personol, a bydd proses debyg yn bodoli pan gaiff y trethi eu datganoli i Gymru. O ganlyniad, nid oes angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Breifatrwydd.

Asesiad o'r effaith ar hawliau'r plentyn

194. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau'r Plentyn i lywio darpariaethau'r Bil, a daethpwyd i'r casgliad na fydd y ddeddfwriaeth yn cael effaith uniongyrchol ar blant. Bydd yr effaith ar blant a phobl ifanc yn parhau i gael ei hystyried wrth i baratodau gael eu gwneud ar gyfer gweithredu ACC.

Rhestr gyfeirio prawfesur gwledig

195. Mae'r Rhestr Gyfeirio Prawfesur Gwledig yn asesu a yw'r Bil yn achosi effaith niweidiol sylweddol ar y gymuned wledig.

196. Mae'r tabl isod yn crynhoi canlyniadau'r rhestr gyfeirio prawfesur gwledig:

	Cwestiwn Polisi	✓	×	Sylw
1.	A fydd eich polisi'n effeithio ar argaeledd gwasanaethau cyhoeddus a phreifat eraill yn yr ardal wledig?		Na fydd	
2.	A allech gyflawni'r polisi yr ydych yn cynnig ei roi ar waith drwy unedau gwasanaeth sy'n bodoli'n barod? E.e. ysgolion, banciau a meddygfeydd	Gallem		Mae rhai o'r opsiynau sy'n cael eu hystyried yn cynnwys defnyddio sefydliadau sector cyhoeddus presennol.
3.	A fydd cost ychwanegol i gyflawni'ch polisi mewn ardaloedd gwledig?		Na fydd	
4.	A fydd eich polisi'n effeithio ar anghenion teithio neu ar hwylustod a chost teithio i gymunedau gwledig?		Na fydd	
5.	A yw'r polisi'n dibynnu ar gyfleu		Nac	

	gwybodaeth i gleientiaid?		ydy	
6.	A fydd y polisi yn cael ei gyflawni drwy'r sector preifat neu drwy bartneriaeth gyhoeddus-breifat?		Na fydd	
7.	A yw'r polisi'n dibynnu ar seilwaith cyflawni a allai roi cymunedau gwledig o dan anfantais? E.e. TGCh band eang, prif ffyrdd a chyfleustodau	Ydy		Mae'n debyg y bydd dull digidol yn bennaf yn cael ei ddefnyddio a allai effeithio ar ardaloedd gwledig sydd â chysylltiad rhwng rwyd gwael.
8.	A fydd y polisi'n effeithio ar fusnesau gwledig, yn enwedig pobl hunangyflogedig a micro fusnesau, ac ar y Trydydd Sector yn cynnwys mentrau cymdeithasol a mudiadau gwirfoddol lleol?		Na fydd	
9.	A fydd y polisi'n effeithio'n arbennig ar ddiwydiannau'r tir ac felly ar economïau gwledig a'r amgylchedd?		Na fydd	
10.	A fydd y polisi'n effeithio ar y rhai ar gyflogau isel neu mewn cyflogaeth ran-amser neu dymhorol?		Na fydd	
11.	A fydd y polisi'n targedu pobl ddifreintiedig sy'n byw mewn ardaloedd gwledig?		Na fydd	
12.	A fydd y polisi'n ddibynnol ar sefydliadau lleol i'w gyflawni?		Na fydd	
13.	A yw'r polisi'n dibynnu ar adeilad neu safle datblygu newydd?		Nac ydy	
14.	A fydd y polisi'n effeithio ar ansawdd a chymeriad y dirwedd wledig naturiol ac adeiledig?		Na fydd	
15.	A fydd y polisi'n effeithio ar bobl sy'n dymuno cyrraedd cefn gwlad a'i ddefnyddio ar gyfer hamdden a mwynhad?		Na fydd	

Effaith ar yr Iaith Gymraeg

197. Cynhaliwyd Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg i lywio darpariaethau'r Bil a daethpwyd i'r casgliad na fydd y ddeddfwriaeth yn cael effaith uniongyrchol ar y Gymraeg. Bydd ACC yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg sy'n ofynnol gan y Comisiynydd Iaith (yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011). Bydd yr effaith ar y Gymraeg yn parhau i gael ei hystyried wrth i baratodau gael eu gwneud ar gyfer gweithredu ACC.

Pennod 9: Asesiad Cystadleuaeth

198. Mae dau gam i'r Asesiad Cystadleuaeth. Y cyntaf yw hidlydd cyflym sy'n asesu a oes risg y bydd effaith niweidiol arwyddocaol ar gystadleuaeth.
199. Mae'r tabl isod yn crynhoi canlyniadau'r hidlydd cystadleuaeth.

Prawf yr hidlydd cystadleuaeth	
Cwestiwn	✓ neu ✕
C1: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoleiddio newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran fwy na 10% o'r farchnad?	Nac oes
C2: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoleiddio newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran fwy nag 20% o'r farchnad?	Nac oes
C3: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoleiddio newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd gyfran o 50% o leiaf o'r farchnad?	Nac oes
C4: A fyddai costau'r rheoleiddio yn effeithio'n fwy sylweddol ar rai cwmnïau nag eraill?	Na fyddent
C5: A yw'r rheoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer a maint busnesau/sefydliadau?	Nac ydy
C6: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau ymsefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, costau nad oes rhaid i gyflenwyr sy'n bodoli'n barod eu talu?	Na fyddai
C7: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, costau nad oes rhaid i gyflenwyr sy'n bodoli'n barod eu talu?	Na fyddai
C8: A yw newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector?	Nac ydy
C9: A fyddai'r rheoleiddio'n cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynnyrch?	Na fyddai

200. O ystyried yr atebion uchod, nid oes angen ail gam yr asesiad cystadleuaeth.

Pennod 10: Adolygiad Ôl-weithredu

201. Rhagwelir y bydd y ddeddfwriaeth hon yn cael ei hadolygu ymhen 3-5 mlynedd, pan adolygir pwy fydd yn y sefyllfa orau i gasglu a rheoli.

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

BIL CASGLU A RHEOLI TRETHI (CYMRU)

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) ("y Bil") a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 13 Gorffennaf 2015 ac a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 ar 28 Ionawr 2016.
2. Fe'u lluniwyd gan Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil
3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan o'r Bil. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil. Pan fo adran neu ran o adran yn esbonio'i hun ac nad ymddengys bod angen rhoi esboniad neu wneud sylw pellach arni, nis rhoddir.
4. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i wneud y Bil hwn yn rhinwedd y darpariaethau yn Rhannau 4 a 4A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraffau 14 ac 16A o Atodlen 7 iddi. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi'r cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud darpariaeth mewn perthynas â threthi datganoledig (a ddiffinnir fel trethi a bennir yn Rhan 4A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), statws staff a gyflogir gan gorff sy'n gyfrifol am gasglu a rheoli trethi datganoledig, ac mewn perthynas ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

CRYNODEB A'R CEFNDIR

5. Nodwyd y cyd-destun a'r cefndir i'r Bil hwn ym Mhennod 1 o Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru - *Casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru*, a gyhoeddwyd ar 23 Medi 2014¹.
6. Yn gryno, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer system dreth Gymreig er mwyn gallu casglu a rheoli trethi Cymreig datganoledig. Mae'n sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru fel adran anweinidogol y rhagwelir y bydd yn gyfrifol am gasglu trethi datganoledig Cymru o fis Ebrill 2018 ymlaen². Mae hefyd yn nodi'r berthynas rhwng yr awdurdod trethi a threthdalwyr yng Nghymru, gan gynnwys y pwerau, yr hawliau a'r dyletswyddau perthnasol.
7. Mae 10 o Rannau a 195 o adrannau i'r Bil ac fe'i trefnir fel a ganlyn:
 - Rhan 1 - Trosolwg
 - Rhan 2 - Awdurdod Cyllid Cymru
 - Rhan 3 - Ffurflenni, Ymholiadau ac Asesiadau Treth
 - Rhan 4 - Pwerau Ymchwilio ACC
 - Rhan 5 - Cosbau
 - Rhan 6 - Llog
 - Rhan 7 - Talu a Gorfodi
 - Rhan 8 - Adolygiadau ac Apelau
 - Rhan 9 - Ymchwilio i Droseddau
 - Rhan 10 - Darpariaethau Terfynol

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Rhan 1 - Trosolwg

8. Mae'r trosolwg o'r Bil yn dangos sut y mae'r Rhannau o'r Bil wedi eu trefnu ac yn rhoi disgrifiad byr o'r hyn y mae pob rhan yn ei wneud.

Rhan 2 - Awdurdod Cyllid Cymru

Adrannau 2-9 - Sefydlu, statws, aelodaeth, pwyllgorau a staff Awdurdod Cyllid Cymru

9. Mae adran 2 yn sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) fel corff corfforaethol gyda'i bersonoliaeth gyfreithiol ei hun. Bydd ACC yn gorff y Goron gyda statws adran anweinidogol, yn hytrach na statws Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.
10. Mae adrannau 3 i 7 yn gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth ACC. Bydd y corff yn cynnwys aelodau anweithredol a gweithredol a bydd rhwng wyth a thri ar ddeg o aelodau. Mae adran 3(3) yn sicrhau bod nifer yr aelodau anweithredol yn parhau i fod yn uwch na nifer yr aelodau gweithredol. Mae adran 4 yn nodi'r swyddi hynny a fyddai'n anghymhwysu person rhag cael ei benodi'n aelod anweithredol o ACC.

¹ Papur Gwyn Casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru LIC22945

² Y bwriad yw 'diffodd' fersiynau'r DU gyfan o'r trethi i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru o fis Ebrill 2018. Bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu ar y dyddiad terfynol ar gyfer diffodd trethi'r DU yng Nghymru.

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

11. Mae adrannau 5 a 7 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru benodi, ailbenodi a diswyddo aelodau anweithredol gan gynnwys cadeirydd a dirprwy gadeirydd, ac i wneud rheoliadau i ddiwygio nifer yr aelodau. Ceir darpariaethau hefyd ar gyfer diswyddo'r aelod gweithredol etholedig.
12. Mae adran 6 yn darparu ar gyfer penodi aelod gweithredol etholedig. Bydd yr aelod gweithredol etholedig yn cael ei benodi gan yr aelodau anweithredol yn dilyn pleidlais gudd ymhlith staff ACC a gynhelir gan ACC.
13. Mae adran 8 yn gwneud darpariaeth i ACC sefydlu pwyllgorau (a gaiff sefydlu is-bwyllgorau) at unrhyw ddiben sy'n ymwneud â'i swyddogaethau. Caiff ACC benderfynu ar gyfansoddiad y pwyllgorau a hefyd benodi pobl nad ydynt yn aelodau o ACC a thalu iddynt am y gwasanaethau a roddant, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.
14. Mae adran 9 yn darparu ar gyfer penodi prif weithredwr ACC, sy'n atebol i ACC am redeg ACC mewn modd effeithlon ac effeithiol. Gweinidogion Cymru fydd yn penodi'r prif weithredwr cyntaf ac ACC fydd yn gwneud y penodiadau dilynol, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Gwneir darpariaeth hefyd i ACC benodi staff, a bydd y staff hynny yn weision sifil.

Adrannau 10-11 – Gweithdrefn a dilysrwydd

15. Mae adran 10 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC lunio rheolau i reoleiddio ei weithdrefn ei hun a gweithdrefn ei bwyllgorau, ac mae adran 11 yn pennu dilysrwydd trafodion neu weithredoedd ACC.

Adrannau 12-15 – Prif swyddogaethau, dirprwyaethau a chyfarwyddydau

16. Mae adran 12 yn nodi swyddogaethau ACC, gan gynnwys ei swyddogaeth gyffredinol o gasglu a rheoli trethi datganoledig a'i swyddogaethau penodol mewn perthynas â threthi o'r fath gan gynnwys: darparu gwybodaeth a chymorth i Weinidogion Cymru a threthdalwyr ac eraill; datrys cwynion ac anghydfodau; a hybu cydymffurfedd o ran trethi a gweithio i amddiffyn rhag efadu trethi ac osgoi trethi. Caiff ACC gymryd camau eraill y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol neu'n hwylus mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau. Mae adran 13 yn gwneud darpariaeth i ACC awdurdodi'n fewnol i aelodau ACC, pwyllgorau, is-bwyllgorau neu staff ACC gyflawni ei swyddogaethau. Mae adran 13(2) yn ei gwneud yn ofynnol bod o leiaf un aelod anweithredol yn aelod o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor a awdurdodir i gyflawni swyddogaethau ACC.
17. Mae adran 14 yn gwneud darpariaeth i ACC ddirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau i un neu ragor o'r cyrff a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.
18. Gwneir darpariaeth i ACC dalu sefydliad y mae wedi dirprwyo swyddogaeth iddo a rhoi cyfarwyddydau ynghylch sut y mae swyddogaethau a ddirprwywyd i'w harfer. Rhaid i ACC gyhoeddi gwybodaeth am unrhyw ddirprwyaethau a chyfarwyddydau

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

o'r fath a roddir, oni bai ei fod o'r farn y byddai hynny'n niweidio gallu ACC i arfer ei swyddogaethau yn effeithiol.

19. Pan ddirprwyir swyddogaethau bydd ACC yn parhau i allu arfer unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau a ddirprwywyd ganddo a bydd yn parhau i fod â chyfrifoldeb cyffredinol dros gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru.
20. Mae adran 15 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddydau o natur gyffredinol i ACC, a bod rhaid i ACC, wrth arfer ei swyddogaethau, gydymffurfio â hwy. Gallant ymwneud â blaenoriaethau polisi strategol, er enghraifft, neu ag ACC yn arfer ei bŵer dirprwyo o dan adran 14. Rhaid i gyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru gael eu cyhoeddi.

Adrannau 16-20 – Gwybodaeth a gwybodaeth warchodedig am drethdalwyr

21. Mae adran 16 yn caniatáu i wybodaeth sydd wedi dod i law ACC, neu i law sefydliad y mae swyddogaethau ACC wedi eu dirprwyo iddo, gael ei defnyddio (yn ddarostyngedig i unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau rhyngwladol y DU sy'n cyfyngu ar y defnydd o wybodaeth neu'n gwahardd ei defnyddio) o fewn ACC, neu gan unrhyw sefydliad y mae swyddogaethau wedi eu dirprwyo iddo, mewn perthynas ag unrhyw un neu ragor o swyddogaethau ACC.
22. Mae adran 17 yn gwahardd swyddog perthnasol (fel y'i diffinnir yn adran 17(2)) rhag datgelu gwybodaeth am drethdalwyr oni bai bod hynny'n cael ei ganiatáu yn benodol. Mae torri'r gofyniad hwn yn drosedd o dan adran 20. Nodir y seiliau ar gyfer datgelu yn adran 18.
23. Mae adran 19 yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion perthnasol a gaiff weld gwybodaeth warchodedig am drethdalwyr wneud datganiad sy'n cydnabod y rhwymedigaeth sydd arnynt i barchu cyfrinachedd.

Adrannau 21-22 – Achosion llys a thystiolaeth

24. Mae adran 21 yn rhoi'r grym i ACC gychwyn achosion troseddol yng Nghymru a Lloegr a bydd ganddo'r hawl hefyd i gychwyn achos sifil. Caiff ACC benodi unigolion i weithredu ar ei ran mewn achosion mewn llysoedd ynadon yng Nghymru a Lloegr hyd yn oed os nad yw'r unigolion hynny'n bersonau a awdurdodwyd ("*authorised persons*") o fewn ystyr Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007.
25. Mae adran 22 yn egluro statws tystiolaethol dogfennau a ddyroddir gan ACC, neu ar ei ran, a materion penodol a ddatgenir mewn dogfennau o'r fath, sydd i'w defnyddio mewn achosion cyfreithiol, gan gynnwys y ffaith bod copi ardystiedig o ddogfen yn dderbyniol mewn achosion cyfreithiol.
26. Pan fo ACC yn dyroddi tystysgrif i'r perwyl nad yw ffurflen dreth wedi ei dychwelyd i ACC, neu nad yw hysbysiad wedi ei roi i ACC, pan ddylai hynny fod wedi digwydd, mae'r dystysgrif honno yn dystiolaeth o'r ffaith, oni phofir i'r gwrthwyneb.

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

Adrannau 23-25 – Arian

27. Mae adran 23 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru dalu ACC am ymgymryd â swyddogaethau casglu a rheoli trethi. Bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'r swm, yr amseroedd talu ac unrhyw amodau talu sy'n briodol yn eu barn hwy.
28. Mae adran 24 yn caniatáu i ACC roi gwobr i berson yn dâl am wasanaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau. Enghraifft o hyn fyddai rhoi gwobr i hysbysydd am ddarparu gwybodaeth sy'n arwain yn llwyddiannus at gasglu treth nas datganwyd mewn amgylchiadau pan fo person wedi ceisio efadu neu osgoi talu trethi Cymreig datganoledig.
29. Mae adran 25 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC dalu'r arian y mae wedi ei gasglu (gan gynnwys trethi datganoledig, cosbau a llog ar symiau sy'n daladwy i ACC) i Gronfa Gyfunol Cymru, ond ar ôl iddo ddidynnu unrhyw alldaliadau (er enghraifft, ad-dalu credydau a llog). At ddibenion yr adran hon nid yw unrhyw wobrau a delir o dan adran 24 yn alldaliadau.

Adran 26 – Siarter safonau a gwerthoedd

30. Rhaid i ACC baratoi Siarter, ymgynghori arni, ei chyhoeddi a'i gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y Siarter hon yn nodi'r safonau ymddygiad a'r gwerthoedd y disgwylir i aelodau a staff ACC gadw atynt wrth ymdrin â threthdalwyr a'u hasiantiaid, a'r safonau ymddygiad a'r gwerthoedd y mae ACC yn eu disgwyl gan y rhai y mae'n ymdrin â hwy. Mae'n ofynnol hefyd i ACC adolygu a diwygio'r Siarter bob pum mlynedd a chyhoeddi'r siarter gyntaf o fewn 3 mis i'r adran hon o'r Ddeddf ddod i rym.

Adrannau 27-28 – Cynllun corfforaethol ac adroddiad blynyddol

31. Mae adran 27 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC baratoi cynllun corfforaethol ar gyfer pob cyfnod cynllunio. Diffinnir cyfnod cynllunio, ac mae'r cynllun cyntaf i'w gyhoeddi yn ddim hwyrach nag ar ddyddiad a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau, a chynlluniau dilynol i'w cyflwyno bob 3 blynedd wedi hynny.
32. Rhaid i'r cynllun ddisgrifio prif amcanion ACC, y canlyniadau y gellir mesur yr amcanion hynny yn eu herbyn a'r gweithgareddau y mae'n disgwyl ymgymryd â hwy yn ystod y cyfnod cynllunio. Rhaid i gynlluniau gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo ganddynt, a rhaid i gynlluniau a gymeradwywyd gael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'u cyhoeddi.
33. Caiff ACC gyflwyno cynllun corfforaethol diwygiedig ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod cynllunio, i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Caiff Gweinidogion Cymru adolygu'r cyfnod cynllunio o 3 blynedd drwy orchymyn fel y gwelant yn dda.
34. Mae adran 28 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar yr hyn y mae wedi ei wneud i gyflawni ei amcanion yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Rhaid i'r adroddiad blynyddol gael ei anfon at Weinidogion Cymru a'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhaid i'r

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

adroddiad gynnwys yn benodol asesiad o'r graddau y mae ACC wedi amlygu'r safonau ymddygiad a'r gwerthoedd y mae wedi eu datgan yn ei siarter. Rhaid i'r adroddiad fod ar gael i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr "Archwilydd Cyffredinol") ar adeg debyg i Gyfrifon a Datganiad Treth ACC.

Adranau 29-32 – Cyfrifon ac archwilio

35. Mae adran 29 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC gadw cofnodion llawn a phriodol a'u paratoi ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Rhaid paratoi'r Cyfrifon yn unol ag unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru.
36. Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo ACC ynghylch yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y cyfrifon a'r modd y mae i'w chyflwyno, y dulliau a'r egwyddorion a ddefnyddir i baratoi'r cyfrifon ac unrhyw wybodaeth ategol arall a ddylai fynd gyda'r cyfrifon.
37. Mae adran 30 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC baratoi Datganiad Treth o'r arian a dderbyniwyd (pa un a gasglwyd yr arian yn uniongyrchol neu gan sefydliad y dirprwywyd swyddogaethau casglu trethi iddo) ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â chyfarwyddydau gan Weinidogion Cymru.
38. Mae adran 31 yn nodi erbyn pa bryd y mae'n rhaid i ACC gyflwyno'r cyfrifon a'r Datganiad Treth i'r Archwilydd Cyffredinol at ddibenion archwilio.
39. Wrth archwilio'r cyfrifon a'r Datganiad Treth rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gael ei fodloni yr aed i wariant yn gyfreithlon, nad yw arian a dderbyniwyd wedi ei wario ond at y diben a fwriadwyd, bod arian a gasglwyd wedi ei gasglu'n gyfreithlon, a bod unrhyw all daliadau a ddidynnwyd wedi eu didynnu yn unol ag adran 25(2). O fewn 4 mis i dderbyn y cyfrifon a'r Datganiad Treth gan ACC rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol roi copi ardystiedig o'r cyfrifon a'r Datganiad Treth, a'i adroddiad, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
40. Gwneir darpariaeth o dan adran 32 i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliad o'r graddau y mae ACC wedi defnyddio adnoddau yn ddarvoudus, yn effeithlon ac yn effeithiol wrth arfer ei swyddogaethau. Os yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod archwiliad o'r fath yn angenrheidiol, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn y lle cyntaf ac ystyried ei farn o ran a ddylid cynnal archwiliad ai peidio. Os cynhelir archwiliad, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi adroddiad ar y canlyniadau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a gosod copi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Adran 33 – Swyddog cyfrifo

41. Mae Prif Weithredwr ACC hefyd yn swyddog cyfrifo ACC. Bydd Gweinidogion Cymru yn pennu cyfrifoldebau'r swyddog cyfrifo, ond mae'r adran yn nodi rhai ohonynt, gan gynnwys llofnodi cyfrifon ACC, sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra cyllid ACC, a defnyddio adnoddau ACC yn ddarvoudus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Gallai'r cyfrifoldebau hefyd gynnwys cyfrifoldebau tuag at Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion Cymru a Thŷ'r Cyffredin neu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru (os bydd y Pwyllgor Seneddol yn gofyn iddo

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

wneud hynny) hefyd gymryd tystiolaeth gan y swyddog cyfrifo, ac adrodd wedi hynny i'r Pwyllgor Seneddol a chyfleu iddo'r dystiolaeth a gymerwyd.

Adran 34 – Cofnodion Cyhoeddus Cymru

42. Mae'r adran yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 fel bod cofnodion ACC yn cael eu hystyried yn gofnodion cyhoeddus Cymru.

Adran 35 – Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

43. Mae'r adran yn ychwanegu ACC at y rhestr o gyrff cyhoeddus yng Nghymru a gynhwysir yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 er mwyn galluogi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i fod ag awdurdodaeth dros ACC.

Adran 36 – Archwilydd Cyffredinol Cymru

44. Mae'r adran hon yn ychwanegu at Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 er mwyn darparu y caiff yr Archwilydd Cyffredinol godi ffi ar ACC am ymchwiliad, ardystiad neu adroddiad mewn cysylltiad â Datganiad Treth ACC.

Rhan 3 – Ffurflenni, Ymholiadau ac Asesiadau Treth

Adran 37 – Trosolwg

45. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r Rhan sy'n ymwneud ag asesu trethi datganoledig, sef dyletswyddau trethdalwyr, ffurflenni treth, ymholiadau gan ACC i ffurflenni treth, dyfarniadau ac asesiadau treth gan ACC a hawliadau am ymwared rhag treth, ac ad-daliadau a'r weithdrefn ar gyfer eu gwneud.

Adrannau 38-39 – Dyletswyddau trethdalwyr i gadw cofnodion a'u storio'n ddiogel

46. Mae adran 38 yn gosod dyletswydd ar berson y mae'n ofynnol iddo ddychwelyd ffurflen dreth ddatganoledig i gadw cofnodion sy'n angenrheidiol er mwyn llenwi'r ffurflen honno a'u storio'n ddiogel. Mae'n nodi'r mathau o gofnodion sydd i'w cadw ac am ba hyd y mae angen storio cofnodion yn ddiogel, a hefyd yn caniatáu i ACC bennu dyddiad cynharach. Gwneir darpariaeth hefyd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi'r cofnodion a'r dogfennau ategol y mae'n rhaid eu cadw a'u storio'n ddiogel.
47. Mae adran 39 yn nodi sut y gellir bodloni'r ddyletswydd ar drethdalwyr i gadw cofnodion a'u storio'n ddiogel, ac yn egluro y bydd storio gwybodaeth yn ddiogel ar ffurf electronig yn ddigonol.

Adrannau 40-42 – Ffurflenni treth

48. Mae adran 40 yn diffinio'r "dyddiad ffeilio" fel y dyddiad erbyn pryd y mae'n ofynnol dychwelyd ffurflen dreth ar gyfer treth ddatganoledig. Bydd deddfwriaeth ynglŷn â'r trethi datganoledig penodol yn gwneud darpariaeth ynghylch beth yw'r dyddiad hwnnw o dan amgylchiadau penodol. Mae adran 41 yn rhoi'r cyfle i'r

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

person sy'n dychwelyd ffurflen dreth ei diwygio, ac yn nodi sut a phryd y caniateir gwneud hynny. Rhaid i berson sy'n gwneud diwygiad wneud hynny o fewn 12 mis i'r dyddiad ffeilio neu erbyn unrhyw ddyddiad arall y mae Gweinidogion Cymru wedi ei ragnodi drwy reoliadau. Ni chaniateir gwneud diwygiad pan fo ACC wedi dyroddi hysbysiad i ddiwygio ffurflen dreth yn ystod ymholiad i'r ffurflen dreth (adran 45(3)) neu pan fo hysbysiad cau wedi ei ddyroddi yn dilyn cwblhau ymholiad (adran 50(3)).

49. Mae adran 42 yn caniatáu i ACC gywiro ffurflen dreth sy'n cynnwys gwallau neu hepgoriadau amlwg drwy roi hysbysiad i'r trethdalwr. Gallai gwall amlwg fod yn rhywbeth fel gwall rhifyddol er bod y ffigurau a ddefnyddiwyd i wneud y cyfrifiad yn gywir. Rhaid i ACC wneud cywiriad o fewn 9 mis i'r dyddiad y dychwelwyd y ffurflen. Caiff y trethdalwr wrthod y cywiriad drwy ddiwygio'r ffurflen dreth neu drwy roi hysbysiad sy'n gwrthod y cywiriad, ar yr amod y gwneir hynny o fewn 3 mis i ddyddiad hysbysiad cywiro ACC.

Adrannau 43-45 – Ymholiadau ACC

50. Mae adran 43 yn darparu y caiff ACC wneud ymholiad i ffurflen dreth, ar yr amod yr hysbysir y person a ddychwelodd y ffurflen am y bwriad i gynnal ymholiad. Dim ond un ymholiad a ganiateir mewn perthynas ag unrhyw ffurflen dreth benodol (ac eithrio pan fo'r trethdalwr yn diwygio'r ffurflen; mewn achos o'r fath caniateir cynnal ymholiad arall i'r diwygiad hwnnw). Mae adran 44 yn nodi cwmpas a chyfyngiadau ymholiad ACC i ffurflen dreth.
51. Mae adran 45 yn darparu y caiff ACC ddiwygio ffurflen dreth yn ystod ymholiad os yw o'r farn bod swm y dreth ddatganoledig sy'n daladwy a ddangosir ar y ffurflen dreth yn annigonol a'i bod yn debygol y bydd treth ddatganoledig yn cael ei cholli os na wneir y diwygiad. Pan wneir ymholiad i ffurflen ddiwygiedig, mae'n cyfyngu'r ymholiad i faterion y mae'r ffurflen ddiwygiedig yn eu diwygio neu'n effeithio arnynt. Caiff y cyfnod y mae ymholiad yn mynd rhagddo ei ddiffinio at ddibenion yr adran hon ac adran 46. Rhaid i unrhyw swm o dreth ddatganoledig sy'n daladwy yn dilyn y diwygiad gael ei dalu o fewn 30 o ddiwrnodau i'r dyddiad y mae ACC yn dyroddi hysbysiad am y diwygiad.

Adrannau 46-49 – Atgyfeirio at dribiwnlys yn ystod ymholiad

52. Mae adran 46 yn darparu ar gyfer atgyfeirio unrhyw gwestiynau ynghylch y ffurflen dreth yn ystod ymholiad at y tribiwnlys er mwyn iddo ddyfarnu arnynt. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad atgyfeirio gael ei roi ar y cyd gan y person perthnasol ac ACC. Bydd rheolau'r tribiwnlys yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn atgyfeiriad. Mae adran 47 yn darparu y caiff y naill barti neu'r llall dynnu hysbysiad atgyfeirio a wnaed o dan yr adran flaenorol yn ôl. Rhaid i'r ddau barti gytuno i'r atgyfeiriad, a hynny er mwyn rhwystro un parti rhag atal neu oedi ymholiadau drwy atgyfeirio dro ar ôl tro. Caniateir apelio i'r tribiwnlys o dan Ran 8 yn erbyn casgliadau ymholiad.
53. Mae adran 48 yn nodi effaith atgyfeiriad o dan adran 46 ar ymholiad. Mae'n darparu na chaniateir gwneud hysbysiad cau neu gais am gyfarwyddyd i ddyroddi hysbysiad

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

cau wrth i achos o dan adran 46 fynd rhagddo, ac mae'n diffinio ystyr "mynd rhagddo" yn y cyd-destun hwn.

54. Mae adran 49 yn darparu bod dyfarniad y tribiwnlys ynghylch cwestiwn o dan adran 46 yn rhwymo'r partïon, ac na ellir ailedrych arno os apelir yn erbyn canlyniad yr ymholiad (oni fo'n fater y byddai'r tribiwnlys yn caniatáu ailedrych arno pe bai wedi gwneud penderfyniad rhagarweiniol yn ei gylch mewn apêl arferol). Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ACC roi ystyriaeth i'r dyfarniad wrth wneud unrhyw ddiwygiadau i'r ffurflen dreth ac yn cyfyngu ar ailedrych ar gwestiwn y dyfarnodd y tribiwnlys arno drwy apêl.

Adrannau 50-51 – Cwblhau ymholiad

55. Mae adran 50 yn darparu ar gyfer cwblhau ymholiad. Mae'n ofynnol i ACC ddyroddi hysbysiad cau i'r person a ddychwelodd y ffurflen dreth unwaith y bydd ymholiad wedi ei gwblhau. Rhaid i hysbysiad cau ddatgan a yw'n ofynnol diwygio'r ffurflen ai peidio, a rhaid iddo wneud unrhyw ddiwygiadau sy'n ofynnol. Rhaid i dreth sydd i'w chodi gael ei thalu o fewn 30 o ddiwrnodau i'r dyddiad y dyroddir yr hysbysiad.
56. Mae adran 51 yn darparu y caiff y person a ddychwelodd y ffurflen dreth wneud cais i'r tribiwnlys am gyfarwyddyd y dylai ACC ddyroddi hysbysiad cau. Rhaid i'r tribiwnlys roi cyfarwyddyd oni bai ei fod yn fodlon bod gan ACC seiliau rhesymol dros beidio â gwneud hynny. Bydd rheolau'r tribiwnlys yn nodi'r weithdrefn ar gyfer cais am gyfarwyddyd o'r fath, gan gynnwys darpariaeth ynghylch hysbysu'r partïon am benderfyniad y tribiwnlys.

Adrannau 52-53 – Dyfarniadau treth ACC

57. Mae adran 52 yn darparu y caiff ACC ddyfarnu ar swm y dreth ddatganoledig sydd i'w chodi pan fo'n credu bod treth ddatganoledig i'w chodi ar berson ac nad yw'r person hwnnw wedi ffeilio ffurflen dreth erbyn y dyddiad gofynnol. Rhaid rhoi hysbysiad am y dyfarniad i'r person y credir ei fod yn agored i dalu'r dreth ddatganoledig. Rhaid i'r person wneud y taliad o fewn 30 o ddiwrnodau i'r dyddiad y dyroddwyd yr hysbysiad. Ni chaniateir gwneud dyfarniad fwy na 4 blynedd ar ôl y dyddiad y dylai ffurflen dreth fod wedi ei ffeilio gydag ACC.
58. Mae adran 53 yn darparu, pan fo person yn dychwelyd ffurflen dreth hunanasesiad ar ôl i ACC wneud dyfarniad, y bydd y ffurflen yn disodli dyfarniad ACC. Nid yw'r ddarpariaeth yn gymwys pan fo person yn dychwelyd ffurflen dreth dros 4 blynedd ar ôl i'r pŵer i wneud y dyfarniad ddod yn arferadwy gyntaf gan ACC, neu dros 12 mis ar ôl y dyddiad y dyroddwyd y dyfarniad, pa un bynnag sydd hwyrach. Mewn amgylchiadau pan fo achos wedi cychwyn i adennill treth yn dilyn dyfarniad gan ACC, a bod ACC yn derbyn hunanasesiad sy'n disodli ei ddyfarniad tra bo'r achos hwnnw'n mynd rhagddo, caniateir i'r achos barhau fel pe bai'n achos i adennill cymaint o'r dreth hunanasesiedig ag sy'n ddyledus ac nad yw wedi ei thalu eto. Gwneir hynny er mwyn sicrhau nad oes angen i ACC roi'r gorau i'r achos hwnnw ac ailddechrau, dim ond am fod hunanasesiad hwyr wedi ei ffeilio.

Adrannau 54-57 – Aseidiadau ACC

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

59. Mae adran 54 yn caniatáu i ACC asesu'r dreth ddatganoledig sydd i'w chodi pan fo o'r farn bod angen gwneud iawn am dreth a gollwyd os nad aseswyd swm y dylid bod wedi ei asesu, os yw swm a aseswyd yn llai nag y dylai fod, neu os yw ymwared a roddwyd yn ormodol neu wedi dod yn ormodol.
60. Mae adran 55 yn darparu y caiff ACC wneud asesiad er mwyn adennill ad-daliad treth gormodol, gan gynnwys unrhyw log y gellid bod wedi ei dalu.
61. Mae adrannau 56 a 57 yn darparu bod cyfeiriadau at "asesiad ACC" yn golygu asesiadau a wneir o dan adrannau 54 neu 55 a bod cyfeiriadau at y trethdalwr o dan adrannau 58 i 61 yn golygu'r person y mae'r dreth ddatganoledig i'w chodi arno, ac mewn perthynas ag asesiad i adennill ad-daliad treth gormodol, y person y gwnaed yr ad-daliad treth gormodol iddo.

Adrannau 57-61 – Amodau ar gyfer gwneud asesiadau ACC

62. Mae adran 58 yn cyfyngu ar yr amgylchiadau pan ganiateir i ACC wneud asesiad i ddau achos. Yr achos cyntaf yw sefyllfa sy'n codi o ganlyniad i ymddygiad diofal neu fwriadol y trethdalwr, person sy'n gweithredu ar ran y trethdalwr neu berson a oedd yn bartner mewn partneriaeth â'r trethdalwr ar yr adeg berthnasol. Yr ail achos yw amgylchiadau pan nad oes gan ACC hawl i gynnal ymholiad i ffurflen dreth (fel arfer am fod y terfyn amser ar gyfer gwneud hynny wedi dod i ben) neu bod ACC wedi cynnal ymholiad, ac ar yr adeg y daeth yr ymholiad i ben (neu y daeth hawl ACC i gynnal ymholiad i ben) nad oedd yn rhesymol disgwyl i ACC fod yn ymwybodol o'r wybodaeth y mae'n ystyried yn awr y gallai arwain at golli treth neu ad-daliad treth gormodol (mewn geiriau eraill daeth gwybodaeth newydd i'r amlwg ar ôl iddi fod yn bosibl agor ymholiad). Mae is-adran (4) yn gwahardd ACC rhag gwneud asesiad o dan y darpariaethau hyn os gellir priodoli'r sefyllfa i gamgymeriad wrth gyfrifo'r rhwymedigaeth i dreth a oedd yn gyson â'r arfer a oedd yn bodoli'n gyffredinol ar yr adeg y dychwelwyd y ffurflen.
63. Mae adran 59 yn darparu'r terfynau amser ar gyfer asesiadau ACC. Y terfyn amser cyffredinol yw 4 blynedd ar ôl y dyddiad perthnasol. Caiff y terfyn amser hwn ei ymestyn i 6 mlynedd os gellir priodoli colli'r dreth i ddiofalwch ar ran y trethdalwr neu berson cysylltiedig, neu 20 mlynedd pan fo colli'r dreth wedi ei beri'r fwriadol gan y trethdalwr neu gan berson cysylltiedig. Nid yw asesiad ACC i adennill ad-daliad treth gormodol yn hwyr os caiff ei wneud o fewn 12 mis i'r ad-daliad hwnnw (hyd yn oed mewn achosion pan fyddai, fel arall, oddi allan i'r terfyn amser o 4, 6 neu 20 mlynedd). Os yw trethdalwr wedi marw, rhaid i ACC gynnal asesiad o gynrychiolwyr personol trethdalwr o fewn 4 blynedd i'r farwolaeth, a dim ond os nad oedd y dyddiad perthnasol yn gynharach na 6 mlynedd cyn y farwolaeth. Mae'r adran hefyd yn egluro bod rhaid i unrhyw wrthwynebiad i asesiad gan ACC ar sail y terfynau amser gael ei wneud ar ffurf adolygiad neu apêl o dan Ran 8.
64. Mae adran 60 yn diffinio sut y caiff treth ei cholli neu sefyllfa ei pheri'n ddiofal neu'n fwriadol gan berson neu ar ei ran.
65. Mae adran 61 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC ddyroddi hysbysiad am asesiad i'r trethdalwr. Mae'n ofynnol i'r trethdalwr dalu'r swm sy'n daladwy o fewn 30 o ddiwrnodau i'r dyddiad y dyroddir yr hysbysiad.

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

Adrannau 62-66 – Ymwared yn achos asesiad gormodol neu dreth a ordalwyd

66. Mae adran 62 yn darparu y caiff trethdalwr wneud hawliad i ACC am ymwared os yw'n credu ei fod wedi ei asesu fwy nag unwaith ar gyfer yr un mater.
67. Mae adran 63 yn darparu y caiff trethdalwr wneud hawliad i ACC am ad-daliad os yw wedi talu treth y mae'n credu nad oedd i'w chodi arno. Mae hefyd yn darparu, os asesir neu ddyfernir bod swm o dreth i'w godi ar berson, a'i fod yn credu na ddylid codi'r dreth arno, y caiff wneud hawliad i gael ei ryddhau o fod yn agored i'r dreth (hynny yw, ni fydd rhaid iddo dalu).
68. Mae adran 64 yn darparu y caiff ACC wrthod hawliad am ymwared ar y sail y byddai ei dalu yn cyfoethogi'r person sy'n gwneud yr hawliad mewn modd anghyfiawn. Gallai hyn ddigwydd mewn amgylchiadau pan nad y person a oedd yn ysgwyddo cost y dreth yn y pen draw oedd y person a dalodd y dreth ddatganoledig. Er enghraifft, yn achos treth dirlenwi gweithredwr y safle tirlenwi sy'n talu'r dreth, ond yn y pen draw, y rheini y codir tâl arnynt am waredu'r gwastraff sy'n ysgwyddo'r gost.
69. Mae adran 65 yn darparu ar gyfer amgylchiadau pan fo treth ddatganoledig i'w had-dalu neu ei rhyddhau pan wnaed y taliad yn wreiddiol gan berson heblaw'r trethdalwr, neu pan oedd y person arall hwnnw'n ysgwyddo cost y taliad treth yn y pen draw (ee fel cwsmer i'r trethdalwr y trosglwyddwyd cost y rhwymedigaeth i dreth iddo fel rhan o gost nwyddau neu wasanaethau y talodd i'r trethdalwr amdanynt). Dylai colled neu niwed sy'n gysylltiedig â rhagdybiaethau anghywir ynghylch treth a wnaed gan drethdalwr gael eu heithrio o ystyriaeth ynghylch a fyddai trethdalwr yn cael ei gyfoethogi mewn modd anghyfiawn, ac eithrio i'r graddau y mae'r trethdalwr yn gallu dangos bod swm y gellir ei faintioli o golled neu niwed wedi dod i ran y trethdalwr mewn gwirionedd, o ganlyniad i'r rhagdybiaethau anghywir hynny, y gellid digolledu amdanynt.
70. Mae adran 66 yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau i ymdrin â sefyllfaoedd pan allai trethdalwr fod yn hawlio ymwared a fyddai fel rheol yn cael ei wrthod ar sail cyfoethogi anghyfiawn, gan mai personau eraill a oedd yn ysgwyddo cost treth a ordalwyd yn y pen draw, ond bod y trethdalwr yn trefnu i dalu'n ôl i'r personau hynny os yw'r hawliad am dreth a ordalwyd yn llwyddiannus. Bydd y rheoliadau yn sicrhau bod y trefniadau talu'n ôl yn eu lle a'u bod yn briodol er mwyn atal y trethdalwr rhag cael ei gyfoethogi'n anghyfiawn.

Adran 67 – Achosion pan na fo angen i ACC roi effaith i hawliad

71. Mae'r adran hon yn rhoi rhestr o sefyllfaoedd (ac eithrio cyfoethogi anghyfiawn) lle nad oes angen i ACC wneud ad-daliad neu ryddhau o asesiad neu ddyfarniad.

Adrannau 68-73 – Gweithdrefn ar gyfer gwneud hawliadau, cadw cofnodion a'u storio'n ddiogel a diwygio a chywiro hawliadau

72. Mae adran 68 yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n dymuno gwneud hawliad am ymwared o dan amgylchiadau asesiad dwbl, neu ar gyfer treth a ordalwyd, wneud

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

hynny yn y modd a bennir gan ACC. Rhaid i hawliad ddarparu datganiad gan yr hawlydd fod y manylion a ddarparwyd wedi eu datgan yn gywir. Caiff ACC hefyd ei gwneud yn ofynnol i roi manylion swm y dreth ddatganoledig sydd i'w ryddhau neu ei ad-dalu a gwybodaeth ategol er mwyn penderfynu ar gywirdeb yr hawliad.

73. Mae adran 69 yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n gwneud hawliad gadw'r holl gofnodion sy'n angenrheidiol ac yn berthnasol i ategu'r cais, a storio'r cofnodion yn ddiogel am y cyfnodau a bennir. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu pa gofnodion a dogfennau ategol y mae angen eu cadw a'u storio'n ddiogel. Mae is-adran (5) yn diffinio dogfennau ategol. Mae adran 70 yn nodi sut y gellir bodloni'r ddyletswydd a osodir ar drethdalwr i storio cofnodion yn ddiogel. Mae adran 71 yn darparu y caiff person sy'n gwneud hawliad ei ddiwygio, ar yr amod y gwneir hynny drwy hysbysiad ac o fewn y cyfnod a nodir.
74. Mae adran 72 yn caniatáu i ACC ddiwygio hawliad er mwyn cywiro unrhyw wallau neu hepgoriadau amlwg. Rhaid i ACC hysbysu'r hawlydd yn ysgrifenedig os yw'n gwneud diwygiad er mwyn cywiro gwall mewn hawliad, a gall yr hawlydd wrthod cywiriad ACC os yw'n rhoi hysbysiad i ACC. Nodir manylion y terfynau amser yn y darpariaethau. Mae adran 73 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC roi effaith i hawliad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo gael ei wneud.

Adrannau 74-77 Ymholiad ACC i hawliad

75. Mae adran 74 yn darparu y caiff ACC wneud ymholiad i hawliad neu ddiwygiad o hawliad, ar yr amod ei fod yn gwneud hynny o fewn 12 mis ar ôl i'r hawliad gael ei wneud a'i fod yn hysbysu'r hawlydd o'i fwriad i wneud hynny. Dim ond un hysbysiad ymholiad a ganiateir ar gyfer pob hawliad.
76. O dan adran 75 mae ACC yn dyroddi hysbysiad cau er mwyn cwblhau ymholiad, sy'n dweud wrth yr hawlydd beth yw casgliadau'r ymholiad ac yn diwygio'r hawliad os oes angen. O dan adran 76 gall hawlydd ofyn i'r tribiwnlys gyfarwyddo ACC i roi hysbysiad cau o fewn cyfnod penodedig. Yn y sefyllfa hon, rhaid i'r tribiwnlys gyfarwyddo ACC i ddyroddi'r hysbysiad cau o fewn cyfnod penodedig oni bai bod ACC yn ei fodloni bod seiliau rhesymol dros beidio â gwneud hynny. Mae adran 77 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC weithredu ar gasgliadau'r hysbysiad cau o fewn 30 o ddiwrnodau.

Adran 78 - Amseriad a dull gwneud hawliadau am ordaliad neu asesiad dwbl

77. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i hawliadau am ymwared rhag asesiad dwbl neu ordaliad treth a wneir o dan adran 62 neu 63 gael eu gwneud o fewn 4 blynedd i'r dyddiad yr oedd yn ofynnol dychwelyd y ffurflen dreth, a bod rhaid iddynt gael eu gwneud ar wahân i unrhyw ffurflen dreth a ddychwelir i ACC (os nad yw ffurflen wedi ei dychwelyd hyd yma gellir gwneud unrhyw beth y gellid ei gynnwys mewn hawliad o fewn ffurflen dreth beth bynnag).

Adran 79 - Yr hawlydd: partneriaethau

78. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo gordaliad wedi ei wneud ar ran partneriaeth, mai dim ond rhywun sydd wedi ei enwebu i weithredu ar ran yr holl bartneriaid a fyddai

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

wedi bod yn agored i'r dreth, pe byddai wedi bod yn gywir, all wneud hawliad am ymwared rhag gordaliad.

Adran 80 – Asesiad o hawlydd mewn cysylltiad â hawliad

79. Mae'r adran hon yn darparu, pan wneir hawliad am ymwared rhag treth a ordalwyd, a bod y seiliau ar gyfer yr hawliad hwnnw hefyd yn seiliau i ACC asesu'r hawlydd mewn perthynas â'r dreth, y gall ACC ddiystyru cyfyngiadau penodol ar ei allu i wneud asesiad. Mae'r rhain yn cynnwys diystyru'r ffaith bod terfyn amser wedi dod i ben. Mae hefyd yn darparu nad yw hawliad am ymwared rhag gordaliad wedi ei benderfynu'n derfynol hyd nes y bydd y swm y mae'n ymwneud ag ef yn derfynol (ee yn dilyn canlyniad adolygiad neu apêl).

Adran 81 – Setliadau contract

80. Mae'r adran hon yn diffinio personau sy'n ymwneud â setliad contract os nad y trethdalwr yw'r person a dalodd y setliad contract.

Rhan 4 – Pwerau Ymchwilio ACC

Adran 82 - Trosolwg

81. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o Ran 4 o'r Bil.

Adrannau 83-85 – Dehongli

82. Mae adran 83 yn nodi pum math gwahanol o hysbysiad y gall ACC eu defnyddio i'w gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth neu ddogfen. Gyda'i gilydd, fe'u disgrifir yn y Bil fel "hysbysiadau gwybodaeth". Mae is-adran (2) yn darparu rheol gyffredinol y caiff ACC bennu neu ddisgrifio'r wybodaeth neu'r dogfennau y mae'n eu ceisio. Mewn geiriau eraill, gallai hysbysiad gwybodaeth wneud dogfen benodol (ee dogfen contract benodol) yn ofynnol, neu gallai ACC wneud dogfennau o fath arbennig yn ofynnol, neu ddogfennau sy'n cynnwys math arbennig o wybodaeth (ee unrhyw ddogfen sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â thrafodiad penodol).
83. Dim ond os yw'r wybodaeth neu'r ddogfen y gofynnir amdani yn ofynnol at ddiben gwirio "sefyllfa dreth" person y caiff ACC arfer ei bwerau o dan adrannau 86, 87, 89 neu 92. Mae adran 84 yn nodi'r diffiniad o "sefyllfa dreth", fel y cyfeirir ati drwy'r Rhan hon o'r Bil. Gall sefyllfa dreth gynnwys rhwymedigaeth person yn y gorffennol, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i dalu unrhyw dreth ddatganoledig neu gosbau cysylltiedig, llog ac unrhyw symiau eraill yn ymwneud â threth ddatganoledig a dalwyd neu sy'n daladwy gan y person neu i'r person. Mae hefyd yn cynnwys hawliadau a hysbysiadau mewn cysylltiad â'r rhwymedigaeth i dalu unrhyw dreth ddatganoledig. Mae'n dilyn felly y gellir defnyddio un o'r hysbysiadau hyn mewn cysylltiad ag ymholiad sy'n mynd rhagddo i ffurflen dreth neu hawliad neu i helpu ACC i wneud dyfarniad (gweler Pennod 5 o Ran 6) neu asesiad ACC (gweler Pennod 6 o'r Rhan honno). Mae'n debyg y bydd gwirio rhwymedigaeth bosibl person yn y dyfodol yn ddigwyddiad anghyffredin ond gall fod yn berthnasol, er enghraifft, mewn perthynas â rhai mathau o drafodiad tir sy'n digwydd dros gyfnod maith, ac y gellid gwneud ffurflen dreth ar eu cyfer cyn bod yr holl rwymedigaeth i dreth yn

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

codi.

84. Mae adran 85 yn rhoi'r diffiniad o "redeg busnes", sy'n cynnwys busnes y mae ei weithgarwch yn creu incwm o dir; dilyn proffesiwn; elusen; a gweithgareddau awdurdod lleol neu unrhyw awdurdod cyhoeddus arall. Mae hyn yn berthnasol pan fo ACC yn arfer ei bwerau o dan adran 92 (pŵer i gael gwybodaeth er mwyn gallu cadarnhau pwy yw person), ac adran 93 (pŵer i gael manylion cyswllt dyledwyr). Dim ond os yw'r sawl sy'n derbyn yr hysbysiad wedi cael yr wybodaeth wrth "redeg busnes" y gellir arfer y pwerau hyn.

Adran 86 – Hysbysiadau trethdalwr

85. Mae'r adran hon yn galluogi ACC i roi hysbysiad i berson yn ei gwneud yn ofynnol iddo gyflwyno gwybodaeth neu ddogfennau, ar yr amod bod gofynion is-adran (1) wedi eu bodloni a bod y tribiwnlys wedi cymeradwyo'r hysbysiad (gweler adran 88).
86. Mae'r gofynion yn is-adran (1) yn darparu y caiff ACC ddyroddi hysbysiad (i) os oes angen yr wybodaeth neu'r ddogfen at ddiben gwirio sefyllfa dreth y person; (ii) os yw'n rhesymol ei gwneud yn ofynnol i'r person ddarparu'r wybodaeth neu'r ddogfen y gofynnir amdani; a (iii) os nad yw'r hysbysiad yn gwneud gwybodaeth neu ddogfen yn ofynnol sy'n ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau a nodir ym Mhennod 3 o'r Rhan hon o'r Bil.

Adran 87 – Hysbysiadau trydydd parti

87. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i ACC ddyroddi hysbysiad i berson (y "trydydd parti") yn ei gwneud yn ofynnol iddo ddarparu gwybodaeth neu ddogfennau pan fo ACC yn gwybod pwy yw person arall (y "trethdalwr") ac eisiau gwirio sefyllfa dreth y trethdalwr hwnnw. Dim ond os yw'r trethdalwr wedi cytuno, neu os yw'r tribiwnlys wedi cymeradwyo'r hysbysiad (gweler adran 88) y caiff ACC ddyroddi hysbysiad o dan yr adran hon, yn ddarostyngedig i fodloni gofynion penodol (yn is-adran (1)).
88. Caiff ACC hefyd ofyn i'r tribiwnlys gymeradwyo hysbysiad o dan yr adran hon nad yw'n enwi'r trethdalwr, os yw'r tribiwnlys yn derbyn y gallai enwi'r trethdalwr yn yr hysbysiad trydydd parti gael effaith negyddol ar asesu neu gasglu trethi. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i ACC roi copi o'r hysbysiad trydydd parti i'r trethdalwr oni bai bod y tribiwnlys yn penderfynu bod gan ACC sail resymol dros gredu y gallai gwneud hynny effeithio'n negyddol ar asesu neu gasglu trethi.

Adran 88 – Cymeradwyaeth y tribiwnlys i hysbysiadau trethdalwr a hysbysiadau trydydd parti

89. Mae adran 88 yn darparu'r profion y mae'n rhaid i'r tribiwnlys eu cymhwyso pan fydd ACC yn gofyn iddo gymeradwyo dyroddi (i) hysbysiad trethdalwr (adran 86); neu (ii) hysbysiad trydydd parti (adran 87).
90. Bydd y prawf y mae'n rhaid i'r tribiwnlys ei gymhwyso wrth benderfynu a ddylai gymeradwyo hysbysiad trethdalwr neu hysbysiad trydydd parti yn dibynnu ar ba un a ddywedwyd wrth y derbynnydd ai peidio y bydd ACC yn gwneud cais am

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

gymeradwyaeth.

91. Os na ddywedwyd wrth y derbynnydd y bydd ACC yn gwneud cais am gymeradwyaeth y tribiwnlys, mae is-adran (2) yn gymwys. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r tribiwnlys fod yn fodlon (i) bod y gofynion ar gyfer dyroddi'r hysbysiad wedi eu bodloni; a (ii) y gallai rhoi hysbysiad am y cais gael effaith negyddol ar asesu neu gasglu trethi.
92. Os dywedwyd wrth y derbynnydd y bydd ACC yn gwneud cais am gymeradwyaeth y tribiwnlys mae is-adran (3) yn gymwys. Yn ogystal â bod yn fodlon bod y gofynion ar gyfer dyroddi'r hysbysiad perthnasol wedi eu bodloni, mae'r prawf hefyd yn golygu bod rhaid i'r tribiwnlys fod yn fodlon y dywedwyd wrth y sawl fydd yn derbyn yr hysbysiad am yr wybodaeth neu'r dogfennau sydd eu hangen ar ACC, a'i fod wedi cael cyfle i wneud sylwadau i ACC am y cais hwnnw. Os gwneir sylwadau, rhaid i ACC roi manylion y sylwadau hynny i'r tribiwnlys. Yn achos hysbysiad trydydd parti, rhaid i'r tribiwnlys fod yn fodlon bod ACC wedi dweud wrth y trethdalwr sy'n destun yr hysbysiad pam fod yr wybodaeth neu'r dogfennau yn ofynnol.
93. Os dywedwyd wrth dderbynnydd y bydd ACC yn gwneud yr wybodaeth neu'r dogfennau yn ofynnol mewn hysbysiad ffurfiol daw'n drosedd o dan adran 115 i gelu, i ddifa neu fel arall i gael gwared â'r wybodaeth neu'r dogfennau.
94. Mae is-adran (4) yn galluogi ACC i ddatgymhwyso rhai o'r gofynion uchod pe gallai rhoi hysbysiad am y cais i'r trethdalwr neu'r trydydd parti gael effaith negyddol ar asesu neu gasglu trethi. Caiff y tribiwnlys wneud unrhyw addasiadau i'r hysbysiad sy'n briodol yn ei farn (er enghraifft, gallai'r tribiwnlys feddwl ei bod yn rhesymol i ACC wneud rhai o'r dogfennau yn ofynnol, ond nid eraill, a gallai gyfyngu ar gwmpas yr hysbysiad gwybodaeth yn unol â hynny).

Adran 89 – Pŵer i wneud gwybodaeth a dogfennau yn ofynnol am bersonau na wyddys pwy ydynt

95. Pan fo ACC eisiau gwirio sefyllfa dreth person neu ddosbarth o bersonau na wyr pwy ydyw, mae'r adran hon yn darparu y caiff ACC roi hysbysiad i berson ("hysbysiad trydydd parti anhysbys") yn ei gwneud yn ofynnol iddo ddarparu gwybodaeth neu gyflwyno dogfennau. Gallai hyn ddigwydd pan fo digon o wybodaeth gan ACC i fod â sail dros gredu bod person yn agored i dreth (er enghraifft, mae ACC yn gwybod bod trafodiad tir wedi digwydd) ond nad yw'n gwybod eto pwy yw'r person o dan sylw.
96. Rhaid i hysbysiadau a ddyroddir o dan yr adran hon fod wedi eu cymeradwyo gan y tribiwnlys ymlaen llaw. Dim ond os yw'r amodau yn is-adrannau (1)(a) i (c) wedi eu bodloni (sydd yr un fath â'r gofynion sylfaenol sydd i'w bodloni ar gyfer hysbysiadau trethdalwr a hysbysiadau trydydd parti) y gall wneud hyn, ac os yw'n fodlon nad yw ACC yn gallu cael yr wybodaeth neu'r dogfennau o ffynhonnell arall. Rhaid i'r tribiwnlys hefyd fod yn fodlon bod sail resymol dros gredu bod y person neu'r personau sy'n destun yr hysbysiad wedi methu (neu y gallant fethu) â chydymffurfio â'r gyfraith sy'n ymwneud â threth ddatganoledig a bod hyn wedi arwain (neu y bydd yn arwain) at niweidio'r gwaith o asesu neu gasglu trethi

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

datganoledig yn ddifrifol (yn yr enghraifft uchod, gallai ACC fod â sail dros gredu na fydd y person sy'n ymwneud â'r trafodiad tir yn cyflwyno'i hun ac yn dychwelyd ffurflen dreth). Fel yn achos adran 88, caiff y tribiwnlys wneud unrhyw addasiadau i'r hysbysiad sy'n briodol yn ei farn.

Adrannau 90-91 – Gwneud gwybodaeth a dogfennau yn ofynnol mewn perthynas â grŵp o ymgymeriadau neu am bartneriaeth

97. Mae adran 90 yn darparu trefniadau ar gyfer dyroddi hysbysiadau trydydd parti pan fo ACC eisiau gwirio sefyllfa dreth naill ai riant-ymgymeriad neu unrhyw un neu ragor o'i is-ymgymeriadau (er enghraifft, naill ai riant-gwmni ("parent company") ac unrhyw un neu ragor o'i is-gwmnïau ("subsidiary companies"); mae ystyr manwl y termau hyn i'w weld yn adrannau 1161-1162 o Ddeddf Cwmnïau 2006 (p.46) ac Atodlen 7 iddi).
98. Pan fo ACC yn dyroddi hysbysiad i unrhyw berson at ddibenion gwirio sefyllfa dreth rhiant-ymgymeriad neu unrhyw un neu ragor o'r is-ymgymeriadau, mae is-adran (2) yn gymwys. Yn yr amgylchiadau hyn, caiff ACC ddyroddi hysbysiad os oes ganddo gytundeb y rhiant-ymgymeriad, neu gymeradwyaeth y tribiwnlys, hynny yw, caiff cytundeb y rhiant-ymgymeriad ei drin fel pe bai hefyd yn cynnwys unrhyw is-ymgymeriad.
99. Pan fo ACC yn dyroddi hysbysiad i'r rhiant-ymgymeriad at ddibenion gwirio sefyllfa dreth is-ymgymeriad, mae is-adran (3) yn gymwys. Yn yr amgylchiadau hyn, rhaid i ACC sicrhau cymeradwyaeth y tribiwnlys cyn dyroddi'r hysbysiad. I bob pwrpas caiff hysbysiad trydydd parti a ddyroddir i riant-ymgymeriad mewn perthynas ag is-ymgymeriad ei drin fel pe bai'n hysbysiad trethdalwr a roddir i'r rhiant-ymgymeriad sy'n rheoli'r is-ymgymeriad.
100. Nid yw'r newidiadau a wneir gan yr adran hon yn gymwys pan fo ACC yn dyroddi hysbysiad i un is-ymgymeriad at ddibenion gwirio sefyllfa dreth is-ymgymeriad arall. Yn yr achosion hyn, rhaid dyroddi'r hysbysiad yn unol â'r weithdrefn a nodir yn adran 87. Ond mewn achos pan fo ACC yn dyroddi hysbysiad i un is-ymgymeriad at ddibenion gwirio sefyllfa dreth y rhiant-ymgymeriad (ac unrhyw is-ymgymeriadau eraill) mae is-adran (2) yn berthnasol.
101. Mae adran 91 yn darparu'r trefniadau ar gyfer dyroddi hysbysiad trydydd parti i rywun heblaw un o'r partneriaid pan fo ACC yn dymuno gwirio sefyllfa dreth dau neu ragor o bersonau mewn partneriaeth fusnes. Dylai hysbysiad a ddyroddir o dan yr adran hon: datgan ei ddiben; ac mewn amgylchiadau arferol, gynnwys enw'r bartneriaeth y mae'r hysbysiad yn gymwys iddo a chael ei gopïo i o leiaf un o'r partneriaid. Pan geisir cymeradwyaeth y tribiwnlys i ddyroddi hysbysiad, caiff y tribiwnlys ddatgymhwyso'r gofyniad i enwi'r trethdalwr a dyroddi copi o'r hysbysiad os yw'n fodlon bod gan ACC sail dros gredu y gallai cydymffurfio â'r gofynion hyn niweidio'r gwaith o asesu neu gasglu trethi yn ddifrifol.

Adran 92 – Pŵer i gael gwybodaeth er mwyn gallu cadarnhau pwy yw person

102. O dan amgylchiadau penodol gall ACC ddyroddi hysbysiad (hysbysiad adnabod) i rywun yn ei gwneud yn ofynnol iddo ddarparu gwybodaeth am berson (naill ai un

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

person neu ddosbarth o bersonau) er mwyn darganfod pwy yw trethdalwr. Dim ond gyda chymeradwyaeth y tribiwnlys y gellir dyroddi'r hysbysiad. Gall ACC wneud cais am gymeradwyaeth heb roi rhybudd. Ni chaiff y tribiwnlys gymeradwyo dyroddi hysbysiad oni bai ei fod yn fodlon bod amodau 1 i 6 yn is-adrannau (4) i (9) wedi eu bodloni. O dan yr adran hon caiff ACC wneud cais am enw trethdalwr, ei gyfeiriad hysbys olaf, a/neu ei ddyddiad geni.

103. Er bod yr hysbysiadau hyn yn debyg i hysbysiadau trydydd parti anhysbys o dan adran 89, mae'r wybodaeth a all fod yn ofynnol yn fwy cyfyng o lawer ac nid oes raid i ACC brofi bod sail dros gredu y gallai'r person anhysbys fod wedi methu â chydymffurfio â'r gyfraith yn ymwneud â threth ddatganoledig. Yn ymarferol defnyddir y weithdrefn hon pan fydd ACC yn gwybod bod rhywbeth wedi digwydd sy'n golygu rhwymedigaeth i dreth (ee trafodiad tir) a'i fod yn awyddus i gysylltu â'r personau perthnasol, ond nad yw'n gwybod pwy ydynt. Gall geisio defnyddio'r pŵer hwn cyn y pwynt y bydd unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r gyfraith, fel y gall gysylltu â'r trethdalwr a rhoi cyfle iddo roi trefn ar ei faterion treth.

Adran 93 – Pŵer i gael manylion cyswllt dyledwyr

104. Caiff ACC ddyroddi hysbysiad (hysbysiad cyswllt dyledwr) yn ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu manylion cyswllt (cyfeiriad person ac unrhyw wybodaeth gyswllt arall) ar gyfer person arall os yw'n fodlon bod amodau 1 i 5 yn is-adrannau (2) i (6) wedi eu bodloni.
105. Câi'r pŵer hwn ei ddefnyddio pe bai ACC angen cysylltu â pherson y mae arian yn ddyledus ganddo i ACC, ond nad yw ACC wedi gallu cael gafael arno.
106. Nid yw'r weithdrefn hon i'w dilyn i geisio manylion cyswllt gan gyfeillion personol neu berthnasau dyledwr. Dim ond os yw person wedi cael y manylion cyswllt wrth redeg busnes (gweler uchod) y gellir ei dilyn. Ond ni ellir ei defnyddio ychwaith i ofyn am fanylion cyswllt dyledwyr gan elusennau neu berson sy'n darparu gwasanaethau i elusennau, sy'n ddi-dâl i'r sawl sy'n derbyn y gwasanaeth.

Adran 94 – Terfyn amser ar gyfer dyroddi hysbysiad gwybodaeth a gymeradwywyd gan dribiwnlys

107. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i ACC ddyroddi hysbysiad gwybodaeth a gymeradwywyd gan y tribiwnlys o fewn 3 mis i'r gymeradwyaeth honno, neu o fewn cyfnod byrrach os pennir un gan y tribiwnlys.

Adrannau 95-96 – Cydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth a chyflwyno copïau o ddogfennau

108. Mae adran 95 yn nodi bod rhaid i berson y dyroddir hysbysiad gwybodaeth iddo gydymffurfio â'r hysbysiad a darparu'r wybodaeth ofynnol neu'r dogfennau gofynnol o fewn cyfnod, mewn lleoliad (na all fod yn rhywle a ddefnyddir fel annedd yn unig) ac yn y modd a bennir yn yr hysbysiad gwybodaeth. Fel corff cyhoeddus, rhaid i ACC ymddwyn yn rhesymol wrth bennu'r amser, y lleoliad a'r dull cyflwyno. Caiff y ddyletswydd i gydymffurfio â'r hysbysiad gwybodaeth ei hatal os yw'r derbynnydd wedi gofyn am adolygiad o'r hysbysiad neu wedi apelio yn ei erbyn.

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

Gall person fod yn agored i gosb o dan Bennod 5 o Ran 5 o'r Bil os yw'r person hwnnw'n methu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth.

109. Pan fo hysbysiad gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r person gyflwyno dogfen, mae adran 96 yn darparu y gall y person gydymffurfio drwy gyflwyno copi o'r ddogfen wreiddiol (oni bai bod yr hysbysiad yn gofyn yn benodol am y ddogfen wreiddiol, neu os yw ACC yn gofyn am y ddogfen wreiddiol o fewn 6 mis i gyflwyno'r copi).

Adrannau 97-99 - Hysbysiadau gwybodaeth: cyfyngiadau cyffredinol ac amddiffyniad ar gyfer deunydd newyddiadurol a chofnodion personol

110. Mae adran 97 yn darparu rhai cyfyngiadau cyffredinol ar hysbysiadau gwybodaeth, gan gynnwys mai dim ond os yw'r ddogfen yn ei feddiant neu os yw hynny o fewn ei bŵer y mae'n ofynnol i berson gyflwyno dogfen. At hynny, ni chaiff hysbysiad gwybodaeth ei gwneud yn ofynnol i berson gyflwyno dogfen os yw'r ddogfen gyfan wedi ei chreu dros 6 mlynedd cyn dyddiad yr hysbysiad, oni bai bod yr hysbysiad yn cael ei ddyroddi gyda chymeradwyaeth y tribiwnlys. Ni chaniateir rhoi hysbysiad gwybodaeth a ddyroddir i wirio sefyllfa dreth rhywun sydd wedi marw dros 4 blynedd ar ôl y farwolaeth.
111. Mae is-adran (4) yn darparu na chaiff hysbysiad gwybodaeth ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth na dogfen (lawn neu rannol) os yw'n ymwneud ag adolygiad sy'n mynd rhagddo neu apêl sy'n mynd rhagddi mewn perthynas ag unrhyw dreth (boed y dreth yn "dreth ddatganoledig" ai peidio). Er enghraifft, os yw CThEM yn cynnal ymholiad i ffurflen hunanasesiad treth incwm person, ni all ACC wneud gwybodaeth yn ofynnol mewn perthynas â sefyllfa'r un person o ran treth ddatganoledig os yw'r wybodaeth hefyd yn ymwneud ag ymholiad CThEM.
112. Mae adran 98 yn darparu na all ACC ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu deunydd sydd wedi ei greu, ei gaffael neu sydd fel arall ym meddiant rhywun at ddibenion newyddiaduraeth ac mae adran 99 yn darparu amddiffyniad ar gyfer cofnodion personol, megis cofnodion meddygol. Ond mae is-adran (2) yn ei gwneud yn glir y gall ACC wneud gwybodaeth neu ddogfen yn ofynnol o hyd os oes modd darparu'r wybodaeth neu'r ddogfen drwy hepgor y cofnod personol (ee drwy ddileu neu guddio'r rhannau hynny o'r ddogfen).

Adran 100 - Hysbysiadau trethdalwr ar ôl dychwelyd ffurflen dreth

113. Mae'r adran hon yn nodi cyfyngiadau ar ba bryd y gellir rhoi hysbysiadau trethdalwr. Ni ellir rhoi hysbysiad trethdalwr mewn perthynas â thrafodiad neu gyfnod cyfrifo (i wirio eu sefyllfa dreth) pan fo person wedi dychwelyd ffurflen dreth mewn perthynas â'r trafodiad neu'r cyfnod cyfrifo hwnnw. Os yw ACC am wirio'r sefyllfa dreth mewn perthynas â'r ffurflen dreth dylai gychwyn ymholiad i'r ffurflen (gweler Pennod 4 o Ran 3).
114. Gellid rhoi hysbysiad trethdalwr, fodd bynnag, pan roddwyd hysbysiad ymholiad ac nad yw'r ymholiad wedi ei gwblhau (mewn geiriau eraill mae'r hysbysiad yn rhan o gynnal yr ymholiad) neu pan fo ACC yn amau bod problem o ran y rhwymedigaeth i dreth a aseswyd (gan gynnwys unrhyw ymwaredu) ar gyfer y trafodiad neu'r

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

cyfnod treth (mewn geiriau eraill mae'r hysbysiad yn rhan o waith ACC wrth wneud dyfarniad ACC neu asesiad ACC).

115. Mae is-adran (6) yn golygu bod y cyfyngiadau hyn yn gymwys i'r holl bartneriaid mewn partneriaeth pan fo o leiaf un ohonynt wedi dychwelyd ffurflen dreth (ond dim ond mewn cysylltiad â'u rôl fel partneriaid).

Adrannau 101-102 - Amddiffyniad ar gyfer gohebiaeth freintiedig rhwng cynghorwyr cyfreithiol a chleientiaid ac ar gyfer cynghorwyr treth ac archwilydd

116. Mae adran 101 yn darparu nad yw hysbysiadau gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu na chyflwyno gwybodaeth na dogfennau sy'n gyfreithiol freintiedig. Mae hyn yn cyfeirio at wybodaeth neu ddogfennau sy'n manteisio ar y cyfrinachedd sy'n bodoli rhwng cynghorwr cyfreithiol proffesiynol a chleient. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud darpariaeth drwy reoliadau i'r tribiwnlys ddatrys anghydfodau o ran pa un a yw gwybodaeth neu ddogfennau yn freintiedig ai peidio. Mae rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.
117. Mae adran 102(1) yn darparu nad yw hysbysiad gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorwr treth ddarparu gwybodaeth na dogfennau am gyngor ar dreth a roddwyd i gleient.
118. Mae is-adran (2) yn diffinio "gohebiaeth berthnasol" a "cynghorwr treth" at ddibenion yr adran hon. Mae person yn "cynghorwr treth" os yw'r person hwnnw yn rhoi cyngor i berson arall am ei "faterion treth" (pa un a yw'r dreth honno yn "dreth ddatganoledig" ai peidio).
119. Mae is-adran (3) yn darparu nad yw hysbysiad gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i berson a benodwyd yn archwilydd o dan unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth ddarparu gwybodaeth benodol na dogfennau penodol sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth honno.
120. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau hyn yn ddarostyngedig i is-adrannau (4) i (7), sy'n cyfyngu ar gwmpas yr amddiffyniad mewn rhai amgylchiadau. Mae is-adran (4) yn darparu y gall ACC ei gwneud yn ofynnol i gyfrifydd treth ddarparu deunydd esboniadol a ddarparwyd i gleient mewn cysylltiad â gwybodaeth neu ddogfennau a ddarparwyd i ACC. Mae is-adran (5) yn darparu nad yw'r amddiffyniad yn gymwys i geisiadau a wneir o dan adran 89 am wybodaeth sy'n dangos pwy yw person anhysbys, neu ei gyfeiriad.

Adran 103 - Pŵer i archwilio mangre busnes

121. Mae adran 103 yn darparu y gall ACC fynd i fangre busnes a'i harchwilio (gan gynnwys archwilio asedau busnes a dogfennau sydd yn y fangre) er mwyn gwirio sefyllfa dreth person. Dim ond os cafwyd cytundeb meddiannydd y fangre neu gymeradwyaeth y tribiwnlys y gellir cynnal archwiliad o'r fath.
122. Mae is-adran (3) yn darparu ar gyfer amser cynnal archwiliad, sy'n caniatáu i ACC gynnal archwiliad unrhyw bryd a gytunwyd rhyngddo a'r meddiannydd neu ar adeg resymol os cymeradwywyd yr archwiliad gan y tribiwnlys. Os nad yw ACC wedi

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

cael cytundeb y meddiannydd, rhaid iddo roi hysbysiad i'r meddiannydd am yr archwiliad 7 niwrnod cyn y bydd yn digwydd, oni bai bod y tribiwnlys yn fodlon y byddai rhoi hysbysiad o'r fath yn niweidio'r gwaith o gasglu neu asesu trethi yn ddifrifol.

123. Os yw'r tribiwnlys wedi cymeradwyo archwiliad, rhaid i'r hysbysiad a ddyroddir i'r meddiannydd ddweud hynny. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol oherwydd dim ond os yw'r tribiwnlys wedi cymeradwyo'r archwiliad y bydd person yn agored i gosb fel y disgrifir ym Mhennod 5 o Ran 5.
124. Nid oes gan ACC hawl i fynd i unrhyw ran o fangre a ddefnyddir fel annedd yn unig, na'i harchwilio.

Adran 104 – Cynnal archwiliadau o dan adran 103: darpariaeth bellach

125. Mae'r adran hon yn darparu pwerau pellach sydd ar gael i archwilydd ACC wrth gynnal archwiliad o fangre busnes o dan adran 103. Mae'r rhain yn cynnwys: mynd ag unrhyw berson arall neu bersonau eraill gydag ef i'r fangre (gan gynnwys swyddog yr heddlu os credir y caiff yr archwiliad ei rwystro'n ddifrifol); archwilio neu ymchwilio i unrhyw beth a ystyrir yn angenrheidiol o dan amgylchiadau'r archwiliad; rhoi cyfarwyddyd bod y fangre (neu unrhyw ran o'r fangre) yn cael ei gadael fel y mae cyhyd ag y bo'n rhesymol angenrheidiol at ddibenion unrhyw archwiliad neu ymchwiliad; y pŵer i gymryd samplau o ddeunyddiau o'r fangre, gan gynnwys drwy dyllau tyllau arbrofol neu wneud gwaith arall neu drwy osod a chynnal offer monitro neu gyfarpar arall yn y fangre.

Adran 105 – Cynnal archwiliadau o dan adran 103: defnyddio offer a deunyddiau

126. Mae'r adran hon yn darparu pwerau ategol i ACC, y gall eu harfer wrth gynnal archwiliad o dan 103. Efallai fod hyn yn fwyaf perthnasol pan fo ACC yn arfer y pwerau ychwanegol yn adran 104.
127. Mae is-adran (1) yn rhoi'r pŵer i ACC fynd ag offer neu ddeunyddiau sydd eu hangen ar gyfer yr archwiliad i'r fangre busnes. Dim ond fel a ganlyn y gellir arfer y pŵer: (a) ar adeg a gytunwyd â'r meddiannydd (nid yw cytuno i'r archwiliad ei hun yn cynnwys, o angenrheidrwydd, gytuno i ddod ag offer neu ddeunyddiau yno, ac fe all y meddiannydd wrthod bryd hynny ac yna byddai'n rhaid i ACC geisio cymeradwyaeth y tribiwnlys i fwrw ymlaen, gweler adran 108); (b) os dyroddwyd hysbysiad yn rhoi gwybod i'r meddiannydd o leiaf 7 niwrnod cyn yr archwiliad; neu (c) os yw ACC o'r farn fod sail resymol dros gredu y byddai rhoi hysbysiad ymlaen llaw y bydd y pŵer yn cael ei arfer yn niweidio'r gwaith o asesu neu gasglu trethi yn ddifrifol. Yn yr achos hwnnw, rhaid darparu hysbysiad pan eir â'r offer neu'r deunyddiau i'r fangre. Mae is-adranau (4) i (6) yn nodi gofynion hysbysiad. Os yw'r tribiwnlys wedi cymeradwyo'r archwiliad, neu'r defnydd o offer neu ddeunyddiau, rhaid i'r hysbysiad a ddyroddir i'r meddiannydd ddweud hynny. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol oherwydd dim ond os yw'r archwiliad wedi ei gymeradwyo gan y tribiwnlys y bydd person yn agored i gosb fel y disgrifir ym Mhennod 5 o Ran 5.

Adran 106 – Pŵer i archwilio mangre neu eiddo er mwyn prisio etc.

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

128. Mae adran 106 yn darparu y caiff ACC fynd i'r fangre a'i harchwilio, yn ogystal ag archwilio unrhyw eiddo yn y fangre, at ddiben prisio, mesur neu bennu cymeriad y fangre os yw hynny'n ofynnol at ddibenion gwirio sefyllfa dreth person. Yn wahanol i archwiliadau o dan adran 103, gellir defnyddio'r pŵer hwn mewn perthynas ag anheddau (a fydd yn berthnasol ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir).
129. Dim ond ar ôl cael cytundeb y meddiannydd (neu berson sy'n gyfrifol am y fangre os na ellir dweud pwy yw'r meddiannydd), neu gymeradwyaeth y tribiwnlys (ar yr amod bod y meddiannydd neu'r person cyfrifol wedi cael o leiaf 7 niwrnod o rybudd o'r archwiliad) y gellir cynnal archwiliad o'r fath.
130. Nid yw'r pŵer yn rhoi hawl i ACC ddefnyddio grym corfforol i fynd i'r fangre nac i chwilio.
131. Mae is-adrannau (5) a (6) yn pennu gofynion hysbysiad a ddyroddir o dan is-adrannau (2)(b) neu (3)(b). Mae is-adran (7) yn darparu y caiff unrhyw berson arall neu bersonau eraill fynd gyda'r person sy'n cynnal yr archwiliad os yw o'r farn bod angen hynny er mwyn cael cymorth i gynnal prisiad, i fesur neu i bennu cymeriad y fangre.

Adran 107 – Dangos awdurdodiad i gynnal archwiliadau

132. Mae adran 107 yn darparu i feddiannydd mangre sy'n cael ei harchwilio neu berson arall yr ymddengys i'r archwilydd ei fod yn gyfrifol am y fangre neu'n rheoli'r fangre ofyn am weld tystiolaeth o awdurdod i gynnal yr archwiliad. Os na chaiff ei dangos rhaid dod â'r archwiliad i ben hyd nes y darperir y dystiolaeth.

Adran 108 – Cymeradwyaeth y tribiwnlys i archwilio mangre

133. Mae adran 108 yn darparu y gall ACC ofyn i'r tribiwnlys gymeradwyo archwiliad o dan adrannau 103 neu 106 neu arfer pwerau o dan adrannau 104 neu 105 mewn perthynas ag archwiliad o dan adran 103.
134. Mae cymeradwyaeth y tribiwnlys i archwiliad o dan adran 103 yn cynnwys cymeradwyaeth i arfer unrhyw un neu ragor o'r pwerau yn adrannau 104 a 106. Ond fel y soniwyd uchod, pan fo meddiannydd yn cytuno i archwiliad o dan adran 103, mae'r meddiannydd yn cadw'r hawl i beidio â chytuno i unrhyw un neu ragor o'r pwerau yn adrannau 104 neu 105 gael eu harfer. Yn yr achosion hynny byddai angen i ACC geisio cymeradwyaeth y tribiwnlys er mwyn arfer y pwerau.
135. Gellir gwneud cais i'r tribiwnlys heb hysbysiad ac yn yr amgylchiadau hynny rhaid i'r tribiwnlys fodloni ei hun y gallai anfon hysbysiad am y cais fod wedi niweidio'r gwaith o asesu neu gasglu trethi datganoledig.
136. Wrth gymeradwyo archwiliad o dan adran 103 rhaid i'r tribiwnlys fod yn fodlon bod archwilio'r fangre busnes neu arfer y pwerau yn ofynnol at ddibenion gwirio sefyllfa dreth person.
137. Wrth gymeradwyo archwiliad o dan adran 106 rhaid i'r tribiwnlys fod yn fodlon bod ACC wedi rhoi cyfle rhesymol i'r person y mae ei sefyllfa dreth yn cael ei gwirio a'r

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

meddiannydd (os yw'n wahanol ac os gellir dweud pwy ydyw) wneud sylwadau i ACC, a rhaid i ACC roi crynodeb o unrhyw sylwadau i'r tribiwnlys.

138. Mae is-adran (7) yn ei gwneud yn ofynnol i ACC gynnal archwiliad yn ddim hwyrach na 3 mis ar ôl cymeradwyaeth y tribiwnlys neu o fewn unrhyw gyfnod byrrach a bennir gan y tribiwnlys.

Adran 109 – Pŵer i farcio asedau a chofnodi gwybodaeth

139. Mae adran 109 yn darparu y gellir marcio asedau wrth archwilio mangre, asedau busnes neu ddogfennau (er mwyn prisio a/neu wirio sefyllfa dreth), i ddangos eu bod wedi eu harchwilio. Gellir cael a chofnodi gwybodaeth berthnasol hefyd.

Adran 110 – Cyfyngiad ar archwilio dogfennau

140. Mae'r adran hon yn gymwys i'r cyfyngiadau sydd ym Mhennod 4 o'r Rhan hon o'r Bil fel na all ACC archwilio unrhyw ddogfen yn ystod archwiliad pe byddai ACC wedi ei gyfyngu gan Bennod 4 rhag gofyn am yr un ddogfen gan ddefnyddio hysbysiad gwybodaeth.

Adran 111 - Dehongli

141. Mae adran 111 yn rhoi dehongliad o'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Rhan hon o'r Bil. Mae'r diffiniadau o "asedau busnes", "dogfennau busnes" a "mangre busnes" yn gysylltiedig â'r diffiniad o "redeg busnes" yn adran 85. Diffinnir "mangre" yn eang er mwyn sicrhau bod ACC yn gallu archwilio unrhyw fath o fangre y gall fod angen iddo'i harchwilio o dan y Bennod hon.

Adrannau 112-113 – Pwerau ymchwilio pellach

142. Mae adran 112 yn rhoi pŵer i ACC gopïo, cymryd dyfyniadau a mynd â dogfennau ymaith. Caiff ACC hefyd gadw'r ddogfen am gyfnod rhesymol. Mae hyn yn golygu y gellir mynd ag eitemau ymaith i'w hystyried neu er mwyn croesgyfeirio yn erbyn dogfennau eraill. Pan ddigwydd hyn, mae is-adran (3) yn caniatáu i'r person a gyflwynodd y ddogfen ofyn am dderbynneb amdani a chopi ohoni heb godi tâl ar y person am wneud hynny. Fel arfer caiff y pŵer i fynd â dogfennau ymaith ei arfer gyda chytundeb y trethdalwr gan nad yw'n gyfystyr â hawl i atafaelu dogfennau. Mae is-adran (5) yn darparu, os caiff dogfen yr aed â hi ymaith ei cholli neu ei niweidio, fod ACC yn agored i ddigolledu perchennog y ddogfen am unrhyw dreuliau yr aed iddynt yn rhesymol i gael dogfen arall yn ei lle neu i'w hatgyweirio.
143. Mae adran 113 yn gymwys i unrhyw ddarpariaeth yn y Bil hwn sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gyflwyno dogfennau neu pan fo gan ACC ganiatâd i archwilio neu gopïo dogfennau, neu i fynd â dogfennau ymaith. Mae'r adran yn ymwneud yn bennaf â sicrhau bod ACC yn gallu cael gafael ar wybodaeth neu ddogfennau sydd wedi eu storio yn electronig.
144. Mae is-adran (3) yn caniatáu i ACC, ar adeg resymol, gael mynediad, archwilio a gwirio gweithrediad unrhyw gyfrifiadur neu gyfarpar arall a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â dogfen y mae'n ofynnol i rywun ei chyflwyno neu y gall ACC ei

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

harchwilio, ei chopïo neu fynd â hi ymaith. Mae is-adran (5) yn caniatáu i ACC ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n gyfrifol am y cyfrifiadur neu'r cyfarpar arall roi cymorth i gyflawni gofynion is-adran (3). Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn glir bod cyfeiriadau yn is-adrannau (3) i (5) at ACC yn cael mynediad i gyfrifiadur etc. neu at wneud cymorth yn ofynnol gan berson i'w trin fel cyfeiriadau at archwilydd sy'n cynnal archwiliad ar ran ACC o dan adran 103.

145. Mae unrhyw berson sy'n rhwystro ACC neu archwilydd rhag arfer y pwerau yn is-adrannau (3) a (5) yn agored i gosb o dan adran 146.

Adrannau 114-115 – Troseddau o gelu etc. ddogfennau yn dilyn hysbysiad ACC neu hysbysiad gwybodaeth

146. Mae adran 114 yn creu trosedd yn ymwneud â chelu, difa neu fel arall gael gwared â dogfen sy'n ofynnol gan hysbysiad gwybodaeth a gymeradwywyd gan y tribiwnlys. Mae is-adran (2) yn cadarnhau y gall person gyflawni trosedd o hyd o dan yr adran hon pan fo'r person hwnnw wedi apelio yn erbyn yr hysbysiad gwybodaeth neu ofyniad ynddo.
147. Mae adran 115 hefyd yn creu trosedd yn ymwneud â chelu, difa neu fel arall gael gwared â dogfen pan fo ACC wedi dweud wrth berson ei fod yn bwriadu ceisio cymeradwyaeth y tribiwnlys, ond nad yw wedi gwneud hynny eto.
148. Mae'r adran hon yn nodi'r amgylchiadau pan na chyflawnir trosedd a hefyd yn darparu amddiffyniad pan fo person yn dangos bod esgus rhesymol. Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan y naill neu'r llall o'r adrannau yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy neu ar gollfarn ar dditiad i garchar am hyd at 2 flynedd neu i ddirwy (neu'r ddau). Yn y naill achos a'r llall mae disgresiwn gan y llys o ran swm y ddirwy.

Adran 116 – Dim adolygu nac apelio yn erbyn cymeradwyaeth y tribiwnlys

149. Mae'r adran hon yn diwygio Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 fel na ellir adolygu penderfyniad y tribiwnlys i gymeradwyo hysbysiad gwybodaeth neu archwiliad, nac apelio yn ei erbyn i'r Uwch Dribiwnlys nac i'r Llys Apêl. Ystyr "adolygiad" yn y cyd-destun hwn yw adolygiad gan y tribiwnlys ei hun o'i benderfyniad ei hun, ac fel arfer darperir ar ei gyfer o dan y Ddeddf honno.

Rhan 5 - Cosbau

Adran 117 – Trosolwg

150. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o strwythur Rhan 5 o'r Bil sy'n ymwneud â chosbau.

Adrannau 118-122 – Cosbau am fethu â dychwelyd ffurflen dreth

151. Mae adran 118 yn darparu bod person yn agored i dalu cosb os yw wedi methu â dychwelyd ffurflen dreth ar y dyddiad ffeilio (egllurir yr ystyr yn adran 40), neu cyn hynny. Pan fo methiant person yn dod o fewn mwy nag un o adrannau 119 i 120 mae'r person yn agored i gosb ar gyfer pob un o'r methiannau hynny, ond ni chaiff

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

symiau'r cosbau hynny gyda'i gilydd fod yn fwy na 100% o'r rhwymedigaeth i'r dreth ddatganoledig.

152. Mae adran 118 yn darparu mai swm y gosb ar gyfer person sy'n methu â dychwelyd ffurflen dreth ar y dyddiad ffeilio neu cyn hynny yw £100.
153. Mae adran 119 yn darparu mai swm y gosb ar gyfer person sy'n parhau i fethu â dychwelyd ffurflen dreth fwy na 6 mis ar ôl y dyddiad ffeilio yw'r mwyaf o 5% o'r dreth ddatganoledig sy'n ddyledus a £300.
154. Mae adran 120 yn darparu ar gyfer cosb bellach pan fo'r methiant i ddychwelyd ffurflen dreth yn parhau am fwy na 12 mis ar ôl y dyddiad ffeilio. O dan yr amgylchiadau hyn, y gosb yw'r mwyaf o 5% o'r dreth ddatganoledig sy'n ddyledus a £300. Os, ynghyd â'r methiant hwn, yr atelir yn fwriadol wybodaeth a fyddai'n galluogi neu'n cynorthwyo ACC i asesu rhwymedigaeth y person, mae is-adran (2) yn darparu ar gyfer cosb uwch, sef y mwyaf o 100% o'r dreth ddatganoledig sy'n ddyledus a £300.
155. Mae adran 121 yn rhoi'r pŵer i ACC ostwng cosb am fethu â dychwelyd ffurflen dreth pan fo person yn datgelu gwybodaeth i ACC sydd wedi ei hatal yn flaenorol drwy fethu â dychwelyd ffurflen dreth. Mae is-adran (2) yn nodi tair elfen benodol, a gall pob elfen ganiatáu i ACC wneud gostyngiad: cyfaddefiad – dweud wrth ACC fod gwybodaeth wedi ei hatal; cymryd camau – rhoi cymorth rhesymol i ACC asesu swm y dreth ddatganoledig nas talwyd o ganlyniad i atal yr wybodaeth; a mynediad – caniatáu i ACC weld y cofnodion er mwyn gwirio maint unrhyw rwymedigaeth. Caiff unrhyw ostyngiadau a roddir adlewyrchu pa un a oedd y datgeliad wedi ei gymhell neu'n ddigymhell (pan nad oes gan y person unrhyw reswm i gredu bod ACC wedi darganfod yr wybodaeth neu ar fin ei darganfod) a'i ansawdd (amseriad, natur a graddau'r wybodaeth a ddatgelwyd). Mae amseriad yn cyfeirio at ba mor brydlon y gwnaed y datgeliad; mae natur yn cyfeirio at lefel yr wybodaeth a ddarperir a hyd a lled y mynediad a roddir er mwyn profi'r datgeliad; ac ystyr y graddau yw pa mor gyflawn yw'r datgeliad.

Adrannau 122-123 – Cosb am fethu â thalu treth

156. Mae adran 122 yn gwneud person yn agored i gosb os yw'n methu â thalu swm o dreth ddatganoledig ar ddyddiad penodol neu cyn hynny. Bydd deddfwriaeth ar drethi penodol yn pennu erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid talu'r swm, a'r gosb a osodir.
157. Mae adran 123 yn darparu y caiff person sydd wedi methu â thalu treth erbyn y dyddiad y daw'n ddyledus wneud cais i ACC am ohirio'r taliad. Caiff ACC benderfynu bryd hynny a yw'n cytuno i ohirio talu'r swm am gyfnod penodol ai peidio, yn ogystal â phennu unrhyw amodau ar gyfer y gohiriad hwnnw. Os caiff taliad ei ohirio, ni osodir unrhyw gosb y gallai'r person fod yn agored iddi yn ystod y cyfnod penodedig am fethu â thalu treth. Os yw'r person yn torri'r cytundeb (naill ai drwy fethu â thalu'r dreth sy'n ddyledus pan fo'r cyfnod gohirio'n dod i ben neu drwy fethu â chydymffurfio ag unrhyw amod ar gyfer y gohiriad hwnnw), a bod ACC yn dyroddi hysbysiad i'r person, daw'r person yn agored i unrhyw gosb y byddai'r person wedi bod yn agored iddi pe na bai'r taliad wedi ei ohirio. Os caiff y

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

cytundeb gohirio ei amrywio ymhellach mae'r cytundeb yn gymwys hyd ddiwedd y cytundeb newydd.

Adrannau 124-128 – Cosbau o dan Bennod 2: cyffredinol

158. Mae adran 124 yn nodi pa gosbau y dylai ACC eu gosod os yw person yn agored i gosb o dan y Bennod hon ac unrhyw gosb arall. Pan fo person yn agored i gosb o dan y Bennod hon, mae i'w gostwng gan swm unrhyw gosb arall a'i chymhwyso a'i phennu gan yr un rhwymedigaeth i dreth.
159. Mae adran 125 yn darparu y caiff ACC, o dan amgylchiadau arbennig, ostwng cosb a osodwyd naill ai oherwydd methiant i ddychwelyd ffurflen dreth neu fethiant i dalu treth ar y dyddiad y mae'n ddyledus neu cyn hynny. Caniateir dileu neu ohirio'r gosb neu ostwng y gosb os yw ACC yn cytuno i gyfaddawdu â'r person sy'n agored i'r gosb. Nid yw'r amgylchiadau arbennig pan ganiateir gostwng y gosb yn cynnwys gallu'r person i dalu na'r ffaith bod y posibilrwydd o golli refeniw gan un person yn cael ei wrthbwysu gan ordaliad posibl gan berson arall.
160. Os yw person yn bodloni ACC (neu, drwy apêl, y tribiwnlys), bod ganddo esgus rhesymol dros fethiant i naill ai ddychwelyd ffurflen neu wneud taliad, mae adran 126 yn darparu nad yw'r person yn agored i dalu cosb sy'n codi o'r methiant hwnnw. Mae'r adran hefyd yn egluro rhai amgylchiadau pan nad yw esgus rhesymol yn gymwys.
161. Pan fo person yn agored i gosb sy'n deillio o'r Bennod hon, mae adran 127 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC asesu'r gosb a hysbysu'r person am y gosb a sut y cafodd ei hasesu. Nodir manylion asesiad ACC o'r gosb yn yr adran hefyd. Mae adran 128 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC asesu cosbau o fewn terfynau amser penodedig.

Adrannau 129-131 – Cosb am anghywirdeb mewn dogfen trethdalwr

162. Mae adran 129 yn darparu bod person yn agored i gosb pan fo'n cyflwyno dogfennau penodol i ACC sy'n cynnwys anghywirdeb, cyn belled â bod dau amod yn cael eu bodloni. Yr amod cyntaf yw bod yr anghywirdeb yn gyfystyr â naill ai danddatganiad o'r rhwymedigaeth i dreth, ddatganiad ffug neu ormodol o golled neu hawliad ffug neu ormodol am ymwared neu ad-daliad treth, neu'n arwain at hynny. Yr ail amod yw bod yr anghywirdeb, ym marn ACC, naill ai'n fwriadol neu'n ddiofal ar ran y person sy'n cyflwyno'r ddogfen (a allai fod y trethdalwr neu rywun sy'n gweithredu ar ran y trethdalwr neu y mae'n ofynnol iddo roi dogfen i ACC, yn dilyn hysbysiad gwybodaeth a ddyroddwyd o dan Ran 4 er enghraifft). Mae cosb yn daladwy am bob camgymeriad. Pennir y dogfennau y bydd y gosb hon yn berthnasol iddynt mewn deddfwriaeth ar gyfer trethi penodol.
163. Mae adran 130 yn pennu swm y gosb am anghywirdeb bwriadol ac am anghywirdeb diofal, a gyfrifir fel canran o'r "refeniw posibl a gollir" fel y'i diffinnir yn adran 134.
164. Mae adran 131 yn rhoi'r pŵer i ACC ohirio cosb gyfan neu ran o gosb y mae person yn agored iddi o dan adran 129 o ganlyniad i gyflwyno dogfen i ACC sy'n cynnwys camgymeriad diofal. Pan fo'n arfer y pŵer hwn, rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r person sy'n agored i'r gosb, a rhaid i hwnnw bennu pa ran o'r gosb sy'n cael ei

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

gohirio, a gosod cyfnod gohirio nad yw'n hwy na 2 flynedd a'r amodau gohirio y mae'n rhaid i'r person gydymffurfio â hwy. Ni chaiff ACC ohirio cosb gyfan neu ran o gosb oni fyddai cydymffurfio ag amod gohiriad yn helpu'r person i osgoi rhwymedigaeth i gosbau pellach am anghywirdeb diofal. Pan ddaw'r cyfnod gohirio i ben, caiff y gosb a ohiriwyd (y gosb gyfan neu ran ohoni) ei chanslo os yw ACC wedi ei fodloni y cydymffurfiwyd â'r amodau; fel arall, daw'r gosb a ohiriwyd (y gosb gyfan neu ran ohoni) yn daladwy. Daw cosb a ohiriwyd yn daladwy os yw'r person yn dod yn agored i gosb arall am dreth ddatganoledig yn ystod y cyfnod gohirio.

165. Mae adran 132 yn darparu bod person (A) yn agored i gosb pan fo person arall (B) yn cyflwyno dogfen i ACC sy'n cynnwys anghywirdeb, a bod yr anghywirdeb hwnnw i'w briodoli i'r ffaith bod A naill ai wedi darparu gwybodaeth ffug i B yn fwriadol neu wedi atal gwybodaeth rhagddo yn fwriadol gyda'r bwriad o greu anghywirdeb. Pan fo hynny'n digwydd a bod naill ai danddatganiad o rwymedigaeth i dreth neu hawliad ffug/gormodol am golled neu ad-daliad o dreth, mae A yn agored i dalu cosb sy'n 100% o'r "refeniw posibl a gollir". Er enghraifft, byddai trethdalwr sy'n rhoi dogfen anghywir yn fwriadol i'w asiant yn dod yn agored i'r gosb hon pan fo'r asiant yn cyflwyno'r ddogfen anghywir i ACC ar ran y trethdalwr. Gallai'r asiant fod yn agored i gosb hefyd o dan adran 129, a byddai'r cwestiwn o ba un a weithredodd yr asiant yn fwriadol, neu'n ddiogel yn unig, yn dibynnu ar ffeithiau'r achos.

Adran 133 – Cosb am fethu â hysbysu ynghylch tanasesiad neu danddyfarniad

166. Mae'r adran hon yn darparu bod cosb yn daladwy gan berson pan fo asesiad a ddyroddir gan ACC (fel y'i diffinnir o dan adran 56) yn tanddatgan rhwymedigaeth i dreth, a bod y person wedi methu â chymryd camau rhesymol i hysbysu ACC am y ffaith honno o fewn 30 o ddiwrnodau i dderbyn y tanasesiad. Rhaid i ACC ystyried a wyddai'r person am y tanasesiad, neu a ddylai fod wedi gwybod amdano, a pha gamau y byddai wedi bod yn rhesymol iddo eu cymryd i hysbysu ACC. Mae'r cyfeiriadau at asesiad ACC yn cynnwys dyfarniad ACC (fel y'i diffinnir o dan adran 52). Swm y gosb sy'n daladwy yw 30% o'r refeniw posibl a gollir. Diffinnir refeniw posibl a gollir yn adran 134.

Adrannau 134-138 – Refeniw posibl a gollir

167. Mae adran 134 yn rhoi ystyr refeniw posibl a gollir drwy gyfeirio at adrannau 135 i 138.
168. Mae adran 135 yn darparu'r "rheol arferol" ar gyfer cyfrifo refeniw posibl a gollir, sef y swm ychwanegol sy'n ddyledus ac yn daladwy (naill ai i ACC neu gan ACC) mewn cysylltiad â threth o ganlyniad i gywiro anghywirdeb neu danasesiad.
169. Pan fo person yn agored i gosb o dan adran 129 am fwy nag un anghywirdeb, mae adran 138 yn darparu, os yw cyfrifiad o'r refeniw posibl a gollir yn dibynnu ar y drefn y caiff yr anghywirdebau eu cywiro, bod anghywirdebau diogel i'w cywiro cyn anghywirdebau bwriadol. Wrth gyfrifo refeniw posibl a gollir, rhaid rhoi ystyriaeth i unrhyw orddatganiad mewn dogfen a roddwyd gan yr un person yn yr un cyfnod treth.

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

170. Wrth gyfrifo refeniw posibl a gollir mewn cysylltiad â dogfen a roddir gan berson, neu ar ei ran, ni chaiff gordaliad posibl gan berson arall ei ystyried, ac eithrio pan ganiateir hynny yn benodol mewn unrhyw ddeddfiad. Mae'r adran hefyd yn rhoi ystyr tanddatganiad a gorddatganiad.
171. Mae adran 137 yn darparu, pan fo anghywirdeb yn arwain at gofnodi colled yn gyfan gwbl at ddiben gostwng swm y dreth ddatganoledig sy'n daladwy, yna bydd y rheol arferol ar gyfer cyfrifo refeniw posibl a gollir (a ddarperir gan adran 135) yn gymwys. Mae is-adran (2) yn darparu, pan fo anghywirdeb yn arwain at gofnodi colled yn rhannol at ddiben gostwng swm y dreth sy'n daladwy, yna cyfrifir y refeniw posibl a gollir: a) gan gyfeirio at y rhan o'r golled a ddefnyddiwyd i ostwng swm y dreth sy'n daladwy; a b) 10% o'r golled nas defnyddiwyd i ostwng swm y dreth sy'n daladwy. Mae hyn yn gymwys pan na fyddai unrhyw golled wedi ei chofnodi oni bai am yr anghywirdeb a hefyd pan fyddai swm gwahanol o golled wedi ei gofnodi o ganlyniad i'r anghywirdeb. Pan fo natur y golled, neu amgylchiadau'r person, yn golygu nad oes unrhyw obaith rhesymol y defnyddir y golled i ostwng rhwymedigaeth unrhyw berson i dreth, ni fydd unrhyw gosb.
172. Mae adran 138 yn darparu, pan fo anghywirdeb yn arwain at ddatgan swm o dreth yn hwyrach nag y dylid, mai'r refeniw posibl a gollir yw 5% o'r dreth oediedig am bob blwyddyn o'r oedi. Os yw'r oedi am gyfnod o lai na blwyddyn yna mae'r refeniw posibl a gollir yn ganran sy'n cyfateb i 5% y flwyddyn ar gyfer pob cyfnod o oedi ar wahân. Nid yw'r adran hon yn gymwys i achosion pan fo'r anghywirdeb yn arwain at gofnodi neu faintioli colled yn anghywir (gweler adran 137).

Adrannau 139-141 – Cosbau o dan Bennod 3: cyffredinol

173. Mae adran 139 yn darparu y caiff ACC ostwng cosb o dan y Bennod hon. Nid yw hyn ond yn gymwys pan fo person yn datgelu gwybodaeth i ACC ynghylch anghywirdeb, bod gwybodaeth ffug wedi ei darparu neu wybodaeth wedi ei hatal, neu fethiant i ddatgelu tanasesiad sy'n berthnasol i rwymedigaeth person i dreth ddatganoledig. Caiff unrhyw ostyngiadau a roddir adlewyrchu a oedd y datgeliad yn ddigymell (pan nad oes gan y person unrhyw reswm i gredu bod ACC wedi darganfod neu ar fin darganfod yr wybodaeth) ai peidio, a hefyd ansawdd (amseriad, natur a graddau) yr wybodaeth a ddatgelwyd. Mae amseriad yn cyfeirio at ba mor brydlon y gwnaed y datgeliad; mae natur yn cyfeirio at lefel y dystiolaeth a ddarperir a graddau'r mynediad a roddir er mwyn profi'r datgeliad; ac ystyr y graddau yw pa mor gyflawn yw'r datgeliad.
174. Mae adran 140 yn darparu y caiff ACC, o dan amgylchiadau arbennig, ostwng cosb a osodwyd o ganlyniad i adrannau 129, 132 neu 133. Caniateir gohirio cosb, ei dileu yn llwyr neu ei gostwng os yw ACC yn cytuno ar gyfaddawd â'r trethdalwr mewn perthynas â'r gosb. Ni chaiff yr amgylchiadau arbennig y caniateir gostwng y gosb oddi tanynt ymwneud â gallu'r person i dalu na'r ffaith bod y posibilrwydd o golli refeniw gan un person yn cael ei wrthbwysu gan ordaliad posibl gan berson arall.
175. Mae adran 141 yn darparu, pan fo person yn dod yn agored i gosb o ganlyniad i adrannau 129, 132 neu 133, bod rhaid i ACC asesu'r gosb, hysbysu'r person fod cosb wedi ei gosod, a datgan yn yr hysbysiad ar gyfer pa gyfnod neu drafodiad yr asesir y gosb. Mae is-adran (3) a (4) yn nodi'r terfynau amser ar gyfer asesu cosbau o dan

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

adrannau 129, 132 neu 133.

Adran 142 - Dehongli

176. Mae'r adran hon yn diffinio ymadroddion amrywiol a ddefnyddir yn y Bennod hon, gan gynnwys — “rhoi dogfen i ACC”, “dychwelyd ffurflen dreth”, “colled”, “gweithred” a “cyfnod treth”.

Adrannau 143-145 – Cosbau am fethu â chadw cofnodion mewn cysylltiad â ffurflenni a hawliadau treth a'u storio'n ddiogel

177. Mae adran 143 yn darparu ar gyfer cosb o hyd at £3,000 am fethu â chadw cofnodion a'u storio'n ddiogel yn unol ag adran 38 neu 69, gyda'r eithriad nad yw unrhyw gosb i'w thalu os gall tystiolaeth ddogfennol arall ddangos yr un wybodaeth. Mater i ACC fydd penderfynu ar lefel y gosb (hyd at yr uchafswm o £3,000) ym mhob achos.
178. Mae adran 144 yn darparu nad yw person yn agored i gosb o dan adran 145 os yw'r person yn bodloni ACC (neu, drwy apêl, y tribiwnlys) bod esgus rhesymol dros y methiant. Mae'r adran yn diffinio rhai amgylchiadau na fyddent yn cael eu derbyn fel esgus rhesymol.
179. Mae adran 145 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC asesu'r gosb a dyroddi hysbysiad i'r person sy'n agored iddi o fewn cyfnod penodedig.

Adrannau 146-153 – Cosbau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau

180. Mae adran 146 yn darparu bod person yn agored i gosb o £300 pan fo'r person hwnnw:
- yn methu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth (fel y'i diffinnir yn adran 83);
 - yn rhwystro ACC yn fwriadol yn ystod ymchwiliad a gymeradwywyd gan y tribiwnlys;
 - yn rhwystro ACC yn fwriadol wrth iddo arfer pwerau o dan adran 113(3)); neu
 - yn methu â chydymffurfio â chais rhesymol am gymorth o dan adran 113(5).
181. Mae is-adran (3) yn darparu bod methu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth yn cynnwys celu, difa neu gael gwared â dogfen hyd yn oed pan fyddai hynny'n drosedd o dan adran 114 neu 115. Os cafodd person ei gollfarnu o dan yr adrannau hynny mae adran 147 yn atal y person rhag bod yn agored i gosb am yr un weithred, ond mae'r gosb ar gael fel sancsiwn os na fwrir ymlaen â chollfarn droseddol.
182. Mae adran 147 yn darparu bod person yn agored i gosb ddyddiol bellach o hyd at £60 am bob diwrnod dilynol y mae'r methiant neu'r rhwystr yn parhau ar ôl i ACC ddyroddi hysbysiad am y gosb honno. Nid yw person yn agored i gosb ddyddiol pan fo'r person yn methu ag ymateb i hysbysiad a ddyroddir gan ACC o dan adran 93 sy'n ei gwneud yn ofynnol rhoi manylion cyswllt dyledwyr. Mae is-adran (2)(b) yn atal cosb ddyddiol rhag cronni tra bo adolygiad yn cael ei gynnal neu apêl yn cael ei chynnal.
183. Mae adran 148 yn darparu nad yw person yn agored i gosb o dan adran 146 neu 147

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

os yw ACC yn caniatáu cyfnod pellach cyfyngedig iddo gywiro'r methiant, a bod y person yn gwneud hynny. Mae adran 149 hefyd yn darparu nad yw person yn agored i gosb o dan adran 146 neu 147 os yw'r person yn bodloni ACC (neu, drwy apel, y tribiwnlys) fod esgus rhesymol. Mae'r adran yn diffinio rhai amgylchiadau na fyddent yn cael eu derbyn fel esgus rhesymol.

184. Pan fo person wedi bod yn agored i'r gosb ddiofyn ddyddiol o dan adran 147 am fwy na 30 o ddiwrnodau a bod y methiant neu'r rhwystr yn parhau, mae adran 150 yn darparu y caiff ACC wneud cais i'r tribiwnlys am gynnydd yn y gosb ddyddiol. Cyn gwneud cais, rhaid i ACC ddweud wrth y person sy'n gyfrifol am y methiant neu'r rhwystr y caniateir gwneud cais. Pan fo'n gwrando'r achos ar y cais, caiff y tribiwnlys gymeradwyo swm uwch o hyd at £1,000 ar gyfer pob diwrnod cymwys a rhaid iddo roi sylw i ffactorau sy'n cynnwys cost debygol cydymffurfio â'r hysbysiad a'r buddiannau i'r person neu i unrhyw un arall sy'n deillio o beidio â chydymffurfio. Os yw'r tribiwnlys yn cymeradwyo'r cais, rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r person a datgan o ba ddiwrnod y bydd y gosb ddyddiol uwch yn gymwys.
185. Mae adran 151 yn darparu y gellir gwneud person yn agored i gosb atodol o swm y bydd yr Uwch Dribiwnlys yn penderfynu arno, pan fo meini prawf penodol yn gymwys. Y meini prawf yw: bod person yn agored i gosb o dan adran 146; bod y methiant neu'r rhwystr yn parhau; bod ACC yn credu bod swm y dreth y mae'r person wedi ei dalu neu'n debygol o'i dalu yn sylweddol is na'r hyn y byddai wedi bod pe byddai wedi cydymffurfio; bod ACC yn gwneud cais i'r Uwch Dribiwnlys i gosb ychwanegol gael ei gosod; a bod yr Uwch Dribiwnlys yn penderfynu ei bod yn briodol gwneud hynny.
186. Wrth benderfynu ar swm y gosb, rhaid i'r Uwch Dribiwnlys ystyried swm y dreth nad yw'r person wedi ei dalu, neu nad yw'n debygol o'i dalu. Mae unrhyw gosb ychwanegol a osodir yn sgil penderfyniad yr Uwch Dribiwnlys o dan yr adran hon yn ychwanegol at y cosbau sefydlog a'r cosbau dyddiol a osodir o ganlyniad i fethiant neu rwystr sy'n parhau.
187. Mae adran 152 yn darparu bod person, o dan amgylchiadau penodol, yn agored i gosb o hyd at £3,000 os yw, wrth gydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth, yn cyflwyno dogfen sy'n cynnwys anghywirdeb. Yr amgylchiadau hynny yw: os yw'r camgymeriad o ganlyniad i ymddygiad diofal neu fwriadol; os yw'r person yn ymwybodol o'r anghywirdeb ar yr adeg y cyflwynir y ddogfen ond nad yw'n hysbysu ACC; neu os yw'r person yn darganfod y camgymeriad ar ôl cyflwyno'r ddogfen, ond yn methu â chymryd camau rhesymol i hysbysu ACC. Pan fo dogfen yn cynnwys mwy nag un anghywirdeb, mae cosb yn daladwy am bob anghywirdeb. Mater i ACC fydd penderfynu ar lefel y gosb (hyd at yr uchafswm o £3,000) ym mhob achos.
188. Pan ddaw person yn agored i gosb o dan adran y Bennod hon, mae adran 153 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC asesu'r gosb a hysbysu'r person am hynny. Rhaid asesu'r gosb o dan adran 146 neu 147 o fewn 12 mis ar ôl i'r person ddod yn agored i'r gosb neu, pan fo hawl i apelio yn erbyn hysbysiad gwybodaeth, 12 mis ar ôl diwedd y cyfnod apelio neu pan ddaeth apel i ben. Pan ddaw person yn agored i gosb o dan adran 150, rhaid i ACC gynnal asesiad o'r gosb bob 7 niwrnod hyd ddiwedd y methiant sy'n arwain at y gosb. Rhaid gwneud yr asesiad o gosb o dan adran 151 o

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

fewn 12 mis i benderfyniad yr Uwch Dribiwnlys. Rhaid gwneud asesiad o gosb o dan adran 152 o fewn 12 mis i'r dyddiad y daeth y camgymeriad i sylw ACC yn gyntaf ac o fewn 6 mlynedd i'r dyddiad y daeth y person yn agored i'r gosb.

189. Mater i'r tribiwnlys yw'r penderfyniad i osod cosb o dan adran 150 neu 151. Nid yw'n "benderfyniad apeliadwy" gan ACC felly, ac o ganlyniad nid yw'r darpariaethau ynghylch adolygiadau ac apelau yn Rhan 8 yn gymwys. Ond bydd y penderfyniad yn agored i adolygiad neu apêl gan yr Uwch Dribiwnlys a gellir apelio i'r Llys Apêl yn ei gylch ar bwynt cyfreithiol yn unol â darpariaethau Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007.

Adran 154 – Talu cosbau

190. Rhaid talu cosb o dan Ran 5 cyn pen 30 o ddiwrnodau i'r diwrnod y dyroddodd ACC yr hysbysiad am y gosb i'r person, oni bai bod adolygiad neu apêl. Os felly, mae adran 182 yn gymwys.

Adrannau 155-156 – Atodol

191. Mae adran 155 yn darparu nad yw person yn agored i dalu unrhyw gosb a amlinellir yn y Bil os yw'r person eisoes wedi ei gollfarnu am drosedd sy'n ymwneud â'r mater a sbardunodd y gosb.
192. Mae adran 156 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru bennu symiau'r cosbau a'r weithdrefn ar gyfer asesu cosbau.

Rhan 6 - Llog

Adrannau 157-160 – Llog ar symiau sy'n daladwy i ACC

193. Mae adran 157 yn darparu bod llog yn daladwy gan berson ar dreth ddatganoledig a chosbau cysylltiedig nad ydynt yn cael eu talu cyn dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr. Mae llog yn cronni o ddyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr hyd nes y telir y dreth neu'r gosb. Mae is-adran (3) yn datgan mai dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr, mewn achos arferol, yw'r diwrnod ar ôl y diwrnod y daw'r swm o dreth neu gosb yn daladwy.
194. Mae adran 158 yn darparu nad yw llog taliadau hwyr yn daladwy ar log taliadau hwyr. Mae hefyd yn egluro, pan fo swm o dreth neu gosb sy'n daladwy yn cael ei osod yn erbyn swm y mae ACC i'w ad-dalu i'r trethdalwr, mai dyddiad y gwrthgyfrif hwnnw a gaiff ei gyfrif fel y dyddiad talu at ddibenion cyfrifo pryd y mae llog yn gorffen cronni.
195. Mae adran 159 yn pennu dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr pan fo swm o dreth ddatganoledig yn dod yn daladwy o dan amgylchiadau pan fo asesiad (gan gynnwys hunanasesiad neu asesiad neu ddyfarniad ACC) wedi ei ddiwygio neu ei gywiro.
196. Mae adran 160 yn pennu dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr o dan amgylchiadau pan fo person yn marw cyn i swm o dreth ddatganoledig, neu gosb gysylltiedig, ddod yn daladwy ac nad yw'r ysgutor neu'r gweinyddwr yn gallu talu'r swm hyd

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

nes y ceir profiant neu lythyrau gweinyddu neu ddogfen gyfatebol arall. Bydd llog taliadau hwyr yn dechrau o ddyddiad dechrau safonol y llog taliadau hwyr, neu 30 o ddiwrnodau ar ôl grant profiant neu gael llythyrau gweinyddu, pa un bynnag sydd hwyrach.

Adrannau 161-162 – Llog ar symiau sy'n daladwy gan ACC

197. Mae adran 161 yn darparu bod llog yn daladwy gan ACC i'r person ar unrhyw ad-daliad o dreth ddatganoledig, ad-daliad o unrhyw swm a roddwyd yng ngofal ACC mewn perthynas â threth y rhagwelwyd y byddai'n daladwy, ad-daliad o gosbau neu ad-daliad llog (ar naill ai dreth neu gosbau). Pan wneir ad-daliad ar ddyddiad dechrau'r llog ad-daliadau, neu wedi hynny, ychwanegir llog at y swm sydd i'w ad-dalu.
198. Mae adran 162 yn gwneud darpariaeth atodol ynghylch llog ad-daliadau. Mae hynny'n cynnwys egluro nad yw llog o dan adran 163 yn daladwy pan fo llys yn gorchymyn yr ad-daliad, ac y caiff y llys gynnwys llog yn y gorchymyn ad-dalu. Mae hefyd yn egluro, pan fo swm sydd i'w ad-dalu i'r trethdalwr gan ACC yn cael ei osod yn erbyn swm o dreth neu gosb sy'n daladwy gan y trethdalwr, mai'r dyddiad y gwneir hynny sy'n cael ei gyfrif fel dyddiad talu'r ad-daliad at ddibenion cyfrifo pryd y mae llog yn gorffen cronni.

Adran 163 – Cyfraddau llog

199. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu cyfraddau'r llog taliadau hwyr a'r llog ad-daliadau sydd i'w talu. Caniateir gosod cyfraddau gwahanol at ddibenion gwahanol. Bydd Gweinidogion Cymru yn nodi mewn rheoliadau o dan ba amgylchiadau y caniateir newid cyfradd llog ac o ba bryd y bydd newid i gyfradd llog yn gymwys.

Rhan 7 – Talu a gorfodi

Adrannau 164-168 – Talu ac ardystio dyled

200. Mae adran 164 yn egluro bod y Rhan hon yn gymwys i daliadau o symiau o drethi datganoledig, cosbau, a llog mewn perthynas â'r naill neu'r llall ohonynt. Mae adrannau 165 a 166 yn egluro ystyr swm perthnasol, yn rhoi'r pŵer i ACC fynnu swm o dreth ddatganoledig sy'n ddyledus ac yn daladwy gan berson ac yn ei gwneud yn ofynnol i ACC ddarparu derbynneb pan delir treth ddatganoledig os gofynnir iddo wneud hynny.
201. Mae adran 167 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu bod ffi i'w thalu os telir swm o dreth, cosb neu log drwy ddull talu penodol (megis cerdyn credyd). Bydd y rheoliadau'n pennu swm y ffi o dan amgylchiadau penodol a chaiff wneud darpariaeth ynghylch pryd a sut y mae'n rhaid talu'r ffi.
202. Mae adran 168 yn darparu bod tystysgrif gan ACC sy'n datgan nad yw swm sy'n ddyledus iddo wedi ei dalu yn dystiolaeth o'r ddyled. Mewn unrhyw achos llys ynghylch y ddyled, felly, os gall ACC gyflwyno tystysgrif o'r fath, mater i'r dyledwr fydd profi nad yw'r swm yn ddyledus i ACC.

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

Adrannau 169-170 – Adennill

203. Mae adran 169 yn darparu bod trethi neu gosbau nas talwyd o lai na £2,000 yn adenilladwy fel dyled sifil yn llys yr ynadon. Nid yw hyn yn rhagfarnu unrhyw ddulliau adennill neu orfodi eraill a allai fod ar gael i ACC (drwy'r Llys Sirol neu'r Uchel Lys, er enghraifft). Caiff Gweinidogion Cymru gynyddu'r swm hwn drwy reoliadau.
204. Os nad yw person yn talu swm sy'n ddyledus (treth, cosb neu log) i ACC, mae adran 170 yn darparu y caiff ACC adennill y swm drwy atafaelu a gwerthu nwyddau y mae'r person yn berchen arnynt gan ddefnyddio'r weithdrefn sydd yn Atodlen 12 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007.

Rhan 8 – Adolygiadau ac Apelau

Adrannau 171-172 – Trosolwg a phenderfyniadau apeliadwy

205. Mae adran 171 yn rhoi trosolwg o ddarpariaethau'r Rhan hon o'r Bil, sy'n ymwneud ag adolygu penderfyniadau penodol gan ACC, ac apelio yn eu herbyn. Mae hynny'n cynnwys rhoi manylion am ba benderfyniadau gan ACC y gellir apelio yn eu herbyn. Mae'n ymdrin hefyd â'r hawl i ofyn i ACC gynnal adolygiad mewnol o benderfyniad apeliadwy a'r ddyletswydd sydd ar ACC i gynnal adolygiad o'r fath, yr hawl i apelio i'r tribiwnlys yn erbyn penderfyniad apeliadwy a'r ddyletswydd sydd ar y tribiwnlys i ddyfarnu ar apêl o'r fath. Gwneir darpariaeth hefyd i ACC ymrwymo i gytundeb setlo â pherson.
206. Mae adran 172 yn rhoi hawl i berson y mae penderfyniad apeliadwy yn gymwys iddo ofyn i ACC adolygu penderfyniad, a hawl i apelio i'r tribiwnlys, ac yn nodi pa benderfyniadau gan ACC sydd i'w trin fel penderfyniadau apeliadwy. Mae is-adran (3) yn rhestru'r penderfyniadau hynny a hepgorir o is-adran (2), sy'n golygu na ellir apelio yn eu herbyn, gan gynnwys penderfyniad i ddyroddi hysbysiad ymholiad (ond caniateir apelio yn erbyn casgliadau ymholiad) a phenderfyniad i ddyroddi hysbysiad trethdalwr, neu gynnwys gofyniad penodol mewn hysbysiad o'r fath (y mae'n rhaid i'r tribiwnlys ei gymeradwyo ymlaen llaw). Mae is-adran (4) yn dileu'r hawl i ofyn am adolygiad o benderfyniad i ddyroddi hysbysiad gwybodaeth pan fo'r tribiwnlys eisoes wedi cymeradwyo'r penderfyniad (sy'n atal ACC rhag gallu newid penderfyniad y tribiwnlys). Mae is-adran (5) yn cyfyngu ar y seiliau ar gyfer adolygiad neu apêl, mewn perthynas â hysbysiadau gwybodaeth, fel bod y seiliau ar gyfer apêl yn gyson â'r hyn y gellir dyroddi hysbysiad o'r fath ar ei sail yn y lle cyntaf. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau, o dan is-adran (7), er mwyn ychwanegu, amrywio, neu ddileu penderfyniad o'r naill neu'r llall o'r rhestrau o benderfyniadau apeliadwy a'r rhai nad ydynt yn apeliadwy yn is-adrannau (2) a (3), neu i wneud darpariaeth ynghylch ar ba seiliau y caniateir gwneud apêl yn erbyn penderfyniad neu adolygiad o benderfyniad.

Adrannau 173-177 – Adolygiadau

207. Mae adran 173 yn ei gwneud yn ofynnol i gais am adolygiad gael ei wneud drwy roi hysbysiad i ACC. Ni chaniateir gwneud cais o'r fath os yw'r canlynol yn berthnasol

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

mewn perthynas â'r un penderfyniad: bod ACC yn cynnal ymholiad, bod apêl wedi ei dyfarnu neu'n parhau, neu fod y person wedi ymrwymo i gytundeb setlo gydag ACC.

208. Mae adran 174 yn pennu terfyn amser o 30 o ddiwrnodau y mae'n rhaid i berson roi hysbysiad am gais o'i fewn. Bydd y diwrnod y bydd y cyfnod hwn yn dechrau yn amrywio, gan ddibynnu ar ba un o'r amgylchiadau y darperir ar eu cyfer yn yr adran hon sy'n gymwys. Er enghraifft, mewn sawl achos rhoddir 30 o ddiwrnodau i berson ar ôl dyroddi hysbysiad sy'n ei hysbysu am benderfyniad, yn unol ag is-adran (2)(b). Rhaid i'r hysbysiad am gais a roddir i ACC bennu'r seiliau ar gyfer yr adolygiad.
209. Mae adran 175 yn caniatáu i hysbysiad am gais gael ei wneud ar ôl y cyfnod a bennir yn adran 174 os yw ACC yn cytuno i hynny neu os yw'r tribiwnlys yn rhoi ei ganiatâd. Bydd rheolau'r tribiwnlys yn ymdrin â'r weithdrefn ar gyfer gwneud ceisiadau i'r tribiwnlys ganiatáu adolygiad hwyr.
210. Mae adran 176(1) yn gosod dyletswydd ar ACC i gynnal adolygiad o benderfyniad apeliadwy pan fo hysbysiad am gais wedi ei wneud sy'n cydymffurfio â'r darpariaethau blaenorol ar gyfer adolygiadau. Mae adran 176(2) yn darparu y caiff yr adolygiad fod ar unrhyw ffurf a ymddengys yn briodol i ACC o dan yr amgylchiadau, ond wrth benderfynu beth sy'n briodol, mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i ACC roi sylw i gamau a gymerodd ACC cyn yr adolygiad wrth ddod i benderfyniad, a chan unrhyw berson sy'n ceisio datrys anghytundeb ynghylch y penderfyniad.
211. Wrth gynnal ei adolygiad, rhaid i ACC ystyried unrhyw sylwadau a wneir i ACC gan y person sy'n gofyn am yr adolygiad, ar yr amod eu bod yn cael eu gwneud ar adeg sy'n rhoi cyfle rhesymol i ACC eu hystyried. Gall yr adolygiad ddod i'r casgliad bod penderfyniad ACC i'w gadarnhau, i'w amrywio neu i'w ganslo. Mae adran 176(6) yn ei gwneud yn ofynnol i ACC ddyroddi hysbysiad am gasgliadau ei adolygiad. Dylid gwneud hynny o fewn 45 o ddiwrnodau i dderbyn hysbysiad y person am gais oni bai bod y partïon wedi cytuno ar gyfnod gwahanol. Mae is-adran (7) yn darparu, os nad yw ACC yn dyroddi hysbysiad am ei gasgliadau o fewn y cyfnod sy'n ofynnol o dan is-adran (6), y bennir bod yr adolygiad wedi dod i'r casgliad bod penderfyniad ACC i'w gadarnhau, a rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r perwyl hwnnw.
212. Mae adran 177 yn darparu bod casgliadau'r adolygiad i'w trin fel pe baent yn ddyfarniad gan y tribiwnlys (ac eithrio na fydd hawl pellach i adolygiad neu apêl). Nid dyna fydd effaith casgliadau adolygiad, fodd bynnag, os bydd tribiwnlys yn dyfarnu wedi hynny mewn perthynas â'r penderfyniad, neu os yw ACC a'r person a ofynnodd am yr adolygiad yn ymrwymo i gytundeb setlo mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw.

Adrannau 178-181 – Apelau

213. Mae adran 178(1) yn darparu bod rhaid gwneud apêl yn erbyn penderfyniad apeliadwy gan ACC, fel y'i diffinnir yn adran 173, i'r tribiwnlys. Ni chaniateir gwneud apêl os yw'r canlynol yn berthnasol mewn perthynas â'r un penderfyniad: bod ymholiad gan ACC yn mynd rhagddo, bod cais wedi ei wneud am adolygiad ac nad yw'r adolygiad hwnnw wedi ei gwblhau hyd yma, neu fod y person sy'n

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

gwneud apêl wedi ymrwymo i gytundeb setlo gydag ACC.

214. Mae adran 179 yn nodi o fewn pa gyfnod y gellir gwneud apêl, sef 30 o ddiwrnodau ar ôl amser penodol, sy'n amrywio gan ddibynnu ar ba un neu ragor o'r amodau a nodir yn yr adran hon sy'n gymwys. O dan is-adran (3), er enghraifft, pan fo ACC wedi adolygu'r penderfyniad, mae gan yr apelai 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae ACC yn dyroddi hysbysiad am y casgliadau (neu'r casgliadau tybiedig) i'r apelai yn unol ag adran 177(5).
215. Mae adran 180 yn darparu y gellir gwneud apêl hwyr ar ôl i'r cyfnod perthnasol ddod i ben, os yw'r tribiwnlys yn rhoi ei ganiatâd. Bydd rheolau'r tribiwnlys yn ymdrin â'r weithdrefn ar gyfer ceisiadau i'r tribiwnlys ganiatáu apêl hwyr. Pan wneir apêl, mae adran 181 yn ei gwneud yn ofynnol i'r tribiwnlys gadarnhau, amrywio neu ganslo penderfyniad ACC sy'n destun yr apêl.

Adran 182-183 - Canlyniadau adolygiadau ac apelau

216. Mae adran 182 yn nodi sut yr ymdrinnir â thalu cosbau y gallai person fod yn agored iddynt yn ystod adolygiad neu apêl. Yn ei hanfod, effaith y ddarpariaeth hon yw y caiff y gofyniad i dalu cosb o dan adran 154 ei ohirio hyd 30 o ddiwrnodau ar ôl i adolygiad ddod i ben neu wedi i apêl gael ei dyfarnu'n derfynol. Fodd bynnag, nid yw'r gohiriad hwn yn gymwys i unrhyw swm o gosb nad oes anghydfod yn ei gylch.
217. Effaith adran 183 yw gohirio'r gofyniad i gydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth neu ofyniad mewn hysbysiad o'r fath tra bo adolygiad o'r penderfyniad perthnasol, neu apêl yn ei erbyn, yn mynd rhagddo. Mae hefyd yn rhoi'r pŵer i ACC neu'r tribiwnlys bennu wedi hynny gyfnod ar gyfer cydymffurfio os yw adolygiad neu apêl yn cadarnhau neu'n amrywio penderfyniad i ddyroddi hysbysiad gwybodaeth neu ofyniad sydd ynddo.

Adran 184 - Cytundebau setlo

218. Mae adran 184 yn rhoi ystyron penderfyniad apeliadwy a chytundeb setlo.
219. Mae'r adran hon hefyd yn nodi'r rheolau ar gyfer setlo adolygiadau ac apelau drwy gytundeb rhwng yr apelai ac ACC, gan gynnwys y terfyn amser i'r person dynnu'n ôl o gytundeb o'r fath. Mae is-adran (1) yn diffinio ystyr "cytundeb setlo". Mae is-adran (2) yn darparu bod canlyniadau cytundeb setlo i fod yr un fath â phe bai'r tribiwnlys wedi dyfarnu ar ganlyniad apêl (ac eithrio i'r graddau a bennir yn is-adran (3)), oni bai bod y person yn hysbysu ACC o fewn 30 o ddiwrnodau ei fod yn dymuno tynnu'n ôl o'r cytundeb. Er mwyn i ganlyniadau cytundeb setlo nad oedd yn un ysgrifenedig fod yr un fath â'r rhai yn is-adran (2), mae is-adran (5) yn darparu bod angen i ACC roi cadarnhad ysgrifenedig o hynny i'r person. Mae'n bosibl i ACC a pherson y mae penderfyniad apeliadwy yn y gymwys iddo ymrwymo i gytundeb setlo ar unrhyw adeg, ac eithrio pan fo apêl yn erbyn y penderfyniad wedi ei dyfarnu'n derfynol.

Rhan 9 - Ymchwilio i droseddau

Adran 185 - Pwerau i ymchwilio i droseddau

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

220. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer diwygio Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 ("DHTd") er mwyn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn cymhwyso darpariaethau penodol DHTd i ymchwiliadau ACC i droseddau. Byddai hyn yn galluogi ACC i ddefnyddio pwerau penodedig yn DHTd wrth ymchwilio i droseddau amrywiol, megis y troseddau a grëir yn y Bil hwn, yn ogystal â'r rheini a sefydlwyd gan Ddeddf Twyll 2006, neu'r drosedd cyfraith gyffredin o dwyllo cyllid y wlad.
221. Mae'r pwerau a ddarperir gan DHTd yn cynnwys arfau arferol ymchwiliadau troseddol, megis gwarantau chwilio, y pŵer i arestio person a'i gadw yn y ddalfa mewn cysylltiad ag ymchwiliad; a gorchmynion sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno gwybodaeth benodol.
222. Mae'r adran hefyd yn galluogi'r rheoliadau sy'n cymhwyso'r darpariaethau i addasu'r modd yr arferir y pwerau i ryw raddau.
223. Mae adran 114 o DHTd yn rhoi pŵer tebyg i Drysorlys Ei Mawrhydi gymhwyso darpariaethau penodol yn DHTd i ymchwiliadau i droseddau gan CThEM.
224. Mae is-adran (2) yn rhoi pŵer tebyg i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â'r darpariaethau yn Rhan 2 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 ("DCTH"), sy'n rhoi pwerau penodol i ymchwilyddyr atafaelu deunyddiau a ganfyddir yn ystod chwiliad, a'u cadw.
225. Mae'r pwerau yn y ddwy is-adran yn cynnwys pŵer i ganiatáu i bersonau sy'n cynnal ymchwiliadau ACC ddefnyddio grym rhesymol wrth arfer y pwerau hyn. Nid yw DHTd na DCTH yn cyfeirio at allu'r Heddlu i ddefnyddio grym rhesymol, gan fod gan yr Heddlu bŵer cyffredinol i ddefnyddio grym rhesymol wrth arfer swyddogaethau'r Heddlu. Ni fyddai hynny'n cael ei gymryd yn ganiataol yn achos personau sy'n cynnal ymchwiliadau ar ran ACC. O'r herwydd, mae angen sicrhau y gall y pwerau yn yr is-adrannau hyn gynnwys darpariaeth o'r fath.
226. Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan yr adran hon oni fo drafft wedi ei osod yn gyntaf gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

Adran 186 – Enillion troseddau

227. Mae Deddf Enillion Troseddau 2002 ("DET") yn gwneud darpariaeth ar gyfer adennill asedau a gaffaelwyd drwy ymddygiad troseddol, o dan amgylchiadau penodol. Mae'r gallu i adennill yr asedau hynny yn ddarostyngedig i fodloni amrywiaeth o amodau, ac yn y pen draw, ar lys troseddol yn gwneud gorchmyn i adennill yr asedau hynny.
228. Diben yr adran hon yn diwygio adran 453 o DET fel y caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchmyn i bennu y caniateir arfer pwerau penodol a ddarperir gan DET drwy ymchwilydd ariannol achrededig ("*accredited financial investigator*") a benodir gan ACC yn ystod ymchwiliad troseddol. Ystyr ymchwilydd ariannol achrededig yw ymchwilydd ariannol a achredwyd gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn unol

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

ag adran 3 o DET. Mae'r pwerau yn DET yn cynnwys y pŵer i wneud cais i lys troseddol am orchmynion llesteirio, gorchmynion atafaelu, neu orchmynion ymafael mewn arian.

229. Ni fydd gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran uchod yn gallu newid y drefn DET gyfredol, a bydd y mesurau diogelu cysylltiedig a ddarperir gan DET yn gymwys i arfer y pwerau gan ACC, a hynny heb eu diwygio. Mae is-adrannau (2) a (3) hefyd yn darparu y bydd yn ofynnol i ACC dalu iawndal i berson o dan amgylchiadau penodol pan gafwyd gorchymyn dros dro (gorchymyn llesteirio neu orchymyn ymafael mewn arian, er enghraifft), ond na wnaeth y llys roi gorchymyn atafaelu neu fforffedu.
230. Mae gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Adran 187 – Rheoleiddio pwerau ymchwilio

231. Mae Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ("DRhPY") yn galluogi asiantaethau gorfodi'r gyfraith i ddefnyddio pwerau ymchwilio penodol mewn modd sy'n cydymffurfio â hawliau dynol. Yn benodol, mae DRhPY yn rhoi pwerau i asiantaethau penodol sy'n gorfodi'r gyfraith gynnal gwyliadwriaeth gyfeiriedig (fel y'i diffinnir gan adran 26(2) o DRhPY), a gwyliadwriaeth cudd-wybodaeth ddynol (fel y'i diffinnir gan adran 28(2) o DRhPY).
232. Mae'r adran yn diwygio DRhPY er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn sy'n rhagnodi'r personau hynny sy'n arfer swyddogaethau ACC sy'n gallu awdurdodi gwyliadwriaeth gyfeiriedig neu gudd-wybodaeth ddynol o dan adrannau 28 a 29 o DRhPY. Mae is-adran (3) hefyd yn diwygio DRhPY fel bod ACC yn awdurdod cyhoeddus perthnasol ("*relevant public authority*") at ddibenion DRhPY. Gyda'i gilydd, bydd y diwygiadau hyn a'r gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru yn galluogi staff penodedig yn ACC i awdurdodi a chynnal gwyliadwriaeth gyfeiriedig a gwyliadwriaeth cudd-wybodaeth ddynol, cyn belled â bod yr amodau perthnasol a'r gofynion gweithdrefnol yn DRhPY yn cael eu bodloni.
233. Mae gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Rhan 10 – Darpariaethau terfynol

Adran 188 – Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol etc.

234. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol neu atodol mewn perthynas â'r Bil.

Adran 189 – Rheoliadau

235. Mae'r adran hon yn nodi gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru y bydd yr amrywiol bwerau dirprwyedig yn ddarostyngedig iddi. Mae is-adran (2) yn pennu'r rheoliadau a fydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, a bydd yr holl

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

reoliadau eraill yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Adran 190 – Dyroddi hysbysiadau

236. Mae'r adran hon yn gymwys pan fo darpariaeth o'r Bil neu o unrhyw reoliadau a wneir oddi tano wedi iddo gael ei ddeddfu, yn awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol i ACC ddyroddi hysbysiad i berson. Mae'r adran yn datgan sut y gellir dyroddi hysbysiad a sut y mae hysbysiad i'w drin fel pe bai wedi ei dderbyn mewn amgylchiadau gwahanol. Mae'r adran hefyd yn darparu diffiniad o "gyfeiriad priodol".

Adran 191 – Rhoi hysbysiadau a dogfennau eraill i ACC

237. Mae'r adran hon yn gymwys pan fo darpariaeth o'r Bil neu unrhyw reoliadau a wneir oddi tano wedi iddo gael ei ddeddfu, yn ei gwneud yn ofynnol neu'n caniatáu i berson roi hysbysiad neu ddogfen arall i ACC. Rhaid i unrhyw ddogfen fod ar y ffurf honno, gynnwys yr wybodaeth honno a chael ei rhoi yn y dull hwnnw a bennir gan ACC, ond yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau gwahanol a wneir o dan y Bil. Mae'r adran hefyd yn nodi'r amgylchiadau pan na fo'n gymwys.

Adran 192 - Dehongli

238. Mae'r adran hon yn diffinio'r hyn a olygir gan "dyfernir yn derfynol" mewn perthynas ag apêl neu atgyfeiriad, ac yn diffinio amrywiol dermau cyffredinol a ddefnyddir yn y Bil.

Adran 193 - Mynegai o ymadroddion a ddiffinnir

239. Mae'r adran hon yn darparu Tabl sy'n rhestru ymadroddion a ddiffinnir neu a eglurir fel arall yn y Ddeddf.

Adran 194 – Dod i rym

240. Mae'r adran hon yn nodi'r adrannau hynny a ddaw i rym ar y diwrnod ar ôl y Cydsyniad Brenhinol ac yn datgan bod y darpariaethau eraill yn dod i rym ar adeg a bennir mewn gorchymyn neu orchmynion a wneir gan Weinidogion Cymru.

Adran 195 – Enw byr

241. Mae'r adran hon yn darparu mai enw byr y Bil, unwaith iddo gael ei basio, fydd Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016.

Ôl-nodiadau

ⁱ Ymgynghoriad Treth Trafodiadau Tir: <http://gov.wales/consultations/finance/land-transaction-tax/?skip=1&lang=cy>

Ymgynghoriad Treth Gwarediadau Tirlenwi: <http://gov.wales/consultations/finance/landfill-disposals-tax/?skip=1&lang=cy>

ⁱⁱ Papur Gwyn: Casglu a Rheoli Trethi Datganoledig yng Nghymru: <http://gov.wales/docs/caecd/consultation/140923-white-paper-cy-v1.pdf>

ⁱⁱⁱ <http://gov.wales/consultations/finance/devolved-taxes/?skip=1&lang=cy>

^{iv} Tax Administration 2013: Comparative Information on OECD and Other Advanced and Emerging Economies

^v http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201314/cmhansrd/cm140224/text/140224w0001.htm#140224w0001.htm_wqn83